Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
39/2020
Dyddiad Cyhoeddi:
18/06/2020

# Adolygiad o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-80038-609-9

Adolygiad o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3 ac Einir Burrowes, Dateb

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Ymchwil Ysgolion
Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

# Cynnwys


Geirfa ..... 3
Crynodeb Gweithredol ..... 4
1. Cyflwyniad ..... 17
2. Methodoleg ..... 20
3. Adolygiad llenyddiaeth ..... 23
4. Data ar ddisgyblion sy'n derbyn eu prif addysg drwy ddarpariaeth heblaw yn yr ysgol ..... 36
5. Trefniadau ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ..... 42
6. Lleoli disgybl mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ..... 56
7. Dull ALlau o gomisiynu darpariaeth allanol ..... 63
8. Rheoli a monitro darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol ..... 73
9. Canfyddiadau ychwanegol o gyfweliadau ag UCD ..... 82
10. Darpariaeth allanol wedi'i hariannu gan ysgolion ..... 90
11. Adborth gan ddarparwr allanol addysg heblaw yn yr ysgol ..... 98
12. Canllawiau ar gyfer y Dyfodol ..... 109
13. Casgliadau ac argymhellion ..... 113
Atodiad A: Offerynnau ymchwil ..... 124

## Rhestr o dablau

Tabl 4.1: Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol fesul ALl, 2014/15 - 2018/19 ........................................................................................................................... 38
Tabl 4.2: Statws cofrestru disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol fesul ALl, 2012/13 a 2018/19 .............................................................................................. 39
Tabl 4.3: Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, yn ôl darpariaeth addysgol, 2018/19 ...................................................................................................... 41
Tabl 5.1: Mathau o ddarparwyr a gomisiynir gan ALlau, UCD ac ysgolion a nodwyd drwy'r gwaith maes ......................................................................................................... 43
Tabl 5.2: Dulliau ALl o ddarparu addysg i blant sy'n cael anawsterau yn yr ysgol................ 47
Tabl 6.1: Y wybodaeth y gofynnir amdani ar ffurflenni atgyfeirio addysg heblaw yn yr ysgol 59
Tabl 7.1: ALlau sy'n comisiynu darpariaeth allanol a'u defnydd o restrau neu fframweithiau o ddarparwyr .......................................................................................................... 65

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig* |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol* |
| ALI/AALI | Awdurdod Lleol / Awdurdod Addysg Leol |
| CALU | Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch |
| CDU | Cynllun Datblygu Unigol |
| CLG | Cytundeb Lefel Gwasanaeth |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| ESF | Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd |
| SAB | Sefydliad Addysg Bellach |
| SIMS | System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion |
| SpLD | Anhawster Dysgu Penodol[1] |
| UCD | Uned Cyfeirio Disgyblion |

*Mae'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r term Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac mae ganddo'r un diffiniad o dan y gyfraith. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn diwygio'r system addysg ar gyfer dysgwyr ifanc ag anghenion ychwanegol, ac yn sefydlu'r term newydd. Wrth i'r system baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf o fis Medi 2020 ymlaen, defnyddir y ddau derm. At ddibenion yr adroddiad hwn, dylid ystyried y gellir cyfnewid y naill am y llall.

[1] Mae hwn yn derm sy'n cyfeirio at wahaniaeth neu anhawster gydag agweddau ar ddysgu. Y mathau mwyaf cyffredin o SpLD yw dyslecsia, dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwyntio, dyscalcwlia a dysgraffia.

## Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol (ALlau) ac ysgolion i gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth addysg a gomisiynir gan ysgolion. Yr amcanion penodol oedd:

- nodi modelau presennol, eu harferion cysylltiedig a'r prosesau sydd ar waith ar draws yr holl ardaloedd ALl yng Nghymru
- nodi arferion a phrosesau sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd a ddefnyddir gan sefydliadau (ALlau ac UCD) wrth gomisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol
- nodi arferion a phrosesau sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd a ddefnyddir gan ysgolion wrth gomisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol
- nodi barn comisiynwyr darpariaeth allanol (ALlau, UCD ac ysgolion) ynghylch cryfderau a gwendidau'r arferion a'r prosesau a fabwysiadwyd
- asesu rhinweddau ac anfanteision cymharol y prosesau a ddefnyddir ar hyn o bryd
- gwneud argymhellion ar gyfer canllawiau comisiynu.

Addysg heblaw yn yr ysgol yw addysg a ddarperir gan yr ALl i ddiwallu anghenion disgyblion na allant, am ba reswm bynnag, fynychu ysgol a gynhelir. Mae'n chwarae rhan hanfodol o ran rhoi mynediad i addysg mewn ystod o leoliadau i rai o'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unedau cyfeirio disgyblion (UCD), sefydliadau addysg bellach (SAB), ysgolion annibynnol a sefydliadau'r trydydd sector. Gellir cyfuno'r opsiynau hyn hefyd ag addysg ran-amser mewn ysgol prif ffrwd fel rhan o becyn o fesurau sydd wedi'u cynllunio i ddarparu addysg briodol[2]. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod dadansoddiad 2018 o arferion

[2] Adran 4 (2) Deddf Addysg 1996.

cofrestru disgyblion wedi canfod bod y 'diffiniad EOTAS presennol yn agored i ddehongliadau goddrychol'[3].

Mae astudiaethau olynol wedi dangos bod argaeledd, natur ac ansawdd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn amrywio o un ardal ALl i'r llall[4] sy'n dynodi'r angen i lywodraeth genedlaethol 'arddel agwedd gryfach drwy sefydlu polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol'[5]. Er bod Llywodraeth Cymru yn ystyried 'trefniadau addysg heblaw yn yr ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion yn fater lleol'[6], mae'n bwriadu datblygu canllawiau i helpu ALlau ac ysgolion i gryfhau trefniadau ar gyfer comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol yn allanol i sicrhau bod proses diwydrwydd dyladwy yn cael ei dilyn o ran diogelu ac i sicrhau priodoldeb ac ansawdd y lleoliad a'r addysg.

**Dull**

Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2019 ac roedd yn cynnwys:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi dull methodolegol wedi'i fireinio a chynllun prosiect
- ymchwil desg, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o ddogfennau polisi a dogfennau rheoliadol perthnasol yn ymwneud ag addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru; dadansoddiad o ddata cyhoeddedig sy'n berthnasol i addysg heblaw yn yr ysgol; ac adolygiad byr o ganllawiau comisiynu a monitro yn ymwneud â darpariaeth a gomisiynwyd gan ysgolion yn Lloegr

[3] Llywodraeth Cymru (2018) Dadansoddiad o Baneli Atgyfeirio Awdurdod Lleol a/neu Ymarferion i Ddysgwyr sy'n Cael Mynediad at Ddarpariaeth EOTAS, tud.16.
[4] Llywodraeth Cymru (2013) Evaluation of Education Provision for Children and Young People Educated Outside the School Setting.
[5] Llywodraeth Cymru (2019) Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, tud.5.
[6] Ibid, tud.5.

- paratoi pum canllaw trafod ansoddol i gyfweld â rhanddeiliaid a chynrychiolwyr allweddol o ALlau, UCD, ysgolion a darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol
- cynnal cyfweliadau gyda thri sefydliad sy'n rhanddeiliaid allweddol[7]
- cynnal cyfweliadau â chynrychiolwyr sy'n gyfrifol am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar draws pob un o'r 22 ALl[8]
- cynnal cyfweliadau â chynrychiolwyr sy'n gyfrifol am ddarpariaeth UCD o fewn 13 ALl, sef yr athro â gofal yn nodweddiadol
- casglu gwybodaeth gan randdeiliaid, ALlau ac UCD am ysgolion sy'n ymwneud â chomisiynu neu ddefnyddio darpariaeth, yn ogystal â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol y gellid gofyn iddynt gyfrannu at yr adolygiad. Darparwyd manylion cyfanswm o 48 o ysgolion a 35 o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol
- cynnal cyfweliadau â chynrychiolwyr o 17 o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a 12 o ysgolion sy'n ymwneud â chomisiynu neu ddefnyddio darpariaeth
- syntheseiddio canfyddiadau'r gwaith maes a pharatoi adroddiad i ddarparu asesiad o effeithiolrwydd arferion comisiynu presennol ac amlygu nodweddion cyffredin a gwahaniaethau mewn dulliau gweithredu.

**Canfyddiadau Allweddol**

O ran y cyd-destun cyfreithiol a rheoliadol, canfu'r adolygiad:

- ei bod yn ofynnol i ALlau wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg briodol yn yr ysgol neu heblaw yn yr ysgol ar gyfer y plant hynny o oedran ysgol gorfodol na allant am unrhyw gyfnod, oherwydd salwch, oherwydd eu bod wedi'u gwahardd o'r ysgol neu am reswm arall, dderbyn addysg briodol oni wneir trefniadau o'r fath ar eu cyfer[9]. Mae gan ALlau hefyd y pŵer (ond nid y ddyletswydd) i ddarparu addysg briodol ar

[7] Estyn, Comisiynydd Plant Cymru a Chyngor Ysgolion Annibynnol Cymru.
[8] Cynhaliwyd un cyfweliad â chynrychiolydd sy'n gyfrifol am addysg heblaw yn yr ysgol yng Ngwynedd yn ogystal ag Ynys Môn.
[9] Deddf Addysg 1996 19 (1).

ffurf addysg heblaw yn yr ysgol i bobl ifanc na allant gael addysg briodol oni wneir trefniadau o'r fath ar eu cyfer[10]

- y tu hwnt i'r hyn a nodir mewn deddfwriaeth, nid oes diffiniad clir sy'n cael ei ddeall yn gyffredinol o addysg heblaw yn yr ysgol. Fodd bynnag, gellir ei ddarparu mewn ystod o leoliadau gan gynnwys UCD, SAB, ysgolion annibynnol a lleoliadau eraill fel darparwyr yn y trydydd sector neu'r sector preifat
- nad oes dehongliad cyson o'r hyn a olygir gan 'addysg heblaw yn yr ysgol' neu 'ddarpariaeth amgen', er bod y termau hyn wedi'u diffinio mewn deddfwriaeth ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae angen gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol sy'n ymwneud â'r maes gwaith hwn fel blaenoriaeth
- prin iawn yw'r llenyddiaeth gadarn ar arferion cydnabyddedig ac effeithiol o gomisiynu darpariaeth addysg allanol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau comisiynu yng Nghymru. Ystyriwyd canfyddiadau adolygiad Ofsted o'r ddarpariaeth a gomisiynir gan ysgolion yn Lloegr[11], sy'n cynnig mewnwelediad i gryfderau a gwendidau ymarfer presennol, wrth ddatblygu ein hargymhellion ar gyfer canllawiau comisiynu yng Nghymru yn y dyfodol.

O ran nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, canfu'r adolygiad:

- yn ôl cyfrifiad addysg heblaw yn yr ysgol a gynhelir yn flynyddol bob mis Ionawr, fod 2,286 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2019[12] yng Nghymru a oedd yn derbyn addysg y tu allan i'r ysgol wedi'i hariannu gan ALlau Cymru. O blith y rhain, roedd 1,784 yn derbyn eu prif addysg drwy ddarpariaeth heblaw yn yr ysgol ac roedd y 502 arall yn derbyn eu prif addysg mewn ysgol a gynhelir[13]

---

[10] Deddf Addysg 1996 19 (4).
[11] Ofsted (2016) Alternative provision: The findings from Ofsted's three-year survey of schools' use of off-site alternative provision.
[12] Yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd yn ystod wythnos y cyfrifiad rhwng 14 ac 18 Ionawr 2018.
[13] Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, 2018/19.

- bu gostyngiad nodedig yng nghyfran y disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol nad ydynt ar gofrestr ysgol a thwf yn y rhai â chofrestriad atodol rhwng mis Ionawr 2012 a 2019
- UCD sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, sef 43.5 y cant ac ysgolion annibynnol yw'r ail ddarpariaeth a ddefnyddir amlaf, sef 14.3 y cant ym mis Ionawr 2019
- nifer cyfartalog yr oriau o addysg a ddarperir i ddisgyblion y mae eu prif addysg y tu allan i'r ysgol yw 21 awr, er bod hyn yn amrywio yn ôl y math o leoliad addysgol a ddefnyddir.

O ran trefniadau comisiynu'r ALl, canfu'r adolygiad:

- fod y trefniadau'n amrywio o un ALl i'r llall. At ei gilydd, mae 13 ALl yn comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr allanol. Darpariaeth alwedigaethol sydd i'w gyfrif am y rhan fwyaf o hyn. Ym mhob ardal ALl heblaw dwy, cynigir darpariaeth mewn UCD
- mae saith ALl yn gweithredu fframwaith o ddarparwyr cymeradwy addysg heblaw yn yr ysgol a sicrhawyd drwy broses gomisiynu gystadleuol agored. Mae dau arall yn gweithredu fframwaith neu restr o ddarparwyr drwy lwybr anghystadleuol, lle mae'r ALl yn cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd. Mae trefniadau yn yr ALlau sy'n weddill lle mae darpariaeth yn cael ei chomisiynu gan ddarparwyr allanol yn llai tryloyw
- bod gan ALlau sy'n defnyddio fframwaith o ddarparwyr a benodwyd drwy broses gaffael gystadleuol brosesau trylwyr ar waith i asesu addasrwydd darparwyr a gomisiynir drwy ystyried polisïau ac arferion sefydliadol. Gellid gwella dulliau gweithredu drwy roi mwy o bwyslais yn y dyfodol ar ansawdd yr addysgu, cynnydd disgyblion a'r gallu i ddarparu ar gyfer dysgwyr y mae'n well ganddynt ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- bod dulliau cyllido addysg heblaw yn yr ysgol yn amrywio o un ALl i'r llall, yn enwedig o ran trefniadau adfachu ariannol gan ysgolion, gyda chyllid yn dod o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys o gyllideb UCD ac ysgolion.

O ran darpariaeth a gomisiynwyd gan UCD ac ysgolion, canfu'r adolygiad:

- fod UCD ac ysgolion yn comisiynu darpariaeth addysg allanol yn rheolaidd. Gwelwyd bod y trefniadau ar gyfer gwneud hynny yn weddol anffurfiol ar lefel ysgol gyda dibyniaeth fawr ar argymhellion a gafwyd ar dafod leferydd a defnyddio darparwyr a ddefnyddiwyd gan ysgolion yn y gorffennol
- bod 16 o ALlau wedi nodi bod ysgolion yn comisiynu darpariaeth addysg allanol. Mewn dwy ardal, nid oedd yr ALl yn ymwybodol bod ysgolion yn comisiynu darpariaeth, er bod yr adolygiad hwn wedi nodi achosion o'r fath
- bod cyfanswm o 9 o blith y 12 ysgol a gafodd eu cyfweld yn comisiynu darpariaeth addysg allanol yn uniongyrchol. Mae natur y ddarpariaeth yn amrywio yn yr un modd â nifer y disgyblion sy'n mynychu pob lleoliad.

O ran lleoli disgyblion mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, canfu'r adolygiad:

- fod ysgolion yn chwarae rhan arwyddocaol yn y broses o hysbysu ALlau am ddisgyblion y gall fod angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol arnynt. Gwneir defnydd helaeth o baneli atgyfeirio a ffurflenni atgyfeirio i gynorthwyo'r broses hon ac mae lle i wella cysondeb y wybodaeth y gofynnir amdani o fewn y broses atgyfeirio. Byddai ALlau yn croesawu canllawiau y gellid eu rhannu ag ysgolion ynghylch 'trothwy' atgyfeirio disgyblion
- bod anghenion disgyblion, a'u deilliannau addysgol, fel arfer yn cael eu nodi pan wneir yr atgyfeiriad i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Gellid gwella'r prosesau drwy sicrhau bod deilliannau addysg yn cael eu cytuno'n ysgrifenedig ar y cam atgyfeirio
- bod tuedd gynyddol i ymchwilio i ddatrysiadau ar ffurf darpariaeth uniongyrchol gan ALl i ddisgyblion na fyddai UCD yn addas iddynt. Canfu'r gwaith maes hefyd enghreifftiau o ysgolion yn cymryd camau ataliol cadarnhaol i ddiwallu'n well anghenion disgyblion a fyddai o

bosibl wedi cael eu hatgyfeirio at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel arall.

O ran monitro a rheoli'r ddarpariaeth a gomisiynwyd, canfu'r adolygiad:

- fod gan y mwyafrif o ALlau gontractau neu gytundebau lefel gwasanaeth (CLG) ar waith gyda darparwyr allanol. Roedd sawl ALl o'r farn y gallent chwarae rhan fwy rhagweithiol o ran monitro'r ddarpariaeth, yn enwedig o ran monitro ansawdd y ddarpariaeth ac i ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr.
- bod gwahaniaethau sylweddol yn y dulliau a'r ymdrech a ddefnyddir i fonitro a rheoli darpariaeth a gomisiynir gan ALl ac mae hwn yn faes y dylai canllawiau a gyhoeddir yn y dyfodol ei flaenoriaethu
- bod ysgolion yn gwneud defnydd cyfyngedig o gontractau CLG wrth gomisiynu darpariaeth addysg ac mae eu trefniadau monitro yn anffurfiol ar y cyfan. Canfuwyd bod UCD ar y llaw arall yn defnyddio dull pwrpasol o roi darpariaeth allanol ar waith ar gyfer disgyblion ac yn mabwysiadu rôl ymarferol iawn o ran monitro'r ddarpariaeth. Byddai'n fuddiol i ysgolion efelychu'r arferion effeithiol hyn.

Daw'r adolygiad i'r casgliad fod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau manwl sy'n cynnwys comisiynu a rheoli pob math o ddarpariaeth allanol gan gynnwys y ddarpariaeth a gomisiynir yn unol ag Adran 19 o'r Ddeddf Addysg a'r darpariaethau yn Neddf Addysg 2002. Daw'r adolygiad hefyd i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canlynol:

- ni chaiff yr arfer o annog ysgolion i fabwysiadu dull mwy cynhwysol o ddiwallu anghenion disgyblion a fyddai fel arall yn cael eu cyfeirio at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol drwy broses bresennol Llywodraeth Cymru o fonitro perfformiad ysgolion mewn perthynas â chyflawniadau CA4
- mae angen cynnig mwy o safoni a chanllawiau ynghylch statws cofrestru disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a disgyblion sy'n mynychu darpariaeth addysg y tu allan i ysgolion prif ffrwd a drefnir a/neu a ddarperir gan ysgolion

- dylai'r canllawiau nodi'r disgwyliadau mewn perthynas ag ailintegreiddio disgyblion i addysg prif ffrwd
- dylai'r canllawiau nodi'r data a'r adroddiadau gofynnol y gellid disgwyl i ddarparwyr allanol eu rhannu ag ALlau, UCD ac ysgolion.

**Argymhellion**

Mae'r adolygiad yn cynnig naw argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu mabwysiadu o fewn ei chanllawiau comisiynu:

| **Dull gweithredu cyffredinol** |
|---|
| 1. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n mynd ati o ddifrif i atgyfnerthu deddfwriaeth a chanllawiau presennol mewn perthynas â'r hyn yw addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth amgen a gomisiynir gan yr ALl yn ogystal â darpariaeth addysg a gomisiynir gan ysgolion, er mwyn gwella'r ddealltwriaeth ymhlith ymarferwyr.<br>2. Rydym yn argymell y dylai'r canllawiau fod yn berthnasol i gomisiynu a rheoli'r holl ddarpariaeth addysg allanol a ddarperir gan ALlau, ysgolion neu UCD ledled Cymru. |
| **Nodi hawliau'r disgybl** |
| 3. Dylai'r canllawiau amlinellu hawliau'r disgybl a'r hyn y gall ei ddisgwyl yn ystod y broses atgyfeirio a beth i'w ddisgwyl os ydyn yn cael mynediad at addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysg allanol. Gellid amlinellu hyn mewn canllaw hawdd ei ddeall i bobl ifanc. |
| **Cynllunio darpariaeth addysg allanol ac atgyfeirio at y ddarpariaeth honno** |
| 4. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n amlinellu:<br>• dull gweithredu ac enghraifft o amserlen y dylai ALlau, mewn cydweithrediad ag ysgolion, UCD a darparwyr, eu mabwysiadu er |

mwyn adolygu a nodi'r cyflenwad a'r galw mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hardal, a hynny'n rheolaidd

- y wybodaeth y byddai disgwyl iddi gael ei chynnwys ar ffurflenni atgyfeirio a ddefnyddir gan ysgolion wrth atgyfeirio disgyblion at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Dylai ffurflenni atgyfeirio, fan leiaf, nodi'r ymateb graddedig a fyddai'n ddisgwyliedig gan ysgolion cyn atgyfeirio disgybl i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac awgrymu trothwy addas lle y dylai ysgolion fod yn atgyfeirio disgyblion i gael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol
- yr angen i ALlau ddefnyddio paneli atgyfeirio mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau nodi'r cylch gorchwyl a'r aelodaeth ddisgwyliedig ar gyfer paneli atgyfeirio. Gallai'r canllawiau hefyd amlinellu sut y gallai paneli atgyfeirio gefnogi'r amcan o ailintegreiddio disgyblion yn ôl i addysg prif ffrwd, lle bo hynny'n briodol. Dylid cynnwys ysgolion fel aelodau o baneli atgyfeirio.

## Comisiynu darpariaeth addysg allanol

5. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n cynnwys rhestr wirio fanwl ar gyfer sicrhau ansawdd i'r rhai sy'n comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysg allanol er mwyn asesu addasrwydd darparwyr allanol, sy'n cynnwys:

- gwirio statws cofrestru darparwyr a sicrhau nad yw unrhyw ddarpariaeth addysg sy'n mynd yn groes i'r rheoliadau ynghylch cofrestru yn cael ei defnyddio
- rhestr briodol o bolisïau ac arferion sefydliadol y byddai disgwyl i ddarparwyr eu rhoi ar waith. Awgrymwn y dylai’r rhain gynnwys polisïau ymddygiad disgyblion, cynlluniau cwricwlwm, trefniadau diogelu disgyblion, polisi gwrth-fwlio, polisi iechyd a diogelwch, ansawdd adeiladau a chymwysterau a phrofiadau staff
- asesiad priodol o ansawdd yr addysgu a gynigir gan y darparwr

- gwybodaeth ysgrifenedig am rwydweithio cymdeithasol a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol
- gwybodaeth ysgrifenedig am ddisgwyliadau'r comisiynydd ynghylch y gweithdrefnau amddiffyn plant y dylid eu dilyn os oes gan ddarparwyr bryderon am ddisgybl
- gwybodaeth ysgrifenedig am sut y dylid hysbysu'r comisiynydd ynghylch presenoldeb disgyblion a gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw absenoldeb.

**Monitro a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth**

6. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n amlinellu'r hyn sy'n ofynnol o gyrff comisiynu o ran camau i fonitro a sicrhau ansawdd unrhyw ddarpariaeth addysg allanol. Yn benodol, rydym yn argymell:

- y gallai fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau gynnwys rhestr wirio y gallai ALlau, ysgolion neu UCD ei defnyddio i fonitro unrhyw ddarpariaeth a gomisiynir yn allanol. Byddem yn argymell bod y rhestr wirio yn ystyried cynnydd a chyflawniadau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth, y trefniadau arwain a rheoli a roddwyd ar waith gan ddarparwyr, yn ogystal â'r gweithgareddau datblygu a hyfforddi ar gyfer staff darparwyr
- dylid annog y rhai sy'n comisiynu darpariaeth addysg i werthuso'n systematig ansawdd yr addysgu a'r dysgu a ddarperir i ddisgyblion
- dylai'r rhai sy'n comisiynu darpariaeth addysg asesu effaith addysgu a dysgu ar gynnydd disgyblion tuag at y cymwysterau y maent yn eu hastudio.

**Y disgwyliadau o ran cyrff comisiynu**

7. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n nodi'r cyfrifoldebau y disgwylir i ALlau, ysgolion ac UCD eu hysgwyddo wrth gomisiynu darpariaeth addysg. Disgwyliwn i'r rhain gynnwys:

- y trefniadau lles disgyblion y disgwylir iddynt eu rhoi ar waith mewn perthynas â diogelu yn ogystal ag iechyd a diogelwch
- gwybodaeth ar lefel disgyblion y dylai'r ysgol neu'r UCD ei rhannu gyda'r darparwr cyn i'r lleoliad ddechrau
- natur yr ohebiaeth rhwng yr ALl, yr ysgol neu'r UCD a'r disgybl a'r rhiant/gofalwr yn ystod y broses atgyfeirio a'r lleoliad ei hun
- y wybodaeth ysgrifenedig sy'n ofynnol mewn perthynas ag amcanion y lleoliad, canlyniadau addysgol a thargedau ffurfiol yn ymwneud â chymwysterau (lle bo hynny'n briodol) ar gyfer y disgybl
- yr hyn sy'n ofynnol o ran monitro cynnydd disgyblion yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt
- yr hyn a ddisgwylir gan y corff comisiynu o ran monitro ymweliadau, gan gynnwys pa mor rheolaidd y dylai ymweld â'r darparwr i adolygu'r lleoliad
- y cynlluniau ar gyfer monitro presenoldeb a'r trefniadau ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw gyfnod o absenoldeb
- trefniadau trafnidiaeth er mwyn i'r disgybl fynychu'r lleoliad
- cynlluniau ar gyfer sicrhau bod y disgybl yn parhau i fod yn aelod o gymuned yr ysgol
- cynlluniau ar gyfer ailintegreiddio disgybl i'r ysgol, pe bai'n briodol gwneud hynny
- y camau y disgwylir i'r ysgol a'r UCD eu cymryd i adolygu'r deilliannau y mae'r disgybl yn eu cyflawni ac ansawdd y ddarpariaeth allanol
- y gofyniad i ysgolion ac UCD adrodd yn gywir ar y disgyblion hynny sy'n cael mynediad i ddarpariaeth addysg allanol.

| Y disgwyliadau o ran darparwyr allanol |
|---|
| 8. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n amlinellu'r cyfrifoldebau y disgwylir i ddarparwyr allanol eu hysgwyddo. Byddem yn disgwyl i'r rhain gynnwys:<br>• sut y maent yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac a ydynt wedi'u diffinio a'u cofrestru fel ysgol annibynnol<br>• pa bolisïau a gweithdrefnau y byddai disgwyl iddynt eu rhoi ar waith i sicrhau bod lles, addysg a diogelwch disgyblion yn cael eu cynnal<br>• yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran eu cysylltiad a'u cyfathrebu â'r corff comisiynu a rhiant/gofalwr y disgybl<br>• erbyn pryd y byddai disgwyl iddynt gynnal asesiad cychwynnol o anghenion addysg y disgybl a'r hyn y dylai'r asesiad hwn ei gynnwys<br>• yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran hysbysu'r corff comisiynu am bresenoldeb ac absenoldeb disgyblion: mae adolygiad o ganllawiau eraill yn awgrymu y byddai hyn yn digwydd ddwywaith y dydd<br>• yr hyn a fyddai'n ddisgwyliedig ohonynt o ran adrodd ar gynnydd disgybl i'r corff comisiynu a pha mor rheolaidd y dylid gwneud hynny: byddem yn disgwyl i hyn gwmpasu ymgysylltiad y disgybl, presenoldeb, ymddygiad a chynnydd a chyflawniad addysgol. |
| **Y disgwyliadau o ran Allau** |
| 9. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'r ALl o ran cefnogi darpariaeth a gomisiynir gan ysgolion. Rydym yn argymell y dylai ALlau: |

- ddatblygu a rhannu cyfeirlyfr neu fframwaith o ddarparwyr sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd y gall ysgolion eu defnyddio i gomisiynu darpariaeth ohono
- rhoi polisi ysgrifenedig ar waith i gefnogi ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth addysg allanol
- cynnal archwiliad blynyddol i fonitro a yw ysgolion yn comisiynu darpariaeth addysg allanol ai peidio ac adrodd i Lywodraeth Cymru ar nifer yr ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth, y disgyblion sy'n defnyddio darpariaeth o'r fath a natur y ddarpariaeth a ddefnyddir.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o ddulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol (ALlau) ac ysgolion i gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth addysg a gomisiynir gan ysgolion.

1.2 Addysg heblaw yn yr ysgol yw addysg a ddarperir gan yr ALl i ddiwallu anghenion disgyblion na allant, am ba reswm bynnag, fynychu ysgol a gynhelir. Mae'n chwarae rhan hanfodol o ran rhoi mynediad i addysg i rai o'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed mewn ystod o leoliadau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unedau cyfeirio disgyblion (UCD), sefydliadau addysg bellach (SAB), dysgu seiliedig ar waith, ysgolion annibynnol a sefydliadau'r trydydd sector. Gellir cyfuno'r opsiynau hyn hefyd ag addysg ran-amser mewn ysgol prif ffrwd fel rhan o becyn o fesurau sydd wedi'u cynllunio i ddarparu addysg briodol[14]. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod dadansoddiad 2018 o arferion cofrestru disgyblion wedi canfod bod y 'diffiniad EOTAS presennol yn agored i ddehongliadau goddrychol'[15].

1.3 Mae astudiaethau olynol wedi dangos bod argaeledd, natur ac ansawdd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn amrywio o un ardal ALl i'r llall[16] sy'n dynodi'r angen i lywodraeth genedlaethol 'arddel agwedd gryfach drwy sefydlu polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol'[17]. Er bod Llywodraeth Cymru yn ystyried 'trefniadau addysg heblaw yn yr ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion yn fater lleol'[18], mae'n bwriadu datblygu canllawiau i helpu ALlau ac ysgolion i gryfhau trefniadau ar gyfer comisiynu darpariaeth allanol er mwyn sicrhau bod proses diwydrwydd dyladwy yn cael ei dilyn o ran diogelu ac i sicrhau priodoldeb ac ansawdd y lleoliad a'r addysg.

---

[14] Adran 4 (2) Deddf Addysg 1996.
[15] Llywodraeth Cymru (2018) Dadansoddiad o Baneli Atgyfeirio Awdurdod Lleol a/neu Ymarferion i Ddysgwyr sy'n Cael Mynediad at Ddarpariaeth EOTAS, tud.16.
[16] Llywodraeth Cymru (2013) Evaluation of Education Provision for Children and Young People Educated Outside the School Setting.
[17] Llywodraeth Cymru (2019) Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, tud.5.
[18] Ibid, tud.5.

1.4 Mae'r Fframwaith Gweithredu Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn cynnig 33 o gamau tymor byr, tymor canol a thymor hir y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd er mwyn gwella'r deilliannau i ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol. Mewn perthynas â chomisiynu a monitro'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys:

- datblygu canllawiau anstatudol ar ddatblygu fframweithiau comisiynu a gofynion ansawdd ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, ar ôl gwneud gwaith ymchwil i arfer gorau
- ystyried cyflwyno gofyniad statudol i ALlau sefydlu fframweithiau comisiynu[19].

1.5 Nod yr adolygiad hwn oedd casglu tystiolaeth ynghylch trefniadau comisiynu presennol ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol ar draws y 22 ALl yng Nghymru. Y bwriad oedd y byddai'r adolygiad yn:

- nodi modelau presennol, eu harferion cysylltiedig a'r prosesau sydd ar waith ar draws yr holl ardaloedd ALl yng Nghymru
- nodi arferion a phrosesau sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd a ddefnyddir gan sefydliadau (ALlau ac UCD) wrth gomisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol
- nodi arferion a phrosesau sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd a ddefnyddir gan ysgolion wrth gomisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol
- nodi barn comisiynwyr darpariaeth allanol (ALlau, UCD ac ysgolion) ynghylch cryfderau a gwendidau'r arferion a'r prosesau a fabwysiadwyd
- asesu rhinweddau ac anfanteision cymharol y prosesau a ddefnyddir ar hyn o bryd
- gwneud argymhellion ar gyfer canllawiau comisiynu.

1.6 Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd yn cynnwys ymchwil desg a gwaith maes gydag ystod o randdeiliaid gan gynnwys ALlau, UCD, ysgolion a chynrychiolwyr darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol.

[19] Ibid, tud.12-13.

1.7 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn 13 o benodau, fel a ganlyn:

- pennod un: cyflwyniad i'r astudiaeth
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: y cefndir a'r cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yng Nghymru gan ystyried canllawiau comisiynu Lloegr
- pennod pedwar: ystyriaeth o'r data sy'n ymwneud â disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol yng Nghymru
- penodau pump i 12: canfyddiadau'r gwaith maes
- pennod 13: ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal yr adolygiad ac yn rhoi sylw i rai ystyriaethau methodolegol allweddol.

**Dull**

2.2 Roedd yr adolygiad, a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2019, yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi dull methodolegol wedi'i fireinio a chynllun prosiect
- ymchwil desg, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o ddogfennau polisi a dogfennau rheoliadol perthnasol yn ymwneud ag addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru; dadansoddiad o ddata cyhoeddedig sy'n berthnasol i addysg heblaw yn yr ysgol; ac adolygiad byr o ganllawiau comisiynu a monitro yn ymwneud â darpariaeth a gomisiynwyd gan ysgolion yn Lloegr
- paratoi pum canllaw trafod ansoddol i gyfweld â rhanddeiliaid a chynrychiolwyr allweddol o ALlau, UCD, ysgolion a darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol
- cynnal cyfweliadau gyda thri sefydliad sy'n rhanddeiliaid allweddol[20]
- cynnal cyfweliadau gyda chynrychiolwyr sy'n gyfrifol am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar draws 22 ALl[21]
- cynnal cyfweliadau â chynrychiolwyr sy'n gyfrifol am ddarpariaeth UCD o fewn 13 ALl, sef yr athro â gofal yn nodweddiadol
- casglu gwybodaeth gan randdeiliaid, gan gynnwys ALlau a UCD am ysgolion sy'n ymwneud â chomisiynu neu ddefnyddio darpariaeth yn ogystal â darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol y gellid gofyn iddynt gyfrannu at yr adolygiad. Darparwyd manylion cyfanswm o 48 o ysgolion a 35 o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol

---

[20] Estyn, Comisiynydd Plant Cymru a Chyngor Ysgolion Annibynnol Cymru.
[21] Cynhaliwyd un cyfweliad â chynrychiolydd sy'n gyfrifol am addysg heblaw yn yr ysgol yng Ngwynedd yn ogystal ag Ynys Môn.

- cynnal cyfweliadau â chynrychiolwyr o 17 o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a 12 o ysgolion sy'n ymwneud â chomisiynu neu ddefnyddio darpariaeth addysg allanol
- syntheseiddio canfyddiadau'r gwaith maes a pharatoi'r adroddiad hwn i ddarparu asesiad o effeithiolrwydd arferion comisiynu presennol ac amlygu nodweddion cyffredin a gwahaniaethau mewn dulliau gweithredu.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.3 Mae angen cadw'r materion methodolegol a ganlyn mewn cof wrth ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn:

- y bwriad oedd cyfweld â chyfanswm o 15 o ysgolion ac 20 o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, gan sicrhau croestoriad o ran math a daearyddiaeth. Bwriad y sampl o ddarparwyr oedd cynnig croestoriad o ysgolion annibynnol, SAB, darparwyr preifat a darparwyr y trydydd sector. Roedd casglu gwybodaeth am ysgolion a darparwyr priodol yn dibynnu ar ALlau, rhanddeiliaid ac UCD yn cynnig awgrymiadau addas. Er yr awgrymwyd nifer ddigonol o ysgolion a darparwyr, roedd ansawdd y manylion cyswllt yn amrywio ac o'r herwydd yn ei gwneud hi'n anodd cysylltu â'r person cywir. Profodd yn anodd iawn hefyd sicrhau cyfraniad ysgolion a darparwyr: ni wnaeth nifer ymateb i'r cais i gymryd rhan neu roeddent yn amharod i wneud hynny, er gwaethaf sawl ymgais i gysylltu â nhw. Roedd amgylchiadau'r darparwyr hefyd yn atal rhai rhag cyfrannu e.e. nid oedd un yn ystyried ei fod yn cynnig unrhyw ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol tra bod un arall ar fin rhoi'r gorau i fasnachu
- roedd gan y rhai a gyfwelwyd ddehongliadau amrywiol o'r hyn yw darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac effeithiodd hyn ar ffocws a chynnwys y cyfweliadau. Er enghraifft, roedd rhai o'r cynrychiolwyr a gyfwelwyd o'r farn bod darpariaeth a gomisiynir gan ysgolion yn ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac, felly, yn myfyrio ar hyn yn eu hymatebion, ond nid felly gynrychiolwyr eraill
- mae'r canfyddiadau a'r casgliadau ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr ag arfer da ac effeithiol o ran comisiynu a monitro darpariaeth addysg allanol yn seiliedig yn bennaf ar ganfyddiadau a barn rhanddeiliaid, gan gynnwys

ALlau, UCD, ysgolion a darparwyr, a gyfrannodd at yr ymchwil. Er bod yr adolygiad wedi ceisio nodi arfer comisiynu cydnabyddedig ac effeithiol, daeth yn amlwg, heblaw am dystiolaeth sydd ar gael drwy'r cyrff arolygu Estyn ac Ofsted, fod y dystiolaeth ddogfennol yn gyfyngedig. O ganlyniad, mae'r dadansoddiad o rinweddau ac anfanteision cymharol y prosesau a fabwysiadwyd wedi'i lywio'n bennaf gan ein gwaith maes a'r dystiolaeth a gynigiwyd yn ystod y cyfweliadau ymchwil.

# 3. Adolygiad llenyddiaeth

3.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cyd-destun cyfreithiol a rheoliadol perthnasol ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn gyntaf. Yna mae'n ystyried canllawiau comisiynu darpariaeth addysg allanol sydd ar gael yn Lloegr.

**Y cyd-destun cyfreithiol a rheoliadol**

3.2 Mae Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg briodol yn yr ysgol neu heblaw yn yr ysgol i'r plant hynny o oedran ysgol gorfodol na allant am unrhyw gyfnod, oherwydd salwch, oherwydd eu bod wedi'u gwahardd o'r ysgol neu am reswm arall, gael addysg briodol oni wneir trefniadau o'r fath ar eu cyfer[22].

3.3 Mae Adran 19(1) Deddf 1996 hefyd yn rhoi i ALlau y pŵer (ond nid y ddyletswydd) i ddarparu addysg briodol ar ffurf addysg heblaw yn yr ysgol i bobl ifanc na allant gael addysg briodol oni wneir trefniadau o'r fath[23]. Diffinnir pobl ifanc at y diben hwn fel unigolion dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 18 oed.

3.4 O dan adran 19(6) o Ddeddf 1996, diffinnir addysg briodol fel addysg effeithlon sy'n briodol i oedran, gallu, tueddfryd, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA) a all fod gan y plentyn (neu'r person ifanc). Rhaid i ALlau benderfynu, drwy ymgynghori â rhieni/gofalwyr, ar yr hyn y gellir ei ystyried yn addysg briodol y tu allan i'r ysgol ar gyfer plentyn penodol, yn unol â pholisïau'r ALl, defnyddio adnoddau'n effeithlon a rhoi sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru. Ni all ALlau benderfynu peidio â threfnu unrhyw addysg na gwneud trefniadau nad ydynt yn darparu addysg briodol i unrhyw blentyn[24].

3.5 O dan adran 4(2) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 10 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997) cyfrifoldeb yr ALl yw trefnu i blentyn

[22] Deddf Addysg 1996 19 (1).
[23] Deddf Addysg 1996 19 (4).
[24] Llywodraeth Cymru (2016) Cynnwys a chynorthwyo disgyblion: Canllawiau, tud.149.

fynychu ysgol prif ffrwd yn rhan-amser fel rhan o becyn o fesurau sydd â'r nod o ddarparu addysg briodol.

3.6 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru 2016, Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, yn amlinellu'r cyfrifoldebau ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i sicrhau eu bod yn derbyn addysg briodol, gan gynnwys addysg a ddarperir y tu allan i leoliad yr ysgol. Mae'r canllawiau'n nodi, ymhlith pethau eraill, y dylai ALlau:

- 'sicrhau bod pob parti'n cael gwybodaeth lawn am y gwahanol ddewisiadau ar gyfer addysg amgen sydd ar gael iddynt a sut y gallent gael mynediad atynt, yn uniongyrchol neu drwy'r awdurdod lleol.'
- '[c]ael swyddog enwebedig â chyfrifoldeb am gyd-drefnu darpariaeth amgen'
- parhau i fod yn atebol am ansawdd yr addysg y mae'n dewis ei gontractio e.e. i SAB, ysgolion annibynnol neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith
- bod yn gyfrifol am 'asesu addasrwydd darparydd newydd cyn anfon disgyblion ato'
- bod yn gyfrifol am lunio 'contract/cytundeb lefel gwasanaeth gyda phob darparydd, gan roi manylion am natur y trefniant, nodi'n glir beth yw disgwyliadau'r awdurdod lleol a chadarnhau'r gofynion statudol'
- 'sefydlu systemau cadarn i fonitro'r trefniadau'n rheolaidd'
- sicrhau bod 'yr addysg o safon ddigonol a bod y ddarpariaeth yn cynnig gwerth da am arian', gan ystyried dangosyddion effeithiolrwydd y ddarpariaeth sy'n cynnwys:
    - 'costau uned
    - ansawdd y ddarpariaeth – o ran amgylchedd addas a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol, yn ogystal â chyflwyno'r cwricwlwm
    - lefelau cyrhaeddiad
    - presenoldeb
    - nifer y gwaharddiadau
    - cyfraddau ailintegreiddio

- nifer y disgyblion sy’n mynd ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant neu’n cael gwaith
- cyfleoedd ar gyfer achrediad priodol'[25].

3.7 O ran y cyfrifoldeb i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a gomisiynir yn allanol, argymhellodd Estyn (2016) y dylai ALlau wirio'n ofalus statws cofrestru pob darparwr y maent yn ei ddefnyddio i sicrhau, lle bo hynny'n briodol, bod y ddarpariaeth y maent yn ei chomisiynu wedi'i chofrestru fel ysgol annibynnol gyda Llywodraeth Cymru[26]. Nododd hefyd y dylai ysgolion 'wirio’n ofalus statws cofrestru pob darparwr a ddefnyddiant a chadarnhau a ddylai’r darparwr fod wedi cofrestru os nad ydyw'[27]. Ni wnaeth Estyn nodi'n benodol bod hyn yn ymwneud â chofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel ysgolion annibynnol. Mae cofrestriad gorfodol hefyd yn cynnwys cofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur dynodedig.

3.8 Yn ôl adroddiad Estyn 'nid yw’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro nac yn goruchwylio addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen yn ddigon trylwyr', gydag ALlau yn gyffredinol yn anwybodus ynghylch nifer y disgyblion sy'n 'manteisio ar ddarpariaeth amgen amser llawn oddi ar y safle,' a gomisiynir yn uniongyrchol gan ysgolion yn hytrach nag addysg sy'n cael ei darparu neu ei chomisiynu gan ALlau eu hunain[28]. Nododd Estyn hefyd, er bod y 'rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn casglu data ar y cymwysterau y mae disgyblion sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hennill... dim ond lleiafrif... sy’n monitro ac arfarnu' agweddau eraill ar y cynnydd a wneir gan ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol[29].

**Diffinio addysg heblaw yn yr ysgol**

---

[25] Llywodraeth Cymru (2016) Cynnwys a chynorthwyo disgyblion: tud 153-155.
[26] Estyn (2016) Addysg Heblaw yn yr Ysgol, tud.7. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ymatebion i arolwg o awdurdodau lleol, cyfweliadau â chynrychiolwyr, ymweliadau â darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a chraffu ar ddogfennau.
[27] Estyn (2016) Addysg Heblaw yn yr Ysgol, tud.8
[28] Estyn (2016) Addysg Heblaw yn yr Ysgol, tud.5
[29] Estyn (2016) Addysg Heblaw yn yr Ysgol, tud.5

3.9 Fel y nodir yn flaenorol, y tu hwnt i'r hyn a nodir mewn deddfwriaeth, nid oes diffiniad clir o addysg heblaw yn yr ysgol sy'n cael ei ddeall yn gyffredinol. Cyfeirir at addysg heblaw yn yr ysgol mewn amrywiol ffyrdd mewn dogfennau polisi, arweiniad ac ymchwil fel:

- 'addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac nid yw'n cynnwys yr addysg a ddarperir gan rieni sydd wedi dewis addysgu eu plant gartref'[30]
- 'addysg amgen' a ddarperir gan gyrff eraill, gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol[31]
- 'darpariaeth amgen y tu allan i leoliad yr ysgol' a gomisiynir gan ysgolion 'yn annibynnol ar eu hawdurdodau lleol'[32]
- Mae canllawiau 2016 yn cyfeirio at '[d]dyletswyddau awdurdodau lleol ac ysgolion yng nghyswllt darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol – a elwir weithiau'n 'ddarpariaeth amgen'[33]
- 'nid yw'n ymwneud â darpariaeth gyffredinol y tu allan i'r ysgol ar gyfer yr holl ddisgyblion, sef yr hyn mae Llwybrau Dysgu ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yn canolbwyntio arno'[34].

**Mathau o Ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol**

3.10 Gellir darparu addysg heblaw yn yr ysgol mewn ystod o leoliadau a thrafodir isod ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â mathau penodol o ddarparwr.

*Unedau Cyfeirio Disgyblion*

3.11 Mae adran 19 (2) o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio UCD fel unrhyw ysgol a sefydlir ac a gynhelir gan awdurdod lleol sydd (a) wedi'i threfnu'n arbennig i ddarparu addysg i blant o'r fath [y rhai na fyddant yn cael addysg briodol

---

[30] Llywodraeth Cymru (2011) Adolygiad o Addysg Heblaw am yr Ysgol a'r Cynllun Gweithredu, tud.2.
[31] Llywodraeth Cymru (2016) Cynnwys a chynorthwyo disgyblion: dogfen ganllawiau rhif 203/2016, tud.157.
[32] Estyn (2016) Addysg Heblaw yn yr Ysgol, tud.19.
[33] Llywodraeth Cymru (2016) Cynnwys a chynorthwyo disgyblion: dogfen ganllawiau rhif 203/2016, tud.155.
[34] Llywodraeth Cymru (2011) Adolygiad o Addysg Heblaw am yr Ysgol a'r Cynllun Gweithredu, tud.7.

oni bai bod trefniadau addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu gwneud] a (b) nad yw'n ysgol sir nac yn ysgol arbennig'[35].

3.12 Mae Atodlen 1 o Ddeddf Addysg 1996:

- yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am UCD ddarparu cwricwlwm cytbwys ac eang[36]
- yn ei gwneud yn ofynnol i addysgu addysg rhyw, yn unol â deddfwriaeth ar gyfer ysgolion cymunedol[37]
- yn gwahardd trwytho gwleidyddol ac yn rheoleiddio trin materion gwleidyddol yn unol â deddfwriaeth ar gyfer ysgolion cymunedol[38]
- yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau sicrhau bod gwybodaeth ar gael am yr Uned Bolisi i rieni disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr UCD[39]
- yn cymhwyso darpariaethau arbennig ar gyfer gorchmynion mynychu'r ysgol[40]
- yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau wneud darpariaeth i sefydlu pwyllgorau rheoli UCD ac mae'n argymell y dylai ALlau geisio penodi cynrychiolwyr o ysgolion lleol yn gyntaf[28].

3.13 Mae gwerthusiad o addysg heblaw yn yr ysgol a gynhaliwyd yn 2013 yn nodi ‘nad ysgol prif ffrwd nac ysgol arbennig yw UCD ond yn gyfreithiol mae'n fath o ysgol yn ogystal â bod yn ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol'[41]. Fodd bynnag, aiff yr adroddiad ymlaen i sôn am ddryswch sy'n deillio o wahanol ddefnydd o'r term 'UCD' (beth bynnag fo'r sail gyfreithiol), gyda gwahanol randdeiliaid yn defnyddio'r term UCD i gyfeirio at bortffolio o ddarpariaeth addysg mewn gwahanol leoliadau neu at rywbeth llawer

[35] Deddf Addysg 1996 19 (2).
[36] Deddf Addysg 1996, Atodlen 1 (6).
[37] Deddf Addysg 1996, Atodlen 1 (8).
[38] Deddf Addysg 1996, Atodlen 1 (8).
[39] Deddf Addysg 1996, Atodlen 1 (11).
[40] Deddf Addysg 1996, Atodlen 1 (14).
[28] Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014.
[41] Llywodraeth Cymru (2013) Evaluation of Education Provision for Children and Young People Educated Outside the School Setting, tud. 77.

tebycach i ysgol fach mewn un adeilad sydd â phoblogaeth sy'n hawdd ei hadnabod[42].

3.14 Mae'r ffaith bod UCD wedi'u cofrestru ag ALlau yn sicrhau eu bod yn destun arolygiadau. Fodd bynnag, nododd Estyn (2016) fod 'mwyafrif yr awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw yn cynnal UCD heb eu cofrestru. Maent yn gweithredu canolfannau addysg a chanolfannau eraill heb eu cofrestru i ddarparu addysg am hyd at 25 awr yr wythnos'[43].

*Sefydliadau Addysg Bellach*

3.15 O dan adran 18 (1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae gan sefydliadau Addysg Bellach (SAB) bwerau i ddarparu addysg uwchradd i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, yn amodol ar ymgynghori ag awdurdodau addysg lleol perthnasol. Mae adran 52A o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i SAB sicrhau na ddarperir unrhyw addysg i berson 19 oed neu'n hŷn yn yr un ystafell â dysgwyr o oedran ysgol gorfodol.

3.16 Cyflwynwyd y Mesur Dysgu a Sgiliau (2009)[44] i ddarparu sylfaen statudol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 a nododd hawl dysgwyr i ddewis ac astudio o ystod eang o gyrsiau a chyfleoedd yn eu hardal leol. Mae Adran 13 o'r Mesur Dysgu a Sgiliau (2009) hefyd yn darparu ar gyfer ALlau, ysgolion a gynhelir a SAB yn ymrwymo i 'drefniadau cydweithredu' er mwyn sicrhau bod cyrsiau sydd wedi'u cynnwys yn y cwricwla lleol ar gael.

3.17 Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn nodweddiadol gan SAB yn cynnwys darpariaeth alwedigaethol neu gyrsiau paratoi ar gyfer cyflogaeth ac mae wedi'i hanelu'n bennaf at ddisgyblion ym mlwyddyn 11 ac, i raddau llai, disgyblion ym mlwyddyn 10. Yn wir, mae rhai SAB yn cynnig rhaglenni rhan-amser sydd wedi'u cynllunio i hwyluso'r broses o bontio i addysg a hyfforddiant ôl-16.

---

[42] Llywodraeth Cymru (2013) Evaluation of Education Provision for Children and Young People Educated Outside the School Setting, tud. 75.
[43] Estyn (2016) Addysg Heblaw yn yr Ysgol, tud.6
[44] Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

*Ysgolion annibynnol*

3.18 Mae adran 463 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 172 o Ddeddf Addysg 2002) yn diffinio ysgol annibynnol fel unrhyw ysgol lle y darperir addysg amser llawn ar gyfer:

- pump neu fwy o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol; neu
- un neu fwy o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol gyda datganiad o anghenion addysgol arbennig, neu sydd mewn gofal cyhoeddus (o fewn ystyr adran 22 o Ddeddf Plant 1989),

ac nad yw'n cael ei chynnal gan ALl. Mae'n werth nodi, er nad yw addysg amser llawn wedi'i diffinio yn y gyfraith, ystyrir bod ysgolion annibynnol yn darparu addysg amser llawn os yw'n darparu addysg y bwriedir iddi fod yn holl addysg y plentyn neu'n rhan fwyaf o'i addysg'[45]. Yn ymarferol felly, os yw disgybl yn derbyn, er enghraifft, 10 awr o addysg yr wythnos a bod hyn i gyd yn cael ei ddarparu gan ysgol annibynnol, yna ystyrir bod yr ysgol yn darparu addysg amser llawn i'r disgybl hwnnw.

3.19 Rhaid i ysgolion annibynnol yng Nghymru fod wedi cofrestru gyda Gweinidogion Cymru[46] a gall unrhyw un sy'n gweithredu ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru gael ei ddirwyo neu ei garcharu[47]. Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth nodi bod Estyn wedi canfod bod ALlau weithiau'n 'comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol... gan ddarparwyr sydd heb gofrestru fel ysgolion annibynnol'[48].

3.20 Mae adran 157 o Ddeddf Addysg 2002 yn caniatáu ar gyfer gwneud rheoliadau i ragnodi'r safonau sy'n ofynnol gan ysgolion annibynnol. Mae Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn ymdrin ag:

- ansawdd yr addysg
- datblygiad ysbrydol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion
- llesiant, iechyd a diogelwch disgyblion
- addasrwydd perchnogion a'r staff

[45] Llywodraeth Cymru (2014) Independent schools registration and operation guidance.
[46] Deddf Addysg 2003 158 (3).
[47] Deddf Addysg 2003 159 (2).
[48] Estyn (2016) Addysg Heblaw yn yr Ysgol, tud.5.

- tir, adeilad a llety byrddio yn yr ysgol
- darparu gwybodaeth
- sut i ymdrin â chwynion.

3.21 Yng nghyd-destun comisiynu darpariaeth gan ysgolion annibynnol, nododd Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn 2011 'efallai bod cyfle i gydweithio [rhwng ALlau) yng nghyswllt comisiynu lleoedd gan yr un sefydliadau yn y sector preifat neu'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau safonau a threfniadau codi tâl teg ac archwilio'r posibiliadau o ran arbedion maint... [a] sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu'[49].

*Addysg yn y cartref*

3.22 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar ALlau i wneud trefniant ar gyfer darparu addysg addas i blant na allant, oherwydd salwch, dderbyn addysg briodol am unrhyw gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer[50]. Prin yw'r defnydd a wna ALlau o addysg yn y cartref i ddarparu addysg i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai na allant fynychu'r ysgol oherwydd salwch. Darperir addysg o'r fath yng nghartrefi disgyblion. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod 'mwy a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o becynnau addysg sydd i'w cael ar y rhyngrwyd fel ffordd effeithiol o ddarparu addysg yn y cartref, yn enwedig i ddisgyblion sâl. Ni ddylai pecynnau o'r fath ddisodli cymorth bugeiliol neu gynllunio ar gyfer ailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd'[51].

*Darpariaeth addysg wedi'i chomisiynu gan ysgolion*

3.23 Mae Deddf Addysg 2002 yn rhoi pŵer i gyrff llywodraethu ysgolion gomisiynu gwasanaethau allanol drwy'r darpariaethau a ganlyn:

- Adran 116G sy'n gosod dyletswydd ar gorff llywodraethu ysgolion i sicrhau hawliau o ran y cwricwlwm lleol yn ystod Cyfnod Allweddol 4 (h.y. disgyblion 14-16 oed)

---

[49] Llywodraeth Cymru (2011) Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol a'r Cynllun Gweithredu, tud.9.
[50] Deddf Addysg 1996 19 (1).
[51] Llywodraeth Cymru (2016) Cynnwys a chynorthwyo disgyblion: tud. 164.

- mae Adran 29 yn nodi y gall corff llywodraethu ysgol a gynhelir ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol fynychu unrhyw le y tu allan i adeilad yr ysgol at ddibenion derbyn unrhyw gyfarwyddyd neu hyfforddiant sydd wedi'i gynnwys yng nghwricwlwm seciwlar yr ysgol[52]
- mae Atodlen 1 yn rhoi pwerau i gyrff llywodraethu wneud unrhyw beth sy'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n hwylus iddynt at ddibenion, rhedeg ysgol[53] gan gynnwys ymrwymo i gontractau[54].

3.24 Mae'r Ddeddf hefyd yn grymuso cyrff llywodraethu i gomisiynu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys lleoliadau gwaith.

3.25 Mae nifer o ysgolion yn comisiynu darpariaeth addysg allanol ac yn aml cyfeirir at hyn fel 'darpariaeth amgen'. Er enghraifft, yn yr un adroddiad y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn y bennod hon, nododd Estyn fod 'llawer o ysgolion yn comisiynu darpariaeth amgen y tu allan i leoliad yr ysgol yn annibynnol ar eu hawdurdodau lleol ac mae pob ysgol yn comisiynu drwy'r rhwydwaith 14-19 o ddarparwyr lleol'[55].

3.26 Fodd bynnag, diffinnir y term 'darpariaeth amgen' fel darpariaeth a gomisiynir gan ALlau yn Neddf Addysg 1996: 'educational provision for which a local authority has made arrangements under section 19 of EA 1996 (exceptional provision of education in pupil referral units or elsewhere)'[56]. Cadarnheir ymhellach ei bod yn ddarpariaeth a gomisiynir gan ALlau yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysgu Mewn Darpariaeth Amgen) (Cymru) 2009. Mae'r nodyn esboniadol yn datgan:

'Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cyflenwi gwybodaeth am blant sy'n cael addysg a ariennir gan awdurdod lleol y tu allan i ysgolion prif ffrwd, a honno'n addysg y cyfeirir ati fel arfer fel 'darpariaeth amgen'. Mae darpariaeth amgen yn cynnwys addysg nad yw

[52] Deddf Addysg (2002) Adran 29 (3).
[53] Deddf Addysg (2002) Atodlen 1, para. 3(1a).
[54] Deddf Addysg (2002) Atodlen 1, para. 3(3)c.
[55] Estyn (2016) Addysg Heblaw yn yr Ysgol, tud. 21.
[56] Deddf Academïau 2010 Adran 9 (4).

mewn ysgol, addysg mewn ysgol annibynnol neu mewn uned cyfeirio disgyblion'[57].

3.27 Felly, mae'r defnydd eang o'r term 'darpariaeth amgen' i gyfeirio at ddarpariaeth a gomisiynir gan ysgolion (gan gynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru[58]) wedi creu dryswch[59] ac wedi arwain at ddiffyg eglurder a dealltwriaeth ar draws y sector o ran ystyr y term.

3.28 Nododd Llywodraeth Cymru 'ni fu'n fwriad polisi Llywodraeth Cymru erioed i ysgolion a'u cyrff llywodraethu gomisiynu gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol eu hunain nac ychwaith Ddarpariaeth Amgen'[60]. Yn fwy penodol, 'nid yw Llywodraeth Cymru'n meddwl ei bod yn briodol i ysgolion gomisiynu darpariaeth allanol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad, er enghraifft gwersi gartref i blant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol'[61].

3.29 Mae ALlau yn gweithredu eu polisïau eu hunain mewn perthynas â'r darpariaethau yn Neddf Addysg 2002 sy'n galluogi ysgolion i gomisiynu darpariaeth addysg. Mae rhai ALlau yn gweithredu paneli atgyfeirio i gymeradwyo sefydliadau ac yn darparu cronfa ddata o ddarparwyr cymeradwy ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol i ysgolion a gynhelir er mwyn iddynt allu atgyfeirio disgyblion atynt[62]. Yn unol â hyn, argymhellodd Estyn y dylai ysgolion 'wirio'n ofalus statws cofrestru pob darparwr a ddefnyddiant a chadarnhau a ddylai'r darparwr fod wedi cofrestru os nad ydyw'[63].

---

57 Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Darpariaeth Amgen) (Cymru) 2009. Nodyn Esboniadol.

58 Er enghraifft:
- Llywodraeth Cymru (2016) Cynnwys a chynorthwyo disgyblion: canllawiau; a
- Llywodraeth Cymru (2018) Nodiadau cwblhau technegol ar gyfer awdurdodau lleol Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), tud.4.

59 Llywodraeth Cymru (2019) Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, tud.4.

60 Llywodraeth Cymru (2019) Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, tud. 4.

61 Llywodraeth Cymru (2019) Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, tud. 4.

62 Llywodraeth Cymru (2019) Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, tud.7.

63 Estyn (2016) Addysg Heblaw yn yr Ysgol, tud.8.

### Canllawiau ar gomisiynu darpariaeth addysg yn Lloegr

3.30 Ni chanfu ein hadolygiad lawer o lenyddiaeth gadarn ar arferion comisiynu darpariaeth addysg allanol gydnabyddedig ac effeithiol er mwyn llywio datblygiad canllawiau comisiynu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae adolygiad o ddarpariaeth a gomisiynir gan ysgolion yn Lloegr gan Ofsted[64] yn cynnig mewnwelediad i gryfderau a gwendidau arferion cyfredol.

*Adolygiad Ofsted o ddefnydd ysgolion o ddarpariaeth oddi ar y safle*

3.31 Canfu'r adolygiad o ddefnydd ysgolion o ddarpariaeth amgen oddi ar y safle gan Ofsted, er bod ysgolion yn gwrthod yn gynyddol defnyddio darpariaeth nad oeddent yn credu ei bod o safon ddigon uchel, roedd rhai ysgolion yn dal i beidio â chymryd cyfrifoldeb dros sicrhau addasrwydd y lleoliadau a drefnwyd ganddynt[65]. Tynnodd Ofsted sylw at arferion gwael megis ysgolion nad oeddent yn ymweld â safleoedd darparwyr i wirio eu diogelwch a'u haddasrwydd a rhai darparwyr yn torri'r rheoliadau ynghylch cofrestru gan eu bod yn derbyn mwy na phum disgybl amser llawn heb fod yn ddarparwyr cofrestredig. Canfu'r adolygiad fod ysgolion yn gweithio fwyfwy mewn partneriaeth â'i gilydd i ddarganfod a chomisiynu darpariaeth amgen a daeth Ofsted i'r casgliad fod yr arfer hwn, ar ei orau, yn arwain at broses drwyadl ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ac yn ymwrthod ag unrhyw beth nad oedd yn cyrraedd y safon[66].

3.32 Mae'r adroddiad yn cynnig argymhellion i ysgolion, yr Adran Addysg a'i sefydliad ei hun i'w hystyried. O ran trefniadau comisiynu, mae'n argymell bod ysgolion:

- yn gwirio statws cofrestru darparwyr ac na ddylid defnyddio unrhyw ddarpariaeth amgen sy'n torri'r rheoliadau cofrestru
- yn gwirio bod staff darparwyr yn destun gwiriadau priodol megis gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

[64] Ofsted (2016) Alternative provision: The findings from Ofsted's three-year survey of schools' use of off-site alternative provision.
[65] Ibid, tud.7.
[66] Ibid, tud.7.

- yn rhannu gwybodaeth ysgrifenedig gyda darparwyr am rwydweithio cymdeithasol, y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, e-ddiogelwch
- yn rhannu gwybodaeth ysgrifenedig gyda ddarparwyr am ddisgwyliadau ysgolion o ran y trefniadau amddiffyn plant a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn os oes ganddynt bryderon am ddisgybl
- yn cefnogi darparwyr i gael mynediad at hyfforddiant a gwybodaeth briodol am ddiogelu.

3.33 O ran trefniadau monitro, argymhellodd Ofsted y dylai ysgolion:

- werthuso ansawdd y ddarpariaeth addysgu a dysgu yn systematig ac asesu effaith hyn ar gynnydd disgyblion tuag at y cymwysterau y maent yn astudio ar eu cyfer
- gwerthuso'n systematig y cynnydd academaidd, personol a chymdeithasol a wneir gan ddisgyblion
- ystyried ffyrdd o werthuso effaith darpariaeth ar sgiliau cyflogadwyedd disgyblion.

3.34 Gwnaeth yr adroddiad ddau argymhelliad allweddol i'r Adran Addysg mewn perthynas â darpariaeth a gomisiynir gan ysgolion:

- rhoi arweiniad i ysgolion ar sut i wirio diogelwch ac addasrwydd staff sy'n gweithio mewn darpariaeth amgen anghofrestredig
- ystyried diwygio'r trothwy i ddarparwyr gofrestru fel ysgolion annibynnol.

*Canllawiau a gyhoeddwyd gan ALlau yn Lloegr*

3.35 Wrth fynd ati i gynnal adolygiad o arferion comisiynu effeithiol, fe wnaethom hefyd ystyried y canllawiau cyhoeddedig a gynigir gan awdurdodau lleol i ysgolion yn Lloegr. Rydym yn crynhoi'r pwyntiau allweddol a nodir mewn dwy ddogfen ganllaw isod ond gan bwysleisio nad ydym wedi ystyried unrhyw dystiolaeth werthuso i bennu eu heffeithiolrwydd fel rhan o'r adolygiad hwn.

3.36 Cyhoeddwyd canllawiau gan ddau awdurdod lleol[67], sy'n seiliedig yn bennaf ar argymhellion Ofsted, yn nodi'r egwyddorion y dylai ysgolion eu dilyn wrth gynllunio a chomisiynu 'darpariaeth amgen'. Mae'r canllawiau'n cynnwys enghraifft o restr wirio ar gyfer comisiynu, sy'n argymell bod ysgolion:

- gwirio statws cofrestru pob darparwr, gan sicrhau nad yw unrhyw ddarpariaeth a gomisiynir yn torri rheoliadau cofrestru
- gwirio polisïau a gweithdrefnau'r darparwyr, gan gynnwys polisi ymddygiad, cynlluniau cwricwlwm, trefniadau diogelu disgyblion, polisi gwrth-fwlio, polisi iechyd a diogelwch, ansawdd adeiladau a chymwysterau a phrofiadau'r staff
- rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i ddarparwyr am rwydweithio cymdeithasol a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol
- rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i ddarparwyr am ddisgwyliadau'r ysgol o ran amddiffyn plant
- cefnogi darparwyr i gael mynediad at hyfforddiant a gwybodaeth briodol ar ddiogelu
- rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i ddarparwyr am sut y dylid hysbysu'r ysgol am bresenoldeb a chytuno ar broses o fynd ar drywydd absenoldeb.

[67] Cyngor Dinas Newcastle (2017) 'Alternative provision – Guidance for commissioners and providers' a Chyngor Bwrdeistref Redcar a Cleveland (2019) Children's Service 'Alternative provision – Guidance for commissioners and providers'.

# 4. Data ar ddisgyblion sy'n derbyn eu prif addysg drwy ddarpariaeth heblaw yn yr ysgol

4.1 Mae'r bennod hon yn nodi data ar nifer a phroffil y disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yng Nghymru.

**Data ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol**

4.2 Mae Llywodraeth Cymru yn gweinyddu cyfrifiad blynyddol i gasglu data am ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ac y mae gan ALlau Cymru gyfrifoldeb ariannol drostynt. Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod 2,286 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2019 yng Nghymru[68] a dderbyniodd addysg y tu allan i'r ysgol wedi'i hariannu gan ALlau Cymru. O'r rhain, derbyniodd 1,784 eu prif addysg ar ffurf addysg heblaw yn yr ysgol a derbyniodd y 502 arall eu prif addysg mewn ysgol a gynhelir

4.3 Adroddir ar ddisgyblion sy'n derbyn eu prif addysg mewn ysgol a gynhelir drwy'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) hefyd[69] oherwydd eu bod yn cael eu cynnwys yn ffurflenni cyfrifiad ysgolion ac o'r herwydd nid ydynt yn cael eu hystyried ymhellach yn y data a nodir yn y bennod hon.

4.4 Mae'r cyfrifiad addysg heblaw yn yr ysgol yn ystyried disgyblion sy'n manteisio ar unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn:

- unedau cyfeirio disgyblion
- colegau addysg bellach
- ysgolion cynradd, canol, uwchradd neu arbennig a gynhelir
- ysgolion arbennig nas cynhelir
- hyfforddiant a hyfforddiant unigol yng nghartrefi disgyblion neu yn yr ysbyty
- Porth Ieuenctid
- addysg gysylltiedig â gwaith

[68] Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, 2018/19 tud.4.
[69] Casgliad electronig o ddata ar lefel disgyblion ac ysgolion a ddarperir gan holl ysgolion cynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig y sector a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn yw CYBLD.

- darparwyr hyfforddiant
- sefydliadau gwirfoddol
- darpariaeth a brynir gan y sector preifat
- ysgolion annibynnol
- disgyblion sy'n manteisio ar ddarpariaeth nad yw'n cael ei chynnal gan yr awdurdod, neu y tu allan i'r awdurdod, y mae'r awdurdod yn talu ffioedd amdani
- y rhai sy'n aros am ddarpariaeth neu nad ydynt yn manteisio ar ddarpariaeth ar hyn o bryd
- arall.

4.5 Mae'r data yn dangos bod nifer y disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf o 1,220 yn 2012/13 i 1,784 yn 2018/19. Mae hyn yn cyfateb i 3.8 o bob 1,000 o ddisgyblion yn 2018/19 o'i gymharu â 2.6 o bob 1,000 yn 2012/13. Bechgyn yw'r mwyafrif o'r rhain: roedd 70 y cant o garfan 2018/19 yn fechgyn a 30 y cant yn ferched.

4.6 Wrth ystyried disgyblion o oedran ysgol gorfodol, y grŵp oedran sydd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yw plant 15 oed: ym mis Ionawr 2019, roedd dros 4 o bob 10 o ddisgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yn 15 oed. Mae cyfradd y disgyblion rhwng 11 a 15 oed sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yn cynyddu wrth i oedran y disgyblion gynyddu.

4.7 Fel y dangosir yn Nhabl 4.1, cofnodwyd y niferoedd uchaf o ddisgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yn ardaloedd ALlau Caerdydd, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe, a chofnodwyd y niferoedd lleiaf yng Ngheredigion, Blaenau Gwent Sir Fynwy ac Ynys Môn. Fodd bynnag, fel cyfran o 1,000 o ddisgyblion o fewn ardaloedd ALlau, yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Benfro, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful y mae'r gyfradd uchaf o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (sef 4.5 fesul 1,000 o ddisgyblion neu'n uwch ym mis Ionawr 2019) ac yn Ynys Môn, Ceredigion, Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy y mae'r cyfraddau isaf (sef 1.3 y cant fesul 1,000 o ddisgyblion

neu'n is ym mis Ionawr 2019). Gwelwyd cynnydd nodedig yn nifer a chyfradd y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fesul 1,000 o ddisgyblion yn Sir Benfro[70], Caerffili a Merthyr Tudful rhwng 2017/18 a 2018/19.

**Tabl 4.1: Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol fesul ALl, 2014/15 - 2018/19**

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 23 | 20 | 40 | 29 | 13 |
| Gwynedd | 29 | 69 | 38 | 33 | 40 |
| Conwy | 70 | 55 | 63 | 64 | 72 |
| Sir Ddinbych | 45 | 62 | 75 | 198 | 87 |
| Sir y Fflint | 145 | 119 | 95 | 111 | 121 |
| Wrecsam | 47 | 41 | 36 | 56 | 62 |
| Powys | 58 | 69 | 52 | 62 | 59 |
| Ceredigion | 15 | 31 | 15 | 15 | 13 |
| Sir Benfro | 10 | 18 | 30 | 33 | 123 |
| Sir Gaerfyrddin | 50 | 72 | 59 | 68 | 72 |
| Abertawe | 178 | 168 | 140 | 169 | 152 |
| Castell-nedd Port Talbot | 80 | 76 | 56 | 42 | 45 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 39 | 45 | 30 | 51 | 69 |
| Bro Morgannwg | 80 | 108 | 103 | 116 | 114 |
| Rhondda Cynon Taf | 102 | 160 | 149 | 176 | 193 |
| Merthyr Tudful | * | 40 | 29 | 48 | 73 |
| Caerdydd | 139 | 133 | 183 | 227 | 225 |
| Caerffili | 142 | 70 | 30 | 59 | 113 |
| Blaenau Gwent | 33 | 43 | 57 | * | * |
| Torfaen | 26 | 24 | 14 | * | * |
| Sir Fynwy | * | 12 | 12 | 22 | 14 |
| Casnewydd | 68 | 87 | 96 | 88 | 104 |
| Cyfanswm | 1,387 | 1,512 | 1,402 | 1,609 | 1,784 |

Ffynhonnell: Datganiadau Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru [71].

[70] Roedd gan Sir Benfro gyfradd o 7.1 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2019, cynnydd o gymharu ag 1.9 yn 2018. Mae hyn oherwydd cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu cofnodi fel cofrestriadau atodol mewn ysgol a gynhelir, yn hytrach na chael eu cofnodi fel prif addysg neu addysg bresennol.
[71] Gweler: 2014/15, 2015/16, 2016/17, 2017/18 a 2018/19.

4.8 Rhwng mis Ionawr 2012 a 2019, bu gostyngiad nodedig yng nghyfran y disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol nad oeddent ar gofrestr ysgol a thwf yn y rhai â statws cofrestru atodol, fel y dangosir yn Nhabl 4.2. Erbyn mis Ionawr 2019, roedd gan 42 y cant o ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol statws cofrestru atodol mewn ysgol a gynhelir ac nid oedd 57 y cant ar gofrestr mewn ysgol a gynhelir. Mae'r gyfran hon yn amrywio o un ALI i'r llall: mewn chwe ardal ALI nid oedd gan unrhyw ddisgyblion a oedd yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol statws cofrestru atodol mewn ysgol a gynhelir ac roedd gan wyth ALI nifer uwch o ddisgyblion a oedd yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol â statws cofrestru atodol mewn ysgolion a gynhelir o gymharu â'r rhai a oedd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir.

**Tabl 4.2: Statws cofrestru disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol fesul ALI, 2012/13 a 2018/19**

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Heb fod ar y gofrestr mewn ysgol a gynhelir | 995 (82%) | 958 (78%) | 909 (66%) | 909 (60%) | 892 (64%) | 1,008 (63%) | 1,027 (58%) |
| Statws cofrestru atodol mewn ysgol a gynhelir | 225 (18%) | 267 (22%) | 478 (34%) | 603 (40%) | 510 (36%) | 601 (37%) | 757 (42%) |
| Cyfanswm | 1,220 | 1,225 | 1,387 | 1,512 | 1,402 | 1,609 | 1,784 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru[72].

4.9 At ei gilydd, mae gan 36 y cant o ddisgyblion Cymru sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol (649 o blith 1,784 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2019) hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn cymharu â 18 y cant o'r holl ddisgyblion rhwng 5 ac 16 oed[73].

4.10 At ei gilydd, roedd 88 y cant (1,571 o blith 1,784) o ddisgyblion sy'n cael eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yn ystod 2018/19 yn cael darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA). Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yw'r ddarpariaeth AAA fwyaf cyffredin ar gyfer y disgyblion hyn.

[72] Gweler: 2012/13, 2013/14, 2014/15, 2015/16, 2016/17, 2017/18, 2018/19.
[73] Ym mis Ionawr 2019 roedd gan 68,674 o 375,894 o ddisgyblion yng Nghymru hawl i gael Prydau Ysgol Am Ddim. Gweler 2018/19.

4.11 O ran y ddarpariaeth a ddefnyddiwyd, mae Tabl 4.3 yn dangos bod 43.5 y cant o ddisgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol ym mis Ionawr 2019 mewn UCD. UCD yw'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a ddefnyddir amlaf ers 2012/13. Ysgolion annibynnol oedd yr ail ddarpariaeth a ddefnyddiwyd amlaf ac addysg yn y cartref yn drydydd, fel ym mis Ionawr 2019. Roedd SAB yn cyfrif am ychydig dros un rhan o ddeg o'r holl ddisgyblion a oedd yn derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae data a ddarperir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod disgyblion ychwanegol yn mynychu cyrsiau SAB. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2019/20, cofrestrwyd 118 o ddisgyblion ar raglen Prentisiaeth Iau. Yn gyffredinol, mae gan y disgyblion hyn gofrestriad unigol â'u hysgol.

4.12 Y nifer cyfartalog o oriau o addysg a ddarparwyd i ddisgyblion sy'n cael eu prif addysg y tu allan i'r ysgol oedd 21 awr yn ystod wythnos y cyfrifiad. Roedd hyn yn amrywio o oddeutu 25 awr ar gyfartaledd mewn ysgolion arbennig nas cynhelir, ysgolion annibynnol a cholegau addysg bellach i gyfartaledd o dan 12 awr yr wythnos ar gyfer addysg mewn ysgol a gynhelir ac addysg unigol.

**Tabl 4.3: Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, yn ôl darpariaeth addysgol, 2018/19[74]**

| | Nifer y cofrestriadau | % y cofrestriadau | Nifer cyfartalog yr oriau y mae disgyblion i fod i fynychu mewn wythnos |
|---|---|---|---|
| Uned cyfeirio disgyblion | 820 | 43.5 | 23.3 |
| Ysgol annibynnol | 270 | 14.3 | 25.0 |
| Hyfforddiant unigol | 265 | 14.0 | 11.5 |
| SAB | 209 | 11.1 | 24.7 |
| Ysgol a gynhelir | 92 | 4.9 | 13.6 |
| Ysgol arbennig nas cynhelir | 68 | 3.6 | 25.2 |
| Arall[75] | 47 | 2.5 | 20.8 |
| Darparwr hyfforddiant | 38 | 2.0 | 22.0 |
| Yn aros am ddarpariaeth neu heb ddarpariaeth ar hyn o bryd | 28 | 1.5 | ddim ar gael |
| Darpariaeth sector preifat a brynwyd i mewn | 18 | 1.0 | 20.8 |
| Darpariaeth nas cynhelir gan awdurdod neu sydd y tu allan iddo[76] | 17 | 0.9 | 22.6 |
| Addysg gysylltiedig â gwaith | 15 | 0.8 | 15.7 |
| Cyfanswm | 1,887 | 100.0 | 21.0 |

Ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru: Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, 2018/19 ar gael yma[77].

[74] Gall disgyblion fynychu mwy nag un ddarpariaeth addysgol mewn wythnos, felly mae'n bosibl bod rhai disgyblion yn cael eu cyfrif yn erbyn mwy nag un ddarpariaeth.
[75] Cafodd cyfanswm o ddeg darparwr eu codio fel mathau 'eraill' o ddarparwyr.
[76] Wedi'i ddiffinio fel disgybl sy'n mynychu darpariaeth nas cynhelir gan yr awdurdod, neu y tu allan i'r awdurdod, y mae'r awdurdod yn talu ffioedd amdani.
[77] Pupils educated other than at school, 2018/19.

# 5. Trefniadau ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

5.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith maes gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys ALlau, UCD, ysgolion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol o ran sut y maent yn dehongli addysg heblaw yn yr ysgol. Mae hefyd yn ystyried dulliau ALlau o ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys nodi'r galw a'r cyflenwad yn ogystal â'r trefniadau cyllido.

**Diffinio addysg heblaw yn yr ysgol**

5.2 Canfu’r gwaith maes nad oes dehongliad cyson na chyffredin ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol ymhlith y rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw, er i hyn gael ei ddiffinio gan y gyfraith, a bod eglurhad pellach yn cael ei ddarparu mewn amryw o gyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru. Cynigiodd y cyfranwyr ddehongliadau amrywiol o'r hyn yr oeddent yn credu oedd yn ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar hyn nad oedd yn ddarpariaeth o'r fath, gyda sawl un yn dehongli canllawiau Llywodraeth Cymru ac Estyn mewn gwahanol ffyrdd. Roedd yn nodedig bod sawl cyfrannwr (o gyrff comisiynu yn ogystal â darparwyr) wedi dweud wrthym y byddent yn croesawu mwy o eglurder ynghylch beth yw darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (ac ystyrir hyn ymhellach ym Mhenodau 12 a 13). Mae Tabl 5.1 yn dangos cymhlethdod darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol drwy nodi pob math o ddarparwr a gomisiynir gan ALlau, UCD ac ysgolion a nodwyd gan yr adolygiad.

**Tabl 5.1: Mathau o ddarparwyr a gomisiynir gan ALlau, UCD ac ysgolion a nodwyd drwy'r gwaith maes**

| Darpariaeth wedi'i harwain neu ei chomisiynu gan ALI | Darpariaeth wedi'i harwain neu ei chomisiynu gan UCD | Darpariaeth wedi'i harwain neu ei chomisiynu gan yr ysgol |
|---|---|---|
| o UCD<br>o SAB<br>o addysg yn y cartref<br>o darparwyr sector preifat<br>o darparwyr trydydd sector<br>o darparwyr hyfforddiant<br>o ysgolion annibynnol<br>o ysgolion arbennig nas cynhelir<br>o ysgolion arbennig a gynhelir y tu allan i'r ALI | o SAB<br>o addysg yn y cartref<br>o darparwyr sector preifat<br>o darparwyr trydydd sector<br>o darparwyr hyfforddiant | o unedau cynhwysiant (ar ac oddi ar safle'r ysgol)<br>o modelau cydweithredol yn yr ysgol<br>o addysg yn y cartref<br>o SAB<br>o darparwyr sector preifat<br>o darparwyr trydydd sector<br>o darparwyr hyfforddiant |

5.3 Dywedodd sawl ALI eu bod yn mabwysiadu diffiniad Llywodraeth Cymru o addysg heblaw yn yr ysgol gan ychwanegu ei bod yn ddarpariaeth a ariennir gan yr ALI, y tu allan i leoliadau ysgolion prif ffrwd. Roedd rhai yn glir iawn ei fod yn cynnwys darpariaeth a ariennir gan yr ALI yn unig, tra bod eraill yn mabwysiadu diffiniad ehangach o addysg heblaw yn yr ysgol fel 'yn llythrennol, addysg heblaw yn yr ysgol'. Yn yr achosion hyn, dadleuwyd ei bod yn cynnwys darpariaeth a ariennir ac a drefnir gan yr ALI, ysgolion ac UCD.

5.4 Bu cryn drafodaeth ynghylch a ellid ystyried darpariaeth a gomisiynir yn uniongyrchol gan ysgolion yn addysg heblaw yn yr ysgol. Awgrymodd rhai ALlau fod hyn 'braidd yn aneglur' gydag un yn ychwanegu 'yn dechnegol, mae unrhyw ddarpariaeth oddi ar y safle yn addysg heblaw yn yr ysgol ac rwy'n credu y gellir ystyried y ddarpariaeth y mae ysgolion yn ei threfnu yn addysg heblaw yn yr ysgol'. Roedd ALlau eraill, fodd bynnag, yn glir eu bod yn diffinio darpariaeth o'r fath fel 'darpariaeth amgen', nid addysg heblaw yn yr ysgol. Nodwyd hefyd bod y defnydd cyfnewidiol o ddau derm ar lafar ('addysg heblaw yn yr ysgol' a 'darpariaeth amgen') yn ychwanegu at y dryswch yn hytrach na'i leihau.

5.5 Mewn sawl achos, nododd staff yr ALl fod addysg heblaw yn yr ysgol yn cynnwys darpariaeth sydd ar gael gan ysgolion annibynnol, UCD a darparwyr allanol y tu allan i'r sector a gynhelir megis hyfforddiant a darparwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector. Nododd staff yr ALl hefyd fod addysg heblaw yn yr ysgol yn cynnwys addysg yn y cartref a ddarperir gan yr ALl, darpariaeth sydd ar gael i ddisgyblion nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol oherwydd gwaharddiad parhaol a'r rhai ag ADY sylweddol y gellir diwallu eu hanghenion dim ond drwy ysgolion arbennig annibynnol neu ddarparwyr cofrestredig eraill. Roedd nifer bach o staff yr ALl hefyd o'r farn bod darpariaeth addysg yn y cartref yn addysg heblaw yn yr ysgol, er bod hyn wedi'i eithrio yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

5.6 Roedd barn gymysg ynghylch a ellid ystyried darpariaeth a gomisiynir gan ysgolion arbennig a gynhelir yn addysg heblaw yn yr ysgol ai peidio, gyda rhai o'r farn nad yw'r disgyblion yn mynychu 'ysgol gofrestredig' i gael y math yma o addysg ac, felly, nid yw'n addysg heblaw yn yr ysgol.

5.7 Mae tri ALl yn mabwysiadu diffiniad ychydig yn gulach nag eraill o addysg heblaw yn yr ysgol gan ystyried mai darpariaeth amser llawn ar gyfer disgyblion nad ydynt ar gofrestr yr ysgol ydyw. Dadleuodd un…

> '…mae addysg heblaw yn yr ysgol yn rhywbeth bum niwrnod yr wythnos ... i'r rhai nad ydynt ar gofrestr ysgol ... sydd â chofrestraid sengl yn yr UCD... oherwydd mai nhw [yr UCD] sy'n gyfrifol am gymwysterau'r bobl ifanc hynny'. (Staff yr ALl)

Adroddodd ALl arall mai'r unig ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn y sir yw darpariaeth UCD a ariennir gan yr ALl a bod unrhyw addysg ran-amser nad yw'n addysg prif ffrwd (sy'n cynnwys darpariaeth a drefnir gan yr ALl, ysgolion a UCD) yn cael ei hystyried yn ddarpariaeth amgen[78].

5.8 Bu cryn ddadlau ynghylch a yw darpariaeth sy'n cael ei hariannu drwy weithrediadau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Cyflogaeth a

[78] Er gwaethaf hyn, mae'r trefniadau comisiynu ar gyfer darpariaeth amgen yn yr ALl hwn wedi'u hystyried yn yr adolygiad hwn.

Chyrhaeddiad Ieuenctid (prosiect TRAC 11-14[79] sydd ar gael yng ngogledd Cymru, y prosiect Cynnydd[80] sydd ar gael yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ac Ysbrydoli i Gyflawni[81] yn ne ddwyrain Cymru) a/neu ddarpariaeth sydd ar gael drwy'r cwricwlwm estynedig a gyflwynwyd fel rhan o'r Llwybrau Dysgu ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yn ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. O ganlyniad, cyfeiriodd sawl ALl, UCD ac ysgol at yr arferion comisiynu a fabwysiadwyd ar gyfer y mentrau hyn wrth gael eu cyfweld, tra bod eraill yn eu diystyru ar y sail nad oeddent yn gyfystyr ag addysg heblaw yn yr ysgol ond yn hytrach yn ddarpariaeth ychwanegol neu'n ddarpariaeth gyfoethogi y mae ysgolion ac ALlau yn ei chynnig i garfan ehangach o ddisgyblion.

**Dulliau ALlau o ddarparu addysg i blant sy'n cael anawsterau yn yr ysgol**

5.9 Yn unol â'r data a nodir ym Mhennod 4, y dull mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan ALlau i ddarparu addysg i blant sy'n cael anawsterau yn yr ysgol yw drwy UCD. Dim ond dau ALl sydd heb unrhyw ddarpariaeth UCD ar waith ond yn y ddau achos mae unedau cynhwysiant ar gael mewn lleoliadau ysgolion prif ffrwd, ar safleoedd yr ysgolion yn ogystal ag oddi arnynt. Yn wir, nododd nifer fach o ALlau eu bod ar hyn o bryd yn ymchwilio i ddyrannu mwy o adnoddau ALlau i ddarparu unedau cynhwysiant mewn ysgolion a nodwyd sawl enghraifft o ddulliau o'r fath ar draws ysgolion.

> Dywedodd un ALl fod adolygiad o drefniadau addysg heblaw yn yr ysgol ac ADY sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn debygol o arwain at ddyrannu adnoddau ychwanegol i ysgolion er mwyn darparu cefnogaeth drwy uned gynhwysiant ar y safle er mwyn caniatáu i ddisgyblion ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a disgyblion gorbryderus barhau i fod yn rhan o gymuned yr ysgol. Yn hytrach na rhedeg UCD wedi'i gwasgaru dros sawl safle, mae'r ALl yn bwriadu

[79] Helpu i wella rhagolygon gyrfa a bywyd pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio a chefnu ar addysg a hyfforddiant.
[80] Darparu rhaglenni cymorth wedi'u teilwra i unigolion, gan gynnwys hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau gwaith â thâl i wella rhagolygon gyrfa pobl ifanc 11-19 oed.
[81] Ysbrydoli i Gyflawni.

sefydlu gwasanaeth allgymorth i weithio gydag ysgolion i helpu i gadw pobl ifanc ar y gofrestr. Bydd hyn yn cynnwys cyflogi athro a chynorthwyydd addysgu sydd wedi'u hyfforddi i ddelio â phlant a chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anawsterau eraill i weithio mewn ysgolion uwchradd. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i gefnogi tua chwe disgybl ychwanegol yr un sy'n ddisgyblion a chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

5.10 Fel y dangosir yn Nhabl 5.2, nododd 13 ALl eu bod yn comisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol, ond roedd y ddarpariaeth yn un o'r achosion hyn yn cael ei hystyried yn ddarpariaeth amgen.

5.11 Mewn 16 ALl, dywedodd ALlau fod ysgolion yn comisiynu darpariaeth amgen, gan gynnwys darpariaeth amgen drwy weithrediadau ESF megis Cynnydd, TRAC ac Ysbrydoli i Gyflawni.

**Tabl 5.2: Dulliau ALl o ddarparu addysg i blant sy'n cael anawsterau yn yr ysgol**

| | A oes UCD yn yr ALI? | A yw'r ALI yn comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? | A yw'r ALI yn ymwybodol o ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth amgen? |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Nac oes | Nac ydy | Ydy |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Oes | Ydy | Ydy |
| Caerffili | Oes | Ydy | Ydy |
| Caerdydd | Oes | Ydy | Ydy |
| Sir Gaerfyrddin | Oes | Ydy | Ydy |
| Ceredigion | Oes | Ydy | Nac ydy |
| Conwy | Oes | Nac ydy | Ansicr |
| Sir Ddinbych | Oes | Ydy[82] | Ydy |
| Sir y Fflint | Oes | Ydy | Ydy[83] |
| Ynys Môn / Gwynedd | Oes | Nac ydy | Nac ydy[84] |
| Merthyr Tudful | Oes | Ydy | Ydy |
| Sir Fynwy | Oes | Nac ydy | Ydy |
| Casnewydd | Oes | Ydy | Ydy |
| Castell-nedd Port Talbot | Nac oes | Nac ydy | Ydy |
| Sir Benfro | Ydy | Nac ydy | Nac ydy[85] |
| Powys | Oes | Ydy | Nac ydy[86] (ond mae UCD yn gwneud hynny) |
| Rhondda Cynon Taf | Oes | Nac ydy | Ydy |
| Abertawe | Oes | Ydy | Ydy[87] |
| Torfaen | Oes | Ydy | Ydy |
| Bro Morgannwg | Oes | Ydy | Ydy |
| Wrecsam | Oes | Nac ydy | Ydy |

Ffynhonnell: Ymchwil OB3

[82] Ond heb ei diffinio fel addysg heblaw yn yr ysgol. Ystyriwyd bod hyn yn ddarpariaeth amgen.
[83] Drwy'r prosiect TRAC.
[84] Drwy'r prosiect TRAC.
[85] Ond canfu'r ymchwil fod ysgolion yn comisiynu darpariaeth.
[86] Ond canfu'r ymchwil bod ysgolion yn comisiynu darpariaeth.
[87] Drwy'r prosiect Cynnydd.

5.12 Mae SAB sy'n cyflwyno Prentisiaethau Iau neu Brentisiaethau Ieuenctid neu raglenni Mynediad Ieuenctid yn elfen bwysig arall o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol mewn rhai ardaloedd. Mewn rhai achosion, mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chomisiynu gan yr ALl a'r ALl sy'n talu amdani ond, mewn achosion eraill, mae'r trefniant hwn yn cael ei wneud yn uniongyrchol rhwng ysgolion a'r coleg. Mae'r ddarpariaeth a gyflwynir gan SAB fel arfer yn alwedigaethol ei natur ac mae'n cynnwys cyrsiau cyn-alwedigaethol mewn meysydd megis adeiladu, harddwch a thrin gwallt.

5.13 Amlygodd ambell ALl y defnydd o addysg yn y cartref i addysgu disgyblion sy'n methu â mynychu'r ysgol oherwydd materion megis problemau meddygol, pryder am yr ysgol neu oherwydd eu bod wedi ymddieithrio o addysg. Cyflwynir addysg yn y cartref gan ALlau drwy ystod o ddulliau gan gynnwys staff cyflogedig, staff UCD a darparwyr allanol. Er enghraifft, nododd un ALl ei fod yn defnyddio staff cyflogedig a darparwr allanol, a nododd ALl arall ei fod wedi defnyddio adnoddau UCD i ddarparu addysg yn y cartref. Mae rhai ALlau yn ariannu'r hyn y maent yn ei ddeall yw'r isafswm o addysg yn y cartref sy'n ofynnol yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru (pum awr yr wythnos)[88], ond nododd eraill eu bod yn darparu mwy na hyn e.e. 10 awr yr wythnos. Mewn un achos, mae panel atgyfeirio'r ALl yn argymell weithiau bod ysgolion yn dod o hyd i ddarpariaeth annibynnol addysg yn y cartref ac yn ei hariannu o ystyried prinder darpariaeth o'r fath sydd ar gael drwy ALlau.

> Mewn un ALl, comisiynir darparwr allanol i addysgu disgyblion blynyddoedd 9, 10 ac 11 nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd ffactorau megis problemau meddygol a phryder am yr ysgol, ac sydd wedi bod yn derbyn addysg yn y cartref, a ddarperir gan staff yr ALl, ers peth amser. Y darparwr sydd â'r dasg o fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol penodol y disgyblion. Mae un elfen o'i waith yn cynnwys dod â disgyblion sy'n orbryderus am yr ysgol neu a chanddynt ffobia am yr ysgol ynghyd mewn grwpiau bach gyda'r nod o'u helpu i 'fynd allan o'r tŷ', i 'gymdeithasu' a mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag 'ynysu'.

[88] Fodd bynnag, ni nodir isafswm o'r fath ac mae'r ddeddfwriaeth ond yn nodi bod yn rhaid i ALl wneud trefniadau ar gyfer darparu 'addysg briodol' i ddisgyblion o'r fath.

5.14 Mewn un achos, darperir addysg yn y cartref fel darpariaeth e-ddysgu lle mae disgyblion yn gweithio tuag at nifer cyfyngedig o gymwysterau TGAU, gyda staff yr ALl yn ymgymryd â rôl mentoriaid dysgu i oruchwylio'r ddarpariaeth. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i rhoi ar waith ar gyfer disgyblion â phroblemau iechyd meddwl hirdymor na fyddai'r UCD yn ddatrysiad priodol ar eu cyfer.

5.15 Mae gweithrediadau a ariennir gan yr ESF yn chwarae rhan bwysig o ran cynnig darpariaeth amgen ychwanegol ar gyfer disgyblion sy'n cael eu cadw ar gofrestrau ysgolion, ac mewn rhai achosion ar gofrestrau UCD. Cyfeiriodd y cyfranwyr yn rheolaidd at weithrediad Cynnydd yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru a TRAC yn y gogledd ond mae'n werth nodi mai prin oedd y cyfeiriadau at Ysbrydoli i Gyflawni yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chomisiynu a'i chaffael drwy fframweithiau rhanbarthol a/neu leol dan arweiniad ALl ac mae nifer fawr o ddisgyblion yn cael eu cyflogi (e.e. dros 800 mewn un awdurdod). Mynegwyd cryn bryder ynghylch sut y byddai'r disgyblion hyn yn cael eu cefnogi pan fyddai cyllid yr UE ar gyfer y gweithrediadau yn dod i ben - yn wir, dim ond un awdurdod a gredai ei fod yn unigryw yn yr ystyr ei fod yn cyfrannu cyllid craidd at y rhaglen hon yn ychwanegol at yr arian cyfatebol gofynnol i barhau â rhywfaint o'r ddarpariaeth ar ôl i gyllid y rhaglenni ddod i ben.

5.16 Credwyd bod y prif fanteision a nodwyd gan ALlau yn sgil comisiynu darpariaeth gan ddarparwyr allanol yn cynnwys:

- mwy o allu i ymateb i anghenion disgyblion a diwallu'r anghenion hynny
- gallu trefnu lleoliadau a diwallu'r galw yn gyflym
- hyblygrwydd o ran gallu darparu ar gyfer niferoedd amrywiol o ddisgyblion dros amser.

5.17 Ymysg y prif anfanteision a nodwyd roedd:

- diffyg darparwyr allanol sydd ar gael i gynnig darpariaeth amgen (mewn rhai ardaloedd)
- anawsterau o ran dod o hyd i ddarpariaeth briodol i ddiwallu anghenion rhai disgyblion

- heriau a logistaidd a chostau sy'n gysylltiedig â chludo disgyblion i leoliad y darparwr; yn ogystal â'r anfantais i'r disgybl o orfod teithio cryn bellter i gael mynediad at ddarpariaeth, yn enwedig mewn ardal ddaearyddol fawr a wasanaethir gan ychydig iawn o ddarparwyr
- gall cefnogi darparwyr newydd gymryd llawer o amser ac mae'n gostus i ALlau
- gall costau darpariaeth allanol fod yn uchel, yn enwedig yn achos ysgolion arbennig a darparwyr y tu allan i'r sir.

5.18 Er mwyn mynd i’r afael â rhai o’r anfanteision hyn, nododd o leiaf bum ALl eu bod naill ai’n datblygu neu’n ehangu atebion mewnol cost-effeithiol mewn ymateb i gost gynyddol darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol. Mewn dau o'r achosion hyn mae'r ffocws ar ymchwilio i sut i wneud gwell defnydd o fentrau ataliol mewn ysgolion.

| |
|---|
| Mae un ALl sydd wedi gweld twf yn y niferoedd sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol dros amser yn ymchwilio i atebion mwy cost-effeithiol ac yn troi at atebion a ddarperir yn uniongyrchol i ategu darpariaeth a gomisiynir yn allanol sydd o bosibl yn ddrutach. Mae'r ALl wedi mabwysiadu hen safle ysgol mewn lleoliad canolog yn y sir (er mwyn lleihau amser teithio a chostau i ddisgyblion) ac mae'n cyflwyno elfennau o'r ddarpariaeth yn fewnol. Mae hyn yn cynnwys cwrs BTEC ar sgiliau coginio, bywyd a gwaith. Mae'r ALl o'r farn bod y lleoliad hwn yn wahanol i UCD neu ysgol arbennig yn yr ystyr ei fod yn cynnig darpariaeth ran-amser yn unig ac yn diwallu anghenion disgyblion y mae ysgol prif ffrwd yn brif leoliad addysg iddynt ond y byddai darpariaeth UCD yn anaddas ar eu cyfer. Mae'r ALl yn annhebygol o drosglwyddo'n gyfan gwbl i ddarpariaeth uniongyrchol, gan ei fod yn dymuno sicrhau bod ystod eang o ddarpariaeth yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion drwy leoliadau a ddarperir yn allanol. |

**Cyd-gomisiynu addysg heblaw yn yr ysgol**

5.19 Ni ddaeth y gwaith maes o hyd i unrhyw enghreifftiau o ALlau yn comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar y cyd er bod pum awdurdod yn y de-ddwyrain, a oedd yn gweithredu o fewn un consortiwm rhanbarthol, wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu fframwaith comisiynu ar y cyd ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Fodd bynnag, adroddwyd nad oedd hyn wedi digwydd oherwydd ffactorau megis gwahaniaethau yn y diffiniad o addysg heblaw yn yr ysgol ar draws yr awdurdodau, gwahaniaethau yn eu

dull o gyllidebu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a'r ystod o wasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol sydd eu hangen, gan ei wneud yn rhy gymhleth i fynd ar ei drywydd a theimlad o ddiffyg ewyllys ymysg rhai ALlau.

5.20 Credwyd bod ffactorau eraill sy'n cyfyngu ar unrhyw gomisiynu cydweithredol yn cynnwys niferoedd bach o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol sy'n ei gwneud hi'n anodd cyfiawnhau'r ymdrech; materion ymarferol yn ymwneud â chludo disgyblion (i leoliadau darparwyr y tu allan i'r sir); a phryderon ynghylch bodloni gofynion caffael llym a bennir gan awdurdodau unigol.

5.21 Er gwaethaf y diffyg trefniadau comisiynu cydweithredol mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol, nodwyd enghreifftiau o ysgolion yn cydweithredu i gomisiynu darpariaeth amgen (boed hynny yn yr un sir neu gydag ysgolion mewn sir gyfagos)[89].

**Nodi'r galw a'r cyflenwad o ran darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

5.22 Dywedodd tri ALl eu bod wedi cynnal dadansoddiad o'r galw am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hardal ac argaeledd y ddarpariaeth honno. Ym mhob achos, roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda phenaethiaid ysgolion i nodi bylchau yn y ddarpariaeth er mwyn teilwra'r ddarpariaeth sydd eisoes ar gael.

> O ran arfer da, mae un ALl yn ymgynghori â'i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, ei ddarparwyr a'i ysgolion ynghylch eu profiadau o'r ddarpariaeth yn flynyddol. Defnyddir yr adborth hwn i lywio'r gwaith o baratoi adroddiad blynyddol i amlinellu pa gyrsiau addysg heblaw yn yr ysgol sydd wedi bod fwyaf buddiol, yr hyn a fu'n llwyddiant a'r hyn nad yw wedi gweithio cystal. Defnyddir yr adroddiad blynyddol hwn i dynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol sydd wedyn yn llywio polisi caffael yn y dyfodol. Felly, er enghraifft, amlygodd yr adroddiad blynyddol diweddaraf ddiffyg darpariaeth sgiliau sy'n seiliedig ar y tir[90] a sgiliau bywyd i ddisgyblion ac aethpwyd i'r afael â hyn ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol drwy ddarpariaeth fewnol ALl.

[89] Trafodir hyn yn fanwl ym Mhennod 10.
[90] Megis astudiaethau amaethyddol, cefn gwlad a garddwriaethol.

5.23 Dywedodd pedwar ALl eu bod wedi dechrau ymchwilio i'r galw am, ac argaeledd, darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hardal yn ddiweddar. Mae un wedi dechrau gweithio gyda phenaethiaid ysgolion i gynllunio a chyfaddefodd un arall fod ei gynlluniau ar gyfer gwneud hynny yn eu babandod. Mae trydydd wedi secondio swyddog er mwyn syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn y sir. Eu bwriad yw cyflwyno papur i'r cabinet yn amlinellu opsiynau ar gyfer y dyfodol, yn seiliedig ar wybodaeth gyfoes am ddarpariaethaddysg heblaw yn yr ysgol, yr anghenion a'r gofynion.

5.24 Cyfeiriodd pum ALl arall at adolygiadau strategol cyfredol o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion â phroblemau ymddygiad ac ADY a fyddai'n debygol o gael effaith ar eu dull o ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol yn y dyfodol.

5.25 Er ei fod yn ymwybodol o'r diffyg darpariaeth allanol sydd ar gael yn ei sir, nid oedd un ALl wedi ceisio mynd i'r afael â'r bwlch a diwallu'r galw eto, gan ychwanegu bod angen iddo:

> 'feddwl yn wahanol i'r arfer... pethau fel chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithio gydag anifeiliaid ... mae angen mwy o amrywiaeth o bethau arnom' (staff yr ALl).

Soniodd un arall fod sefydliad allanol wedi cysylltu a hwy gyda'r bwriad o'i cefnogi i ragweld y galw tebygol yn y dyfodol am addysg heblaw yn yr ysgol gan ddefnyddio offeryn sgrinio data y System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (SIMS). Er eu bod yn awyddus i ymchwilio i'r opsiwn hwn yn rhanbarthol gydag ALlau eraill, roeddynt yn teimlo eu bod yn cael eu cyfyngu o ran gwneud hynny oherwydd y diffiniad gwahanol o addysg heblaw yn yr ysgol a fabwysiadwyd gan ALlau cyfagos.

5.26 Dadleuodd ALlau nad oeddent wedi ymchwilio i'r galw am addysg heblaw yn yr ysgol, a'r cyflenwad, nad oeddent wedi gwneud hynny oherwydd bod ysgolion yn ei wneud neu am nad oedd hynny wedi bod yn flaenoriaeth. Roedd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â rhagfynegi'r galw, gan na ellid rhagweld rhai materion megis problemau iechyd meddwl ac emosiynol ymlaen llaw, hefyd yn cael eu cydnabod gan ALlau, hyd yn oed pan oedd data am y carfannau presennol o ddisgyblion ar gael.

5.27 Roedd staff ALlau yn awgrymu'n gyson bod y galw am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn fwy na'r cyflenwad, gyda'r cyflenwad yn gysylltiedig â chyllid ac wedi'i gyfyngu gan gyllid i raddau helaeth e.e. mae nifer y ceisiadau am ddarpariaeth, fel y ddarpariaeth a gynigir gan SAB, yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael. Priodolwyd hyn yn aml i'r cynnydd diweddar yn y galw am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan ysgolion sy'n atgyfeirio, gyda chynnydd nodedig yn nifer y disgyblion a atgyfeiriwyd a chanddynt Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol a materion yn ymwneud â gorbryder. Mewn ymdrech i gynllunio ar gyfer y galw am addysg heblaw yn yr ysgol yn y dyfodol, mae un ALl wedi dechrau ystyried tueddiadau ar draws y sector cynradd i ragfynegi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac anghenion o ran darpariaeth amgen yn y dyfodol mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, cydnabu'r ALl hwn ei bod yn anodd rhagweld y galw am gymorth gydag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn y dyfodol gan fod anghenion yn gallu newid yn ystod cyfnod y disgyblion yn yr ysgol.

5.28 Cyfeiriodd rhai ALlau at eu profiad o gaffael darpariaeth allanol drwy eu fframweithiau gweithrediadau ESF: yn yr achosion hyn adroddwyd bod y broses gaffael wedi cael ei llywio gan ymgynghoriad â rhanddeiliaid ynghylch yr anghenion y mae'n rhaid i'r ddarpariaeth eu diwallu, ond mewn rhai achosion awgrymwyd y gallai'r ddarpariaeth fod wedi'i chyfyngu gan y gofynion cyllido.

5.29 Yn unol â hyn, roedd nifer bach o ALlau wedi gweld cynnydd yn y galw am gymorth ymhlith disgyblion ysgolion cynradd ond roeddent yn ymwybodol mai ychydig iawn o ddarpariaeth a oedd ar gael ar gyfer y garfan hon. Mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol i ddisgyblion oedran cynradd, er yn faes cymharol annatblygedig, yn cael ei ystyried yn bwysig gan ALlau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol ymysg disgyblion yn y dyfodol a lliniaru'r problemau hynny.

**Dull ALlau o ariannu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

5.30 Mae ALlau yn mabwysiadu sawl dull gwahanol o ariannu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac nid oes dull safonol ar draws awdurdodau,

sy'n golygu ei bod yn anodd mesur faint sy'n cael ei ddyrannu i addysg heblaw yn yr ysgol ar lefel Cymru gyfan. Mewn sawl achos mae cronfeydd yn rhan o gyllidebau ALl ehangach fel y rhai a ddyrennir i ddarpariaeth UCD ac ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn fwy cyffredinol. At hynny, nid yw pob ALl yn gosod cyllidebau ar gyfer darpariaeth a gomisiynir yn allanol, ond yn hytrach yn cael gafael ar y cyllid 'yn ôl yr angen', yn enwedig mewn achosion lle mae'r defnydd o ddarpariaeth allanol yn isel.

5.31 Nododd rhai ALlau fod ganddynt gyllideb gyfun ar gyfer cefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed sy'n cynnwys darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Dywedwyd mai'r rhesymeg dros wneud hynny, mewn un achos, oedd amddiffyn cyllideb gyffredinol addysg heblaw yn yr ysgol drwy leihau'r risg y byddai unrhyw danwariant ar weithgareddau penodol yn cael eu nodi ac, felly, yn cael eu lleihau gan yr ALl. Adroddodd awdurdodau eraill eu bod yn dyrannu cyllidebau penodol ar gyfer gwahanol agweddau ar addysg heblaw yn yr ysgol.

5.32 Mae gan rai ALlau drefniadau adfachu ariannol ar waith ar gyfer trosglwyddo disgybl o ysgol i UCD neu lle mae disgybl yn cael addysg yn y cartref, lle mae cyfran o'r Uned a Bwysolwyd ar Sail Oedran y Disgybl yn cael ei adfachu o'r ysgol os yw'r disgybl yn dal i fod ar gofrestr yr ysgol. Mewn un ALl, nododd yr awdurdod y codir tâl ar ysgolion o 50 y cant o gost addysg yn y cartref. Mewn un arall, codir cyfradd uwch ar ysgolion na dyraniad Uned a Bwysolwyd ar Sail Oedran y Disgybl am ddarpariaeth y mae ei disgyblion yn ei chael mewn ysgol annibynnol. Mewn un arall, er bod yr ALl yn talu'r rhan fwyaf o gostau'r UCD yn ganolog, mae disgwyl i ysgolion dalu cyfraniad tuag at leoliadau disgyblion yn yr UCD. Mae'r cyfraniad hwn yn seiliedig ar nifer y disgyblion y mae ysgolion yn eu lleoli yn yr UCD dros gyfnod o flwyddyn, gyda thâl o £10,000 y flwyddyn yn cael ei wneud ar gyfer hyd at 10 o ddisgyblion sy'n manteisio ar y lleoliad chwe wythnos ac £20,000 ar gyfer rhwng 11 ac 20 o ddisgyblion. I bob pwrpas, byddai ysgol a fyddai'n lleoli 10 disgybl yn yr UCD yn cyfrannu £1,000 fesul disgybl a byddai un arall a allai osod dim ond un disgybl yn cyfrannu £10,000 ar gyfer y disgybl hwnnw. Disodlodd y system ffioedd raddedig hon

dâl unffurf i ysgolion o £15,000 y flwyddyn gan y credwyd ei fod yn annheg oherwydd bod rhai ysgolion yn gwneud llawer mwy o ddefnydd nag eraill o'r gwasanaeth.

5.33 Mewn achosion eraill, ni chaiff unrhyw arian ei adfachu o ysgolion os yw disgybl yn cael ei drosglwyddo i'r UCD neu'n manteisio ar ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol sy'n ddarpariaeth allanol, gan nad yw'r ALl am gosbi ysgolion am atgyfeirio disgyblion. Mae dau ALl yn datganoli swm sylweddol o gyllid i ysgolion yn flynyddol i gymryd camau ataliol, gyda'r nod o gadw mwy o ddisgyblion CA4 mewn ysgolion addysg prif ffrwd. Yn un o'r achosion hyn, mae'n ofynnol i ysgolion gynnig am arian a dangos sut y bydd yn cael ei ddefnyddio. Yn nodweddiadol, mae ysgolion yn defnyddio'r cyllid i ddatblygu rhaglen ddysgu fwy pwrpasol ar gyfer eu disgyblion sy'n seiliedig ar gwricwlwm llai.

5.34 Mae dwy UCD yn derbyn cyllideb flynyddol gan yr ALl at ddibenion comisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol ac mae ganddynt ddisgresiwn llawn o ran sut mae hyn yn cael ei wario.

5.35 Yn achos darpariaeth amgen a drefnir drwy weithrediadau a ariennir gan ESF ar gyfer disgyblion ar gofrestr yr ysgol, ariennir y ddarpariaeth drwy grant prosiect yr ESF gyda chyllid cyfatebol yn cael ei ddarparu gan ALlau a chyfraniad gan ysgolion. Mae ysgolion yn cadw eu cyllid Uned a Bwysolwyd ar Sail Oedran y Disgyblion ar gyfer disgyblion sy'n mynychu darpariaeth amgen a ariennir gan ESF.

# 6. Lleoli disgybl mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried sut mae disgybl y mae angen addysg heblaw yn yr ysgol arno yn cael ei adnabod a'i gyfeirio at ddarpariaeth o'r fath a'r ystyriaeth ddilynol a roddir i anghenion a deilliannau addysgol y disgybl. Mae'r bennod yn canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n cael ei threfnu a/neu ei chomisiynu gan ALlau: rhoddir ystyriaeth i ddarpariaeth a gomisiynir gan UCD ac ysgolion ym Mhenodau 9 a 10 yn y drefn honno.

**Adnabod disgybl y mae angen addysg heblaw yn yr ysgol arno**

6.2 Canfu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwaith maes fod ysgolion yn chwarae rhan arwyddocaol o ran hysbysu ALlau am ddisgyblion y gallai fod angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol arnynt ac fe'u nodwyd fel y brif ffynhonnell atgyfeirio gan cynrychiolwyr a gyfwelwyd o ALl, UCD ac ysgolion. Credwyd hefyd bod gweithwyr addysg proffesiynol eraill megis swyddogion ymddygiad a lles yn chwarae rhan mewn dod â disgyblion a chanddynt broblemau ymddygiad i sylw'r ALl. Yn aml, bydd yr ALl eisoes yn ymwybodol o'r disgyblion hyn cyn iddynt gael eu hatgyfeirio i'r ALl i gael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, yn aml oherwydd bod ysgolion yn hysbysu ALlau bod y disgyblion mewn perygl o gael eu gwahardd.

6.3 Dywedodd y rhan fwyaf o ALlau eu bod yn defnyddio 'ymateb graddedig' lle y byddant yn gweithio gydag ysgolion i ddod o hyd i atebion i geisio cynnal disgyblion mewn addysg prif ffrwd cyn eu hatgyfeirio i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cymorth gan dimau ymddygiad, seicolegwyr addysg, swyddogion lles a chyhoeddi datganiadau. Nodir un enghraifft o'r fath isod.

> Mae ysgolion o fewn un ALl sydd wedi nodi bod disgybl yn cael anawsterau yn yr ysgol yn gallu cael gafael ar gyngor arbenigol ac opsiynau cymorth drwy ymyriadau haenog. Yn y lle cyntaf, mae ysgolion yn cyfeirio disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt at Banel Cymorth Ychwanegol Uwchradd. Mae'r panel hwn yn ystyried a yw'r disgybl yn bodloni meini prawf sefydlog ar gyfer cyllid drwy brosiect ESF ac os felly, cynghorir yr ysgol i wneud cais yn uniongyrchol i banel prosiect ESF. Mae panel y prosiect yn ystyried a yw'r disgybl yn bodloni'r meini prawf cyllido ac os oes lleoedd ar gael, bydd disgyblion yn cael eu derbyn a'u lleoli gyda pha bynnag ddarparwr a ariennir sy'n diwallu eu

hanghenion orau. Os daw'r Panel Cymorth Ychwanegol Uwchradd i'r casgliad mai'r lleoliad gorau ar gyfer y disgybl fyddai UCD neu ddarparwr hyfforddiant yna bydd yn cael ei atgyfeirio ymhellach i'r paneli derbyn hyn. Fodd bynnag, os na fernir bod disgybl yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y naill opsiwn neu'r llall, gall ysgolion ystyried atebion eraill megis lleihau amser disgyblion mewn addysg neu drefnu lleoliadau gwaith.

**Y defnydd o baneli atgyfeirio**

6.4 Mae pob ALl ond un yn defnyddio paneli atgyfeirio i wneud penderfyniad ynghylch a oes angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar ddisgyblion. Mae natur a nifer y paneli ym mhob ALl yn amrywio: mae rhai yn gyffredinol eu natur ac eraill yn canolbwyntio ar faterion penodol megis ADY neu UCD.

6.5 Roedd cyfanswm o 11 ALl yn defnyddio un panel atgyfeirio ALl ar gyfer eu holl atgyfeiriadau addysg heblaw yn yr ysgol[91]. Mae tystiolaeth bod gan y paneli atgyfeirio hyn aelodaeth eang gan gynnwys cynrychiolwyr o ysgolion uwchradd, ysgolion cynradd, swyddogion lles addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r paneli hyn yn cwrdd yn rheolaidd, bob mis fel arfer.

6.6 Yn yr awdurdodau sy'n weddill lle y defnyddir panel atgyfeirio, mae gan y panel gylch gwaith ehangach nag addysg heblaw yn yr ysgol yn unig neu mae'r ALl yn gweinyddu mwy nag un panel ar gyfer darpariaeth benodol addysg heblaw yn yr ysgol. Er enghraifft, mewn un awdurdod bydd panel cynhwysiant yn cwrdd i ystyried ceisiadau atgyfeirio i UCD a bydd Panel Mynediad Ieuenctid yn cwrdd i ystyried ceisiadau am y cynllun addysg heblaw yn yr ysgol hwn. Mewn ALl arall, caiff pedwar panel ei gynnull sy'n cwmpasu UCD, ADY, ysgolion arbennig ac achosion cymhleth.

6.7 Dim ond un ALl nad oedd yn defnyddio unrhyw baneli atgyfeirio. Yn yr achos hwn, ymdrinnir â cheisiadau am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn ystod cyfarfodydd bob hanner tymor rhwng ysgolion unigol a'r ALl.

[91] Cyfeiriodd pedwar ALl at y paneli hyn gan ddefnyddio enwau gwahanol i banel atgyfeirio. Fe'u galwyd yn Banel Mynediad i Addysg, Panel Cymedroli, Panel Clirio a Phanel Mynediad Teg.

**Tystiolaeth a gyflwynir i baneli atgyfeirio**

6.8 Nododd sawl ALl ei fod wedi defnyddio proses ymgeisio yn seiliedig ar ddogfennau i'w hystyried gan y panel atgyfeirio a dadleuwyd mai hwn yw'r model a ffefrir gan ei fod yn cynnig mwy o dryloywder i gyrff atgyfeirio nag un sy'n cynnwys mewnbwn gan staff sy'n eirioli ar ran disgyblion. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd yn well gan eraill fabwysiadu dull eirioli yn seiliedig ar yr unigolyn. Dywedodd un ALl, sy'n ystyried bod ei ddull o adnabod ac atgyfeirio disgyblion i gael addysg heblaw yn yr ysgol yn arfer da, fod ei dîm llesiant ac ymddygiad yn gweithio gyda disgyblion unigol sy'n debygol o fod angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol tra roeddent mewn ysgol prif ffrwd, gyda'r nod o gael dealltwriaeth fanwl o anghenion disgyblion cyn ei atgyfeirio at y panel. Credwyd hefyd bod y dull hwn yn fwy amserol wrth ymateb i anghenion disgyblion:

> 'mae fy nhîm yn cyflwyno pob achos i'r panel a bydd ganddo wybodaeth fanwl am yr holl faterion sy'n ymwneud â phresenoldeb, ymddygiad, cyrhaeddiad, ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion ac ati' (staff yr ALl).

Credwyd bod y dull hwn yn gweithio'n dda gan ei fod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â phroblemau'r disgyblion cyn iddynt gael eu hatgyfeirio.

**Tystiolaeth o anghenion disgyblion**

6.9 Mae nifer o ALlau yn defnyddio ffurflen atgyfeirio ffurfiol ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Fel y nodir yn Nhabl 6.1 mae adolygiad o chwe ffurflen atgyfeirio a roddwyd gan ALlau i'r tîm ymchwil yn dangos bod y wybodaeth sy'n ofynnol yn amrywio. Mewn un achos, prif bwrpas yr atgyfeiriad yw nodi pa ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (o restr) y byddai disgybl yn elwa ohoni ond mewn achosion eraill, gofynnir am dystiolaeth ynglŷn â sefyllfa'r disgybl gan ystod o asiantaethau. Mae ffurflenni atgyfeirio, sy'n cael eu hystyried yn arfer da gan staff ALlau, yn gofyn am dystiolaeth ategol gan yr asiantaethau hyn er mwyn cyflwyno'r achos dros yr angen am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a'i haddasrwydd. Maent hefyd yn mynnu tystiolaeth o gamau a gymerwyd gan ysgolion ac asiantau eraill i gynnal disgyblion mewn lleoliadau prif ffrwd. Mewn un achos er enghraifft,

mae'n rhaid i ysgolion ddangos eu bod wedi ymgymryd â'r broses Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, os yw'n briodol, cyn atgyfeirio disgybl i gael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

**Tabl 6.1: Y wybodaeth y gofynnir amdani ar ffurflenni atgyfeirio addysg heblaw yn yr ysgol**

| | ALI1 | ALI2 | ALI3[92] | ALI4[93] | ALI5 | ALI6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Barn athrawon | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Data academaidd | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Data ar bresenoldeb | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Data ar waharddiadau | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Barn gweithwyr yr ALI | ✓* | | ✓ | | ✓ | ✓* |
| Barn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol | ✓* | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓* |
| Barn gweithwyr proffesiynol addysg heblaw yn yr ysgol | ✓* | | | | ✓ | ✓* |
| Barn proffesiynau plant/teulu | ✓* | | | | ✓ | ✓* |
| Barn rhiant/gofalwr | ✓ | ✓[94] | ✓ | ✓[95] | ✓ | ✓ |
| Barn y plentyn | | ✓ | | | ✓ | ✓ |

Ffynhonnell: Adolygiad Ymchwil OB3 o Ffurflenni Atgyfeirio ALl ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol
* fel rhan o'r cais, gellir atodi adroddiadau gan asiantaethau ac adolygiadau eraill

Mewn un ALI, roedd cynrychiolwyr yr ALI yn ystyried bod y broses ymgeisio dryloyw i'r panel atgyfeirio yn arfer da gan fod ei chyflwyno wedi arwain at atgyfeiriadau mwy priodol gan ysgolion. Yn yr ardal hon roedd defnyddio ffurflen 'cais am wasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol' gyda chanllawiau ysgrifenedig ategol yn rhoi arweiniad clir i ysgolion am yr hyn y mae angen iddynt fod wedi'i roi ar waith i ddisgyblion cyn eu hatgyfeirio at y panel. Yn sgil cyflwyno'r ffurflen, gwelwyd lleihad yn nifer yr achosion a wrthodwyd gan y panel atgyfeirio ac a ddychwelwyd i ysgolion i gael cymorth drwy Gweithredu gan yr Ysgol. Nawr, amcangyfrifir bod tua thri chwarter y ceisiadau a ystyriwyd gan y panel atgyfeirio yn cael eu derbyn. Fel rhan o'r

[92] Un Ffurflen Atgyfeirio Cynhwysiant Gwasanaethau Addysg wedi'i mabwysiadu ledled y sir, y mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn un o lawer o wasanaethau y gwneir cais amdanynt drwy ddefnyddio'r ffurflen. Mae gwasanaethau eraill yn cynnwys TRAC 11-24, unedau cyfeirio disgyblion ac addysg yn y cartref.
[93] Ffurflen Atgyfeirio ar gyfer Addysg am Anghenion Meddygol.
[94] Ffurflen cydsyniad rhiant a gwybodaeth feddygol yw hon.
[95] Cydsyniad rhiant neu ofalwr.

broses ymgeisio, rhaid i geisiadau ddangos tystiolaeth (ymhlith pethau eraill):

- y gwnaed ymdrech i ddeall cymhlethdod y ffactorau a allai fod yn effeithio ar ymddygiad ac ymatebion emosiynol y disgybl
- o strategaethau sydd wedi'u cynllunio a'u rhoi ar brawf ar sail asesiad o anghenion y disgybl
- bod anghenion y disgybl, a'r strategaethau a brofwyd, wedi cael eu hadolygu a'u gwerthuso a chamau priodol wedi'u cymryd ar sail yr adolygiad
- y gofynnwyd am gymorth gan asiantau allanol fel y Tîm Ymddygiad a Dysgu a/neu'r Tîm Seicoleg Addysg.

6.10 Yn gyffredinol, credwyd mewn ardaloedd lle mae polisi atgyfeirio clir, lle y defnyddir ffurflenni atgyfeirio a phaneli atgyfeirio, bod yr arferion atgyfeirio yn cael eu cymhwyso'n gyson. Dros amser a chyda mwy o brofiad, adroddwyd bod ysgolion wedi dod yn well am gadw at yr arferion sy'n ofynnol, ond nodwyd y gallai ansawdd y dystiolaeth a ddarperir gan ysgolion amrywio o un achos i'r llall.

6.11 Roedd arferion atgyfeirio yn llai cyson mewn ALlau ble nad yw'r elfennau hyn ar waith a chredwyd mai un canlyniad i hyn oedd ysgolion unigol yn mabwysiadu 'trothwyon' gwahanol ynghylch a oedd ymddygiad disgybl yn cyfiawnhau ei atgyfeirio. Er enghraifft, awgrymodd un awdurdod y gallai un ysgol atgyfeirio ar sail un achos o ymddygiad gwael, ond byddai ysgol arall ond yn cyfeirio disgybl ar sail ymddygiad gwael parhaus a lle roedd ymyriadau yn yr ysgol wedi bod yn aflwyddiannus. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, roedd gan nifer o ALlau restrau gwirio i ysgolion eu mabwysiadu, er mwyn sicrhau eu bod wedi ymchwilio i'r holl bosibiliadau a llwybrau eraill cyn gwneud cais am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Adroddodd eraill y byddai atgyfeiriad yn cael ei anfon yn ôl i'r ysgol gan y panel lle roedd yn amlwg nad oedd yr holl bosibiliadau wedi cael eu harchwilio neu lle nad oedd digon o wybodaeth wedi'i darparu am y camau a gymerwyd gan yr ysgol cyn atgyfeirio'r disgybl. Neges gyffredin a leisiwyd gan ALlau oedd yr angen i ddatblygu 'trothwy' safonol (cenedlaethol o bosibl) i roi mwy o eglurder i ysgolion ynghylch pryd y dylent fod yn atgyfeirio disgyblion i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

6.12 Roedd barn gyson bod arferion atgyfeirio effeithiol yn cynnwys defnyddio paneli atgyfeirio y mae staff amlasiantaeth yn eu mynychu'n rheolaidd. Yn benodol, pwysleisiodd ALlau pa mor bwysig ydoedd i benaethiaid ysgolion fynychu cyfarfodydd y paneli. O ran arfer da a nodwyd gan y tîm ymchwil, canfuwyd bod un panel ALl yn cynnwys rheolwr ymgysylltu’r ALl, swyddog cynhwysiant a rheolwr dysgu, ynghyd â chynrychiolwyr o’r gwasanaeth troseddu ieuenctid, gwasanaethau plant, gwasanaeth ieuenctid, SNAP Cymru, tîm plant sy'n derbyn gofal, ADY, tîm addysgu arbenigol a phenaethiaid o bedair ysgol. Mewn un ALl, ystyrir bod diffyg cynrychiolwyr ysgolion ar y panel yn wendid. Credwyd mai anfantais defnyddio paneli atgyfeirio oedd y ffaith bod y broses yn dreth ar amser ac adnoddau a'r ffaith y gallai'r broses gymryd mwy o amser i roi darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar waith. Mewn achosion o'r fath, awgrymwyd bod defnyddio lleoliadau brys yn bwysig. Credwyd hefyd bod paneli atgyfeirio a ffurflenni atgyfeirio yn rhoi anghenion y disgybl wrth wraidd y broses ac yn cynnig llwybr tryloyw i bawb dan sylw.

**Adnabod anghenion a deilliannau addysgol y plentyn**

6.13 Mae ALlau, fel mater o drefn, yn adnabod anghenion y plentyn ar yr un pryd â phenderfynu a oes angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Fel rheol, mae'r ysgol wedi nodi anghenion disgybl cyn atgyfeirio'r disgybl i gael addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig lle mae ymateb graddedig wedi'i fabwysiadu. Mewn rhai ardaloedd byddai cais penodol am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol neu 'gwrs' penodol ar gyfer disgybl yn cael ei wneud fel rhan o'r broses atgyfeirio.

6.14 Mewn achosion lle mae disgyblion wedi cael eu hatgyfeirio at ddarpariaeth UCD, cesglir dealltwriaeth fanylach o anghenion disgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Adroddodd UCD eu bod yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y disgybl er mwyn rhoi pecyn pwrpasol o weithgareddau a chymorth ar waith yn seiliedig ar anghenion a diddordebau'r disgybl. Mae hyn yn aml yn cynnwys darpariaeth allanol. Mewn un achos, mae disgyblion yn cael diwrnod 'ymweld' â'r UCD, sy'n cynnwys ymweld â'r holl ddarpariaeth allanol sydd ar gael er mwyn penderfynu ar eu pecyn addysg.

6.15 Dadleuodd ALlau fod y deilliannau addysgol i ddisgyblion hefyd fel arfer yn cael eu nodi ar yr un pryd â'r penderfyniad ynghylch a oes angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Bydd y rhain yn aml yn cynnwys deilliannau'n ymwneud â phresenoldeb, ymddygiad a llesiant, er bod y graddau y maent yn ymdrin â deilliannau'n ymwneud â chyrhaeddiad yn amrywio. Mae paneli atgyfeirio yn chwarae rhan bwysig wrth ystyried y deilliannau addysgol tebygol ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol a byddant yn myfyrio ar wybodaeth megis potensial disgybl i gyflawni deilliannau penodol a nodir mewn ffurflenni atgyfeirio. Adroddodd UCD eu bod yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd gan ysgolion am ragamcanion disgyblion o ddeilliannau tebygol yn ymwneud â chyrhaeddiad. Nododd ALlau sy'n comisiynu darpariaeth allanol fod deilliannau addysgol a 'thargedau' yn cael eu trafod ar lafar gyda'r darparwr cyn i leoliad gychwyn, ond bydd gosod targedau ffurfiol ar gyfer cymwysterau yn dibynnu ar a yw'r darparwr yn cynnig y rhain.

**Lleoli disgybl gyda darparwr allanol addysg heblaw yn yr ysgol**

6.16 Lle maent yn bodoli, mae paneli atgyfeirio yn seilio eu penderfyniad i leoli disgybl gyda darparwr allanol addysg heblaw yn yr ysgol ar wybodaeth a ddarperir ar ffurflenni atgyfeirio a/neu dystiolaeth a ddarperir gan yr arweinydd atgyfeirio (ysgol fel arfer) ac unigolion allweddol eraill fel swyddogion lles. Bydd y penderfyniad hefyd yn cael ei lywio gan wybodaeth aelodau'r panel am ddisgyblion a atgyfeiriwyd. Nododd ALlau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd gorau'r disgybl.

## 7. Dull ALlau o gomisiynu darpariaeth allanol

7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y dull a fabwysiadwyd gan ALlau wrth gomisiynu darpariaeth allanol, gan gynnwys defnyddio fframweithiau neu restrau comisiynu a'r gweithgareddau a wneir ar ôl comisiynu. Er nad ydynt o reidrwydd yn cael eu diffinio fel darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan gynrychiolwyr ALl, mae'r bennod hon hefyd yn ystyried trefniadau a fabwysiadwyd gan ALlau ar gyfer comisiynu darpariaeth allanol drwy weithrediadau ESF lle y codwyd hyn yn ystod cyfweliadau.

7.2 Mae'n seiliedig yn bennaf ar ganfyddiadau'r cyfweliadau ag ALlau sy'n comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr allanol.

**Y math o ddarpariaeth allanol a gomisiynir**

7.3 Mae nifer y darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol sy'n ddarparwyr allanol a ddefnyddir fel arfer gan ALlau yn amrywio o un neu ddau i rhwng chwech ac wyth. Pan gomisiynir darparwyr drwy weithrediadau rhanbarthol ESF, mae nifer y darparwyr a nodir ar fframweithiau caffael yn uwch (e.e. 40 mewn un ALl) oherwydd yr angen i ddarparu ar gyfer nifer fwy o ddisgyblion ac ystod ehangach o oedran ac anghenion disgyblion.

7.4 Y math mwyaf cyffredin o ddarpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir gan ALlau yw darpariaeth alwedigaethol, a ddarperir gan ddarparwyr yn y sector preifat, y trydydd sector a SAB. Ymhlith yr enghreifftiau mae cyrsiau awyr agored, chwaraeon, ffermio/amaethyddiaeth, trin gwallt, mecaneg, plymwaith, gofal plant, adeiladu, gofal anifeiliaid a chyrsiau arlwyo yn ogystal â lleoliadau gwaith estynedig. Mewn sawl achos, mae'r ddarpariaeth yn debyg i ddarpariaeth a gafwyd naill ai'n uniongyrchol gan ysgolion neu drwy fframweithiau ALl ar gyfer gweithrediadau ESF, megis Cynnydd a TRAC.

7.5 Mewn dau achos, dim ond gan nifer cyfyngedig o ysgolion arbenigol y tu allan i'w hardal y mae ALlau yn comisiynu darpariaeth allanol, a hynny ar sail anghenion unigol, ar gyfer disgyblion a chanddynt anawsterau lle nad oes darpariaeth ar eu cyfer o fewn yr ardal. Cymharol ychydig o ddewis sydd ar gael iddynt ac yn aml mae penderfyniadau i leoli disgyblion yn yr ysgolion hyn yn cael eu llywio gan argaeledd lleoedd addas ar unrhyw adeg

benodol. Nid yw'r cyfleoedd fel arfer yn cael eu hysbysebu'n agored. Mae dewisiadau rhieni yn chwarae rhan allweddol o ran nodi lleoliad addysg, ar yr amod y gall yr ysgol arbennig a ddewiswyd dderbyn y disgybl. Os oes dewis ar gael, ystyrir cost y ddarpariaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae perthynas ag ysgolion arbennig wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac mae'r asesiad o addasrwydd parhaus y lleoliad yn tueddu i ddibynnu ar adborth gan staff yr ALl sy'n ymweld ag ysgolion yn rheolaidd (e.e. gweithwyr cymdeithasol, cydlynwyr plant sy'n derbyn gofal). Mewn un achos, mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i hystyried drwy adolygiadau blynyddol o ddarpariaeth a chaiff trefniadau gydag unrhyw ysgol arbennig y bernir ei bod yn cynnig darpariaeth anfoddhaol neu amhriodol eu terfynu.

7.6 Trafododd nifer fach o ALlau eu dull o gomisiynu addysg yn y cartref gan ddarparwyr allanol i ddisgyblion na allent fynychu'r ysgol am resymau iechyd neu resymau meddygol. Mae un ALl yn darparu awr o addysg y dydd i'r disgyblion hyn ar sail un i un neu mewn grwpiau bach mewn lleoliadau megis llyfrgelloedd neu ganolfannau cymunedol (er na ellir diffinio darpariaeth grŵp o'r fath fel addysg yn y cartref). Mewn ALl arall, lle mae'r mwyafrif o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn rhai ag anghenion meddygol ac iechyd meddwl ac na allant fynychu ysgolion prif ffrwd ac y byddai mynychu UCD yn amhriodol iddynt, mae'r disgyblion yn cael darparwr addysg ar-lein a all gynnig cymwysterau TGAU rhifedd a Saesneg. Yn yr achos hwn, mae staff yr ALl yn gweithredu fel mentoriaid dysgu i ddisgyblion sydd wedi cofrestru gyda'r darparwr addysg ar-lein er mwyn monitro a mynd i'r afael ag unrhyw faterion.

7.7 Mae'r prif resymau a nodwyd gan ALlau dros gomisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol yn cynnwys yr angen i ddiwallu anghenion penodol disgyblion, yr angen i allu cynnig cyfleoedd dysgu amrywiol a phriodol i ddisgyblion, y diffyg capasiti neu sgiliau i gynnig darpariaeth yn fewnol a'r farn bod darparwyr allanol (gan gynnwys SAB) mewn gwell sefyllfa i gyflwyno'r ddarpariaeth sy'n ofynnol. Mewn rhai achosion, lle mae'r drafodaeth hefyd yn ystyried darpariaeth allanol a gomisiynir drwy weithrediadau a ariennir gan ESF, mae argaeledd cyllid yn ffactor sy'n caniatáu i ALlau gomisiynu darpariaeth.

### Y defnydd o restrau neu fframweithiau darparwyr allanol

7.8 Fel y dangosir yn Nhabl 7.1, mae gan saith ALl fframwaith o ddarparwyr cymeradwy addysg heblaw yn yr ysgol a benodwyd yn dilyn proses gomisiynu gystadleuol agored, ond mewn dau o'r achosion hyn cafodd y fframwaith o ddarparwyr ei gaffael drwy fframweithiau darpariaeth allanol ESF. Ym mhob achos, roedd ALlau wedi cyhoeddi gwahoddiad i dendro drwy GwerthwchiGymru ac wedi derbyn cyflwyniadau gan ddarpar ddarparwyr. Mae ALlau yn cynnal asesiad o addasrwydd fel rhan o'r gofynion tendro. Fel arfer, mae'r broses yn cynnwys cyfweliadau a gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar ddarparwyr arfaethedig. Mewn achosion lle mae ALlau yn mabwysiadu proses gomisiynu gystadleuol, mae nifer y darparwyr a ddefnyddir yn fwy nag ar gyfer yr ALlau hynny nad ydynt yn ymgymryd â phroses debyg.

**Tabl 7.1: ALlau sy'n comisiynu darpariaeth allanol a'u defnydd o restrau neu fframweithiau o ddarparwyr**

| | |
|---|---|
| ALlau sy'n gweithredu fframwaith a gomisiynir drwy gystadleuaeth | Caerffili, Ceredigion, Sir Ddinbych, Casnewydd, Sir Benfro, Abertawe, Bro Morgannwg |
| ALlau sy'n gweithredu fframwaith na chafodd ei gomisiynu drwy gystadleuaeth | Caerdydd |
| ALlau sy'n gweithredu rhestr o ddarparwyr sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd | Wrecsam |
| ALlau nad ydynt yn gweithredu fframwaith neu restrau o ddarparwyr ond sy'n comisiynu darpariaeth | Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Powys, Torfaen |

Ffynhonnell: Gwaith maes Ymchwil OB3 gydag ALlau

7.9 Dim ond un ALl a oedd wedi datblygu fframwaith comisiynu o ddarparwyr cymeradwy addysg heblaw yn yr ysgol heb ymgymryd â phroses gaffael gystadleuol. Datblygwyd y fframwaith, yn seiliedig ar fframwaith arolygu Estyn, gan ddefnyddio gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyfer darparwyr allanol hysbys. Roedd hyn yn cynnwys darparwyr yn cynnal ymarfer hunanasesu i ddangos sut roeddent yn bodloni gofynion yr ALl a chyfarfod rhwng y darparwr a'r ALl i gytuno ar unrhyw feysydd i'w gwella. Mae'r

fframwaith hwn o ddarparwyr cymeradwy ar gael i ysgolion er mwyn iddynt gomisiynu darpariaeth yn uniongyrchol.

7.10 Dim ond un ALl a oedd wedi llunio rhestr o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a oedd yn weithredol yn eu hardal ac ao edd weid bod yn destun proses sicrwydd ansawdd. Lluniwyd y rhestr gan ddefnyddio gwybodaeth leol ac roedd aelod o dîm yr ALl wedi gwirio bod gan ddarparwyr bolisïau perthnasol ar waith.

7.11 Nid oes gan y chwe ALl sy'n weddill, sy'n comisiynu darpariaeth allanol, fframwaith na rhestr o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynwyd yn ffurfiol. Mae'r rhain yn defnyddio prosesau comisiynu anffurfiol ac yn tueddu i ddefnyddio nifer llawer llai o ddarparwyr, yn nodweddiadol y rhai sydd eisoes yn hysbys i'r awdurdod ac sydd wedi cael eu defnyddio ers nifer o flynyddoedd. Yn yr achosion hyn, mae ALlau wedi negodi'n uniongyrchol gyda darparwyr arfaethedig yn unigol i roi darpariaeth ar waith.

7.12 Nododd yr ALlau a gyfwelwyd manteision datblygu fframwaith agored a chystadleuol o ddarparwyr cymeradwy fel a ganlyn:

- gallu chwilio'r farchnad am ystod o ddarparwyr posibl
- gweithredu mewn modd agored a thryloyw
- sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau caffael yr ALl
- gallu cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy
- sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau cyfreithiol a statudol, a
- sicrhau gwell gwerth am arian.

7.13 Un anfantais oedd bod y broses yn dreth ar adnoddau ac amser. Dadleuodd nifer bach o ALlau (gan gynnwys y rhai nad oeddent wedi ymgymryd â phroses gaffael gystadleuol i ddarparwyr) fod rhai darparwyr effeithiol addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu diystyru ar y sail na allent fodloni'r gofynion caffael a osodwyd gan yr ALl. Nodwyd bod darparwyr ar raddfa fach yn llai tueddol o ymateb i ymarferion caffael ffurfiol oherwydd swm y gwaith sy'n gysylltiedig â pharatoi cynigion ysgrifenedig. Mewn ambell ardal, roedd cyflwyno proses gaffael gystadleuol wedi arwain at ostyngiad yn nifer y darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a ddefnyddiwyd.

Mewn ardaloedd eraill, ystyriwyd bod nifer y darparwyr sydd ar gael i'r ALl mor isel fel na fyddai proses gaffael ffurfiol yn ychwanegu gwerth.

**Meini prawf ar gyfer sicrhau ansawdd darparwyr allanol**

7.14 Roedd mwyafrif yr ALlau yn hyderus eu bod yn mabwysiadu meini prawf priodol ar gyfer asesu ansawdd darparwyr allanol a chanfu'r adolygiad fod polisïau a phrosesau darparwyr yn cael eu hystyried yn helaeth yn yr asesiad hwn. Datgelodd y gwaith maes gydag ALlau fod asesiad ansawdd mwy ffurfiol a chadarn o ddarparwyr yn cael ei gynnal gan y rhai sy'n mabwysiadu proses dendro gystadleuol i ganfod darparwyr. Yn yr achosion hyn, defnyddir ystod eang o feini prawf asesu. Y meini prawf y cyfeiriwyd atynt amlaf a ddefnyddir i asesu darparwyr fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd yw polisïau darparwyr, trefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr, trefniadau ar gyfer cynllunio darpariaeth i weddu i anghenion dysgwyr unigol a'r gallu i ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA/ADY.

Mae un ALl yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael y polisïau a'r gweithdrefnau canlynol ar waith fel isafswm:

- polisi amddiffyn/diogelu plant (gan gynnwys recriwtio diogel/defnydd diogel o TGCh/cyfryngau cymdeithasol/amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel
- gweithdrefnau cwyno (gan gynnwys cwynion gan ddysgwyr)
- polisi diogelu data
- polisi cydraddoldeb (gan gynnwys Polisi Iaith Gymraeg)
- polisi cynaliadwyedd
- polisi disgyblu disgyblion/dysgwyr (gan gynnwys polisi gwrth-fwlio)
- polisi sicrhau ansawdd gan gynnwys llais y dysgwr
- polisi anghenion addysgol arbennig
- polisïau disgyblu, ymddygiad, gallu a chwynion staff
- polisi recriwtio staff.

7.15 At ei gilydd, mae llai o ffocws ar asesu ansawdd y ddarpariaeth i ddysgwyr wrth asesu darparwyr allanol. Yn yr un modd, rhoddir llai o ffocws ar allu darparwyr i ddarparu ar gyfer dysgwyr y mae'n well ganddynt ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er bod dogfennau comisiynu a adolygwyd gan y tîm ymchwil yn nodi hyn fel gofyniad. Nodwyd mai dim ond mewn nifer fach

iawn o achosion lle yr ystyrir defnyddio darparwyr ysgolion cofrestredig y defnyddir adroddiadau Estyn.

7.16 Mewn achosion lle na chafwyd asesiad sicrhau ansawdd strwythuredig cychwynnol (yn bennaf oherwydd bod darparwyr wedi cael eu defnyddio gan ALlau am nifer o flynyddoedd), mae ALlau yn monitro addasrwydd darparwyr yn barhaus. Pan fydd darparwr hefyd yn cael ei ddefnyddio gan ALlau eraill, mae rheolwyr cynhwysiant neu ddiogelu yn rhannu gwybodaeth neu unrhyw bryder ynghylch darparwyr ag ALlau eraill drwy amrywiol gyfarfodydd rhwydwaith.

7.17 Mae ALlau yn craffu'n fanylach ar ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol sy'n ddarparwyr mwy newydd neu lai aeddfed.

Er enghraifft, mae un ALl wedi datblygu rhestr wirio er mwyn asesu addasrwydd darparwyr allanol mewn modd cyson (a defnyddir hon yn barhaus i fonitro addasrwydd). Mae'r daenlen hon yn ymchwilio i faterion o dan bedair thema: deilliannau, llesiant, diogelu a diwallu anghenion:

Deilliannau

- a yw staff yn deall lefelau llythrennedd a rhifedd disgyblion perthnasol
- y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion ac a ydynt ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau
- trefniadau ar gyfer gosod a monitro targedau
- trefniadau ar gyfer cadw cofnodion
- trefniadau ar gyfer cynllunio arholiadau/cymwysterau arbennig
- y cymwysterau a gynigir i ddisgyblion

Llesiant

- yr amgylchedd dysgu
- a yw disgyblion yn dangos diddordeb ac yn ymgysylltu
- cyfraddau presenoldeb disgyblion perthnasol
- ymddygiad disgyblion
- targedau a osodwyd mewn Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)
- cynnwys disgyblion yn y broses o wneud penderfyniadau
- effeithiolrwydd lleoliadau o ran datblygu sgiliau bywyd
- cyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael
- trefniadau cynllunio ar gyfer pontio
- cymorth proffesiynol ychwanegol
- ystyriaethau staff e.e. deall rolau, trosiant
- trefniadau ar gyfer adrodd am achosion o fwlio ac aflonyddu

- trefniadau ar gyfer ymgynghori â rhieni/gofalwyr

Diogelu

- polisïau diogelu a staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain
- arweinydd dynodedig ar gyfer diogelu
- a yw gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith i'r staff
- trefniadau ar gyfer hysbysu a hyfforddi staff ynghylch diogelu ac ymyrraeth gorfforol gyfyngol
- ymwybyddiaeth staff o bolisïau a beth i'w wneud

Diwallu anghenion

- defnyddio CDU i osod targedau, cynllunio a chyflwyno darpariaeth a monitro cynnydd
- gallu disgyblion i gael mynediad at gwricwlwm priodol a chytbwys
- Cysylltu ag arbenigwyr e.e. Therapi Lleferydd ac Iaith
- addasiadau ffisegol i ddiwallu anghenion disgyblion.

7.18 Wrth gomisiynu darpariaeth drwy broses gystadleuol, mae ALlau fel rheol yn datblygu manyleb sy'n amlinellu natur y ddarpariaeth sy'n ofynnol ac yn rhoi syniad o'r 'capasiti' sy'n ofynnol. Mae timau caffael ALlau yn chwarae rhan hanfodol wrth oruchwylio'r broses gomisiynu, gan sicrhau mewnbwn y tîm cynhwysiant fel y bo'n briodol. Mae manylebau ALlau fel arfer yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae ALlau yn ei ddisgwyl o ran cymhareb disgybl-athro, polisïau sefydliadol, nifer disgwyliedig y dysgwyr, trefniadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd, yswiriant, asesiadau risg, polisïau amddiffyn plant a gweithdrefnau disgyblu staff. Mae rhai ALlau yn hysbysebu cyfleoedd darpariaeth allanol yn rheolaidd (e.e. bob dwy flynedd yn achos un ALl).

Mewn un ALl rhannwyd y gwahoddiad i dendro yn dri 'lot' a gwahoddwyd partïon i gynnig am un lot neu fwy. Roedd y tri lot yn canolbwyntio ar:

- Lot 1 - dysgu galwedigaethol, prentisiaethau, adeiladu, mecaneg moduron, gofal anifeiliaid, gwallt a harddwch, gweinyddu busnes, manwerthu, lletygarwch, gwasanaethau cwsmeriaid, llythrennedd a rhifedd
- Lot 2 - dysgu ac addysg drwy weithgaredd corfforol, chwaraeon, sgiliau hanfodol, gwasanaethau cyhoeddus, y lluoedd arfog, llythrennedd a rhifedd
- Lot 3 - dysgu amgylcheddol/garddwriaeth, therapïau anifeiliaid, llesiant, llythrennedd a rhifedd.

Yn yr achos hwn, nodwyd y meini prawf asesu a'r pwysoliad a ddefnyddiwyd i ddyfarnu'r contract fel a ganlyn:

- profiad o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc (10%)
- materion a ffactorau pwysig y dylid eu hwynebu a'u goresgyn yn ystod cyfnod sy'n arwain at ddechrau'r contract, gan gynnwys delio â darpariaeth ad-hoc (10%)
- profiad o waith â ffocws a wnaed gyda pherson ifanc yn unol â'i anghenion (6.6%)
- gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau addysg (6.7%)
- cadw at bolisïau a gweithdrefnau sy'n cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant Cymru (6.7%)
- proses o asesu addasrwydd a chymhwysedd darpar staff (4%)
- rhoi gwybodaeth a hyfforddiant i staff ar weithredu polisïau a gweithdrefnau gan gynnwys newid i ddeddfwriaeth (2%)
- priodoldeb cynlluniau i ddarparu staff cyflenwi yn ystod absenoldeb (4%)
- trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd y gwasanaeth a chydymffurfio â gofynion y contract (5%)
- cynlluniau ar gyfer rheoli gwelliant parhaus (5%)
- proses a roddir ar waith pan fydd mater diogelu'n codi (20%)
- cyfweliad a chyflwyniad (20%)

7.19 Er nad oedd yn un o ofynion uniongyrchol briff yr astudiaeth, cafodd gwybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir gan rai ALlau i asesu addasrwydd darpariaeth allanol a gynigir drwy weithrediadau a ariennir gan ESF, megis TRAC a Cynnydd, ei chasglu a'i hadolygu hefyd. Mae'n ymddangos bod y dull a'r meini prawf a ddefnyddir yn debyg ac yn gyson â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol.

7.20 Mae ALlau sy'n comisiynu lleoedd mewn SAB ar gyfer cynlluniau megis Prentisiaethau Iau a Phrentisiaethau Ieuenctid yn tueddu i wneud hynny drwy gontractau lleoliadau bloc ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn dilyn proses negodi e.e. mae un ALl yn comisiynu SAB yn flynyddol i ddarparu ar gyfer tua 40 o ddisgyblion yn y flwyddyn academaidd ganlynol.

7.21 Yn achos yr un ALl a oedd wedi datblygu rhestr o ddarparwyr allanol, a fu'n destun proses sicrwydd ansawdd, drwy ddull anghystadleuol, nodwyd bod yr asesiad o ddarparwyr yn ystyried:

- a ydynt wedi'u cofrestru fel ysgol annibynnol gyda Llywodraeth Cymru
- polisïau perthnasol
- trefniadau diogelu
- dull o weithio gyda disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

7.22 Mewn ALlau nad oes ganddynt restr na fframwaith o ddarparwyr cymeradwy ond sy'n comisiynu darpariaeth allanol, heblaw ysgolion arbenigol, adroddwyd bod yr ALl wedi cytuno i'r ddarpariaeth gael ei heithrio rhag gorfod dilyn polisi tendro'r awdurdod, lle mae'n rhaid caffael contractau ar gyfer darpariaeth sy'n fwy na gwerth penodol drwy gystadleuaeth. Nododd dau ALl eu bod yn debygol o symud tuag at broses dendro agored ar gyfer cyfleoedd addysg heblaw yn yr ysgol o'r fath yn y blynyddoedd i ddod ac roedd traean wedi gwneud hynny yn ystod cyfnod y gwaith ymchwil hwn. Mae dulliau mwy anffurfiol o gomisiynu lleoliadau wedi'u mabwysiadu mewn ALlau eraill. Mewn un achos, roedd yr ALl yn nodi darparwyr ar sail eu hanes a'r defnydd blaenorol ohonynt gan yr ALl. Er bod lleoliadau'n cael eu comisiynu ar sail unigolyn a grŵp, nid oes unrhyw gontractau ffurfiol ar waith.

**Contractau gyda darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol**

7.23 Mae gan ryw chwe ALl gontractau ar waith gyda darparwyr allanol a gomisiynwyd i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol ac mae gan bedwar ALl gytundebau lefel gwasanaeth (CLG). Roedd un ALl wrthi'n drafftio CLG ar gyfer darparwyr sy'n ysgolion nas cynhelir ac yn ysgolion annibynnol, er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau yn ansawdd y ddarpariaeth.

7.24 Yn ogystal â'r rhain, nododd sawl ALl hefyd fod gan weithrediadau a ariennir gan ESF, megis Cynnydd, gontractau ffurfiol neu CLG ar waith gyda darparwyr allanol.

7.25 Yn fras, lle mae'r ALl yn gosod nifer fawr o ddisgyblion gyda darparwr, mae contractau neu CLG yn tueddu i gwmpasu grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn arbennig o wir am raglenni a ddarperir gan SAB, lle mae dau ALl wedi

mabwysiadu memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Lle mae nifer y disgyblion yn is, mae ALlau yn tueddu i fabwysiadu contractau neu CLG unigol.

7.26 Mewn achosion lle na roddir contract neu gytundebau lefel gwasanaeth ar waith, mae ALlau yn dwyn darparwyr i gyfrif drwy drefniadau monitro rheolaidd.

7.27 Adroddodd ALlau, pan fydd contractau neu CLG yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer lleoliadau unigol, bod y rhain fel arfer ar waith cyn i'r lleoliad ddechrau. Bydd eu cynnwys yn dilyn y gofynion tendro, lle mae'r rhain wedi'u mabwysiadu.

# 8. Rheoli a monitro darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol

8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y trefniadau cofrestru sydd ar waith ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, dulliau ar gyfer ailintegreiddio disgyblion i addysg prif ffrwd a'r camau a gymerir gan ALlau i fonitro a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol sy'n cael darpariaeth allanol.

**Cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol**

8.2 Gall disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fod â chofrestriad sengl neu ddeuol. Pan fydd disgybl yn mynychu, er enghraifft, UCD yn llawn amser, yn gyffredinol bydd gan y disgybl gofrestriad sengl gyda'r UCD. Pan fydd disgybl yn mynychu, er enghraifft, UCD ac ysgol brif ffrwd, bydd gan y disgybl gofrestriad deuol.

8.3 Mae dau is-gategori i gofrestriad deuol - prif sefydliad a sefydliad atodol. Defnyddir y prif gategori ar gyfer y lleoliad sy'n darparu'r rhan fwyaf o addysg disgybl a defnyddir yr is-gategori atodol ar gyfer y lleoliad lle mae'r disgybl yn derbyn lleiafrif ei addysg.

8.4 Mewn achosion lle mae'r ysgol prif ffrwd yn darparu'r rhan fwyaf o addysg y disgybl, bydd gan y disgybl statws cofrestru deuol prif sefydliad yn yr ysgol. Mewn achosion o'r fath, mae cyflawniad y disgybl yn CA4 wedi'i gynnwys yn nata perfformiad yr ysgol.

8.5 Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, lle mae gan y disgybl stawts cofrestru deuol atodol mewn ysgol, nid yw cyflawniad y disgybl yn CA4 wedi'i gynnwys yn nata perfformiad yr ysgol.

8.6 Dadleuwyd bod cynnwys y deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael effaith negyddol ar ddata perfformiad ysgolion ac nid oedd cymhelliant i ysgolion fabwysiadu dull cynhwysol o gefnogi disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Awgrymwyd hefyd gan y rhai a gyfwelwyd o ALlau ac UCD fod hyn yn helpu i egluro, yn rhannol, yr arfer o ddatgofrestru disgyblion blwyddyn 11 sy'n cael addysg heblaw yn yr

ysgol yn ogystal â newid eu statws cofrestru ysgol (o brif sefydliad i sefydliad atodol) cyn gweithredu cyfrifiad CYBLD yn flynyddol.

8.7 Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth allanol a drefnir ac a ariennir gan yr ysgol gofrestriad sengl â'u hysgol, gan nad oes categori ar hyn o bryd yn debyg i gofrestriad addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer cofrestru disgyblion sy'n mynychu darpariaeth y tu allan i addysg brif ffrwd a drefnir gan ysgolion.

8.8 Mae polisïau ALIau mewn perthynas â statws cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gymhleth ac yn gwahaniaethu rhwng un ardal ALI a'r llall a rhwng un grŵp o ddisgyblion a'r llall.

8.9 Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion sy'n cael eu cyfeirio at yr UCD ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gofrestriad deuol yn eu hysgol prif ffrwd/ysgol gartref a'r UCD. Pwysleisiodd sawl ALI sy'n gweithredu UCD sy'n darparu lleoliadau rhan-amser neu dros dro eu bod yn gweithredu polisïau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith nad ydynt yn caniatáu i ddisgyblion gael cofrestriad sengl yn yr UCD. Ystyriwyd polisïau cofrestru deuol gan gynrychiolwyr yr ALI i annog ysgolion i gadw mewn cysylltiad â disgyblion a pharhau i ymwneud â'u cynnydd, ond yn ymarferol awgrymodd rhai UCD mai ychydig iawn o ddiddordeb sydd gan ysgolion mewn disgyblion ar ôl iddynt gael eu cyfeirio atynt.

8.10 Canfu'r gwaith maes fod gan rai disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol gofrestriad sengl â'r UCD: mae'r rhain yn ddisgyblion sy'n cael darpariaeth amser llawn, tymor hwy yn yr UCD ac yn tueddu i fod yn ddisgyblion blwyddyn 11, disgyblion sy'n blant sy'n derbyn gofal, disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol neu'n rhai sydd wedi dod o ALI arall.

8.11 Canfuwyd ambell enghraifft o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol â chofrestriad sengl â'r ALI. Dywedodd un ALI y byddai disgyblion sy'n cael un math o ddarpariaeth allanol yn cael eu cofrestru fel disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol a drefnwyd gan yr ALI ond nododd un arall y gallai disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol gael cofrestriad sengl fel disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol gan yr ALI.

8.12 Mae gan fwyafrif helaeth y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion prif ffrwd ac sy'n cael darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol nad yw'n ddarpariaeth gan UCD gofrestriad sengl yn eu hysgol prif ffrwd. Yr eithriad i hyn yw rhai disgyblion sy'n cael eu rhoi mewn darpariaeth SAB, megis Prentisiaeth Iau, ac sydd â chofrestriad sengl yn y coleg. Mewn un ALl, adroddwyd bod yr arfer o ddisgyblion yn cael eu datgofrestru yn ystod blwyddyn 11 tra roeddent yn manteisio ar ddarpariaeth yn y coleg yn newid ac y byddai'n ofynnol i ysgolion gadw disgyblion ar y gofrestr yn y dyfodol tra roeddent yn manteisio ar y ddarpariaeth hon.

8.13 Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion a leolir mewn ysgolion arbennig gofrestriad sengl yn yr ysgolion arbennig hynny yn hytrach na'u lleoliadau prif ffrwd blaenorol. Roedd rhai eithriadau i hyn e.e. roedd gan ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd mewn un awdurdod a oedd wedi'u lleoli gydag ysgol annibynnol ar sail amser llawn gofrestriad deuol.

8.14 Cafwyd darlun cymysg o ran statws cofrestru disgyblion sy'n cael addysg yn y cartref oherwydd salwch. Dywedodd un ALl fod y disgyblion hyn yn aros ar gofrestr yr ysgol ond roedd yn ymwybodol bod ALlau eraill yn tynnu enwau disgyblion blwyddyn 11 oddi ar gofrestr yr ysgol cyn dyddiad adrodd CYBLD ym mis Ionawr.

8.15 Mynegodd nifer o gynrychiolwyr ALlau a gyfwelwyd bod yn well ganddynt i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fod â chofrestriad deuol ond er hynny roeddent yn bragmataidd ynghylch yr anawsterau yr oedd hyn yn eu creu i ysgolion. Ystyriwyd mai prif gryfder cofrestriad deuol oedd bod yr ysgol yn gallu parhau i ymwneud ac ymgysylltu ag addysg y plentyn, fel bod disgyblion yn teimlo eu bod yn perthyn, a chredwyd bod hyn yn cynorthwyo disgyblion i ailintegreiddio. Roedd staff yr ALl hefyd yn ymwybodol bod gorfodi cofrestru deuol yn annog ysgolion i beidio â 'datgofrestru' disgyblion blwyddyn 11, yn enwedig yn y cyfnod yn arwain at ymarfer cipio data disgyblion CYBLD ym mis Ionawr. Er gwaethaf hyn, roedd ALlau yn ymwybodol bod yr arfer hwn wedi'i fabwysiadu, a chyfeiriwyd at sawl enghraifft o ddisgyblion yn cael eu datgofrestru ym mis Ionawr.

8.16 Dadleuodd sawl cynrychiolydd a gyfwelwyd o ALlau ac UCD fod ysgolion yn amharod i gadw disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ar eu cofrestr, gan fod gwneud hynny'n cael effaith negyddol ar eu dangosyddion perfformiad allweddol, yn enwedig eu data perfformiad ar gyfer CA4. Roedd sawl ALl yn cydnabod hyn ac, mewn rhai achosion, yn caniatáu i ddisgybl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol gael cofrestriad sengl mewn UCD, hyd yn oed mewn achosion lle nad yw disgybl erioed wedi mynychu'r UCD. Mewn ambell achos lle roedd gan ddisgyblion gofrestriad sengl yn yr UCD, roeddent yn parhau i gael mynediad at rywfaint o'u cwricwlwm craidd yn eu hysgol prif ffrwd. Mewn achos arall, mae disgyblion blwyddyn 11, sy'n cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol amser llawn sy'n ddarpariaeth allanol, yn cael cofrestriad sengl yn yr UCD ym mis Ionawr, gan y credwyd bod gallu aros ar gofrestr yr ysgol tan hynny yn caniatáu i'r disgybl ddychwelyd i'w ysgol prif ffrwd pe bai'r lleoliad yn aflwyddiannus.

**Ailintegreiddio disgyblion i addysg prif ffrwd**

8.17 Wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ailintegreiddio, canolbwyntiodd y rhai a gyfwelwyd o ALlau ac UCD yn bennaf ar y disgyblion hynny sy'n cael darpariaeth drwy UCD. Mewn egwyddor, mynegodd y rhai a gyfwelwyd o'r ALlau a'r UCD eu cefnogaeth i ailintegreiddio disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol cyn gynted â phosibl, gan ychwanegu mai dyma oedd amcan cyffredinol yr ALl. Roedd gan rai ALlau arferion cliriach o ran cyflawni hyn, gan mai dim ond lleoliadau â therfyn amser yn unig yr oedd eu UCD yn eu cynnig e.e. mewn un ALl mae disgyblion yn mynychu'r UCD i gael ymyrraeth fer chwe wythnos, tra bod eraill yn cael cynnig darpariaeth am gyfnod hwy neu ddarpariaeth ddiderfyn.

8.18 Yn gyffredinol, mae cyfran uwch o ddisgyblion sy'n astudio ar lefel CA3 neu is mewn UCD yn ailintegreiddio i addysg prif ffrwd, ond mae ailintegreiddio disgyblion CA4 yn llai cyffredin, os yw'n digwydd o gwbl. Yn wir, yn aml mae dealltwriaeth ymhlyg rhwng ysgolion ac UCD (yn ogystal â darparwyr allanol mewn rhai achosion) y byddai'n annhebygol iawn y byddai disgyblion blynyddoedd 10 ac 11 yn dychwelyd i ysgol prif ffrwd, os ydynt

yn cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar sail amser llawn. Nid oedd gan ddwy UCD unrhyw ddisgwyliad i ddysgwyr CA4 ddychwelyd i'r ysgol prif ffrwd, gan na fyddent yn elwa o wneud hynny, o ystyried y byddai'n aflonyddu ar eu haddysg.

8.19 Roedd sawl cynrychiolydd a gyfwelwyd o ALlau ac UCD yn cydnabod lle roedd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn effeithiol ar gyfer disgyblion CA4, nad oedd gweithio tuag at y nod o ailintegreiddio i'r ysgol o reidrwydd o fudd i'r disgybl. Gallai'r tarfu a allai ddigwydd yn sgil ailintegreiddio gael effaith negyddol ar gynnydd addysgol y disgybl, yn enwedig o ystyried materion ymarferol fel ysgolion ac UCD yn astudio gwahanol elfennau o'r cwricwlwm cenedlaethol. Dadleuwyd hefyd ei bod yn ofer ceisio ailintegreiddio disgybl yn ôl i addysg yn ystod CA4 os oedd wedi ymddieithrio o addysg ysgol.

8.20 Credwyd yn gyffredinol bod gan ddisgyblion sy'n cadw rhywfaint o gysylltiad â'u hysgol prif ffrwd, yn enwedig lle maent yn cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ran-amser ac yn derbyn peth o'u haddysg graidd yn yr ysgol, fwy o siawns o ailintegreiddio.

8.21 Roedd nifer fach o ALlau yn cydnabod bod eu dull presennol o ailintegreiddio disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn wan a bod angen ei wella. Yn benodol, roedd ALlau o'r farn y byddent yn elwa o bolisïau cliriach a mwy cyson ar gyfer ailintegreiddio disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Awgrymodd ALlau y gallai fod gan baneli atgyfeirio rôl bwysig wrth helpu i ailintegreiddio disgyblion yn ôl i ysgol prif ffrwd drwy adolygu'n rheolaidd ai darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol oedd y ddarpariaeth fwyaf addas o hyd ar gyfer y disgybl a rhoi arferion cyson ar waith i gefnogi disgybl i ddychwelyd ysgol prif ffrwd. Ymhellach, awgrymwyd y gallai staff ysgol elwa o gymorth ac uwchsgilio er mwyn paratoi'n well ar gyfer disgyblion sy'n dychwelyd i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, awgrymwyd y byddai staff ysgol yn elwa o sesiwn trosglwyddo disgyblion, a fyddai'n cynnwys cael adborth gan ddarparwr addysg heblaw yn yr ysgol ar yr hyn sy'n gweithio i'r disgybl dan sylw a chyfnod lle mae gweithiwr cymorth yn mynd gyda'r disgybl yn ôl i'r ysgol prif ffrwd drwy ddull graddol.

### Data ar ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

8.22 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond data cyfyngedig iawn sy'n cael eu casglu am bobl ifanc sy'n cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol[96]. Mae'r data'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol fel dynodwyr disgyblion, enw'r disgybl, rhyw, dyddiad geni, grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, grŵp blwyddyn y cwricwlwm cenedlaethol a chod post, ynghyd â gwybodaeth ynghylch a yw'r disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a oes ganddo anghenion addysgol arbennig, a yw'n cael gofal gan yr awdurdod lleol perthnasol a'r math o ddarpariaeth a fynychir. Mae UCD yn mabwysiadu gweithdrefnau casglu ac adrodd ar ddata tebyg fel sy'n ofynnol ar gyfer ysgolion prif ffrwd. Mae ysgolion yn casglu data ychwanegol ar gyfer disgyblion sy'n manteisio ar weithrediadau a ariennir gan ESF fel un o ofynion meini prawf cyllido'r UE.

8.23 Mae'r cyfrifoldeb am gasglu ac adrodd ar ddata ar gyfer pobl ifanc a leolir mewn darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol yn amrywio, gydag ysgolion ac ALlau, yn aml drwy'r UCD, yn cyflawni'r rôl hon mewn gwahanol ardaloedd yn dibynnu pwy sydd wedi comisiynu'r ddarpariaeth. Canfu'r gwaith maes achosion lle nad oedd ALlau yn ymwybodol o'r data a gasglwyd gan ysgolion am ddisgyblion sy'n cael darpariaeth allanol a gomisiynwyd gan ysgolion, gan na fyddent yn cael adroddiadau ar hyn.

8.24 Nid yw rhai ALlau yn gofyn i ysgolion am ddata ychwanegol mewn perthynas â disgyblion sy'n ymgymryd ag addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysg allanol nac yn coladu hyn yn ganolog mewn unrhyw ffordd. Yn un o'r achosion hyn, mae'r ALl yn cydnabod bod angen iddo fynd i'r afael â'r mater er mwyn gwella ei waith monitro ar ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

8.25 Mewn ALlau eraill, gofynnir am ddata ychwanegol i'r hyn a fyddai'n cael ei gofnodi ar gyfer CYBLD. Mae sawl ysgol, UCD ac ALl yn cael mynediad at ddata ar lefel disgyblion yn ystod cyfarfodydd monitro gyda darparwyr allanol a thrwy adroddiadau cynnydd (e.e. adroddiadau cynnydd bob

[96] Gweler Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Darpariaeth Amgen) (Cymru) 2009.

hanner tymor neu bob tymor). Mae'r rhain yn tueddu i gwmpasu'r cynnydd cyffredinol a wneir gan y disgybl. Mewn un ALI, mae system gwybodaeth reoli benodol wedi'i sefydlu i gasglu gwybodaeth am ddisgyblion ar ddarpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol. Cydnabuwyd bod hyn yn heriol i'w gynnal, yn anad dim oherwydd anawsterau o ran cael data gan ddarparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru fel ysgolion annibynnol.

8.26 Yn wir, nid oedd pob ALI yn fodlon ar ansawdd y data a gyflwynwyd iddynt gan ddarparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol. Dywedodd un ALI o'r fath nad oedd y data'n cael eu darparu ar y ffurf sy'n ofynnol nac mor aml ag sy'n ofynnol a'i fod wedi tynhau'r gofynion yn ddiweddar ynghylch ansawdd y data a gyflwynir gan ddarparwyr. Dywedodd ALI arall fod ansawdd y data gan ysgolion annibynnol yn wael ac awgrymodd fod lle i gynyddu'r galw am gofnodi gwell pe bai ALlau yn cyd-gomisiynu gwasanaethau ar sail bloc.

8.27 Defnyddir data ar lefel disgyblion yn bennaf i fonitro'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. Er enghraifft, nododd sawl UCD ei bod yn casglu data presenoldeb dyddiol ar gyfer disgyblion y mae wedi'u lleoli mewn darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol. Ar lefel ehangach, mae ALlau yn defnyddio data i fonitro deilliannau disgyblion, i lywio'r camau nesaf i'r disgybl, i asesu gwerth am arian ac i gyfrannu at gynllunio strategol ar gyfer y dyfodol.

8.28 Awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol i ALlau fabwysiadu asesiad mwy ffurfiol o'r sgiliau meddal a ddatblygwyd gan ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig er mwyn asesu a yw disgybl yn gwneud yn well mewn lleoliad addysg heblaw yn yr ysgol o'i gymharu ag ysgol prif ffrwd.

8.29 O ran arfer da canfyddedig:

- mae un UCD yn cynhyrchu portreadau ysgrifenedig o ddisgyblion unigol, gan nodi eu mannau cychwyn, eu nodau posibl a'r cynnydd hyd yma. Rhennir y portreadau hyn gyda disgyblion yn ogystal â chyda phwyllgor rheoli'r UCD ac fe'u nodwyd gan Estyn fel arfer da

- mae un ALI wedi datblygu system olrhain disgyblion i gasglu gwybodaeth fanylach am lesiant a chyrhaeddiad disgyblion tra maent yn cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

**Monitro ansawdd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

8.30 Datgelodd y gwaith maes wahaniaethau sylweddol yn y dulliau a'r ymdrech a ddefnyddir i fonitro a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir gan ALlau. Roedd sawl ALl o'r farn y gallai chwarae rhan fwy rhagweithiol yn y broses o fonitro'r ddarpariaeth, yn enwedig o ran monitro ansawdd y ddarpariaeth ac i ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr. Roeddent hefyd o'r farn y gallent elwa o strwythur cliriach i asesu ansawdd y ddarpariaeth.

8.31 Yn yr achosion hynny lle mae ALlau yn comisiynu darpariaeth gan ysgolion annibynnol sy'n darparu addysg arbennig, mae'r awdurdod yn dibynnu ar delerau'r contractau sydd ar waith ynghyd ag ymweliadau achlysurol â safleoedd y darparwyr.

8.32 Mae rhai ALlau yn adolygu'n ffurfiol y ddarpariaeth a gynigir gan ddarparwyr allanol bob blwyddyn, gan ystyried ffynonellau megis adroddiadau Estyn (lle bo hynny'n briodol) a pherfformiad yn erbyn gofynion y contract.

8.33 O ran arfer da, mae UCD yn mabwysiadu dull mwy ymarferol o fonitro eu disgyblion sy'n cael darpariaeth allanol e.e. mae llawer yn monitro presenoldeb yn ddyddiol ac yn cymryd camau ar unwaith i ymchwilio i absenoldeb: yn wir yn y rhan fwyaf o achosion mae disgwyl i ddarparwyr hysbysu'r UCD (yn ogystal â rhieni/gwarcheidwaid) os nad yw disgybl yn bresennol yn ôl y disgwyl. Tynnodd UCD sylw at y ffaith eu bod mewn sefyllfa dda i farnu ansawdd ac addasrwydd darpariaeth allanol oherwydd bod gweithiwr cymorth yn aml yn mynd gyda disgyblion sy'n cael darpariaeth allanol, gan gofnodi adborth ac adnabod problemau ar unwaith. Mae UCD hefyd yn cynnal cyfarfodydd tymhorol ffurfiol gyda darparwyr ac adolygiadau anffurfiol mwy rheolaidd, a nodir fel arfer mewn CLG.

**Ymweliadau â safleoedd darparwyr**

8.34 Lle mae ALlau yn comisiynu darpariaeth allanol, dywedwyd eu bod yn ymweld â safleoedd darparwyr, ond mae pa mor aml y maent yn gwneud hynny yn amrywio o ymweliadau blynyddol i ymweliadau tymhorol neu bob hanner tymor. Mae'r ymweliadau'n cael eu cynnal gan ystod o swyddogion gan gynnwys staff diogelu, rheolwyr addysg heblaw yn yr ysgol a'r gwasanaethau cymdeithasol. Nid yw rhai ALlau yn disgwyl i ysgolion ymweld â safleoedd darparwyr allanol os mai'r ALl fu'n gyfrifol am gomisiynu'r ddarpariaeth, ond mae llai o eglurder ynghylch polisi ALlau ar gyfer gwneud hynny mewn achosion lle roedd ysgolion wedi comisiynu'r ddarpariaeth eu hunain.

8.35 O ran arfer da, mae cydlynwyr prosiectau ALl ar gyfer prosiectau a ariennir gan ESF yn ymlwed â phob darparwr allanol bob tymor neu bob hanner tymor a chredwyd bod hyn yn gweithio'n dda o'u rhan nhw, gan ei fod yn lleihau unrhyw ymweliadau monitro dyblyg diangen o ystyried bod disgyblion o wahanol ysgolion yn cael eu lleoli gyda'r un darparwyr.

8.36 Adroddodd UCD eu bod yn ymweld ag adeiladau darparwyr yn rheolaidd i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion unigol. Yn aml, yr athro sy'n gyfrifol am yr UCD sy'n cyflawni'r rôl hon. Ategir yr ymweliadau hyn gan adborth gan weithwyr cymorth UCD, sy'n mynd gyda disgyblion i'w lleoliad allanol.

## 9. Canfyddiadau ychwanegol o gyfweliadau ag UCD

9.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r canfyddiadau allweddol ychwanegol o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr UCD. Yn gyntaf, mae'n rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth addysgol a ddarperir gan UCD a sut mae disgyblion yn cael eu cyfeirio at UCD, cyn archwilio rôl UCD yn narpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol.

9.2 Mae'n seiliedig ar ganfyddiadau o gyfweliadau a gynhaliwyd gyda staff mewn cyfanswm o 12 UCD, sef yr athro â gofal fel arfer, sy'n cwmpasu 13 o ardaloedd ALlau.

**Darpariaeth UCD**

9.3 Mae natur, proffil a darpariaeth addysgol a ddarperir gan UCD yn amrywio o un ALl i'r llall. Mae rhai UC yn cynnig darpariaeth i ddisgyblion ar draws CA2, CA3 a CA4 ac mae eraill yn canolbwyntio ar CA3 a CA4, neu dim ond CA2 a CA4.

9.4 Mae rhai UCD yn cynnig addysg amser llawn i ddisgyblion, ond mewn rhai achosion mae addysg amser llawn wedi'i chyfyngu i ddisgyblion CA4. Mewn achosion eraill, mae darpariaeth ran-amser ar gael i ddisgyblion, gan gynnwys lle mae disgyblion yn cael eu haddysg sy'n weddill yn yr ysgol.

9.5 Mae hyd lleoliad disgybl yn yr UCD yn amrywio. Mae rhai yn cynnig gwasanaeth 'trawsnewid' sy'n golygu lleoli disgyblion yn yr UCD am gyfnodau o chwe wythnos ac, mewn rhai achosion, cyfnod dilynol o chwe wythnos lle mae disgyblion yn rhannu eu hamser rhwng yr UCD a'r ysgol. Mae eraill yn cynnig lleoliadau tymor hwy, heb unrhyw gyfyngiadau penodol.

9.6 Mae'r rhan fwyaf o UCD yn gweithredu o fwy nag un safle o fewn ardal ALl fel rhan o bortffolio UCD sengl, ond mewn un ohonynt, roedd newidiadau ar y gweill i gydgrynhoi'r ddarpariaeth ar un safle. Mae UCD amlsafle yn gallu derbyn disgyblion â gwahanol anghenion a/neu o wahanol oedrannau e.e. mewn un ALl mae'r UCD wedi'i rhannu ar draws safleoedd sy'n darparu ar gyfer disgyblion â phroblemau Cymdeithasol, Emosiynol ac Iechyd Meddwl

ac un arall ar gyfer disgyblion ag anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol.

**Atgyfeirio disgyblion i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

9.7 Cadarnhaodd y gwaith maes gydag UCD yr arferion atgyfeirio a nodwyd gan y rhai a gyfwelwyd o ALlau yn yr ystyr mai ysgolion sy'n adnabod disgyblion y mae angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol arnynt, ac yn aml cyfeiriwyd at baneli atgyfeirio fel cyfrwng ar gyfer penderfynu a ddylid lleoli disgybl mewn UCD ai peidio. Yn aml, bydd yr athro sy'n gyfrifol am UCD yn cael ei gynrychioli ar y panel atgyfeirio. Ni nodwyd unrhyw enghreifftiau o atgyfeiriadau uniongyrchol o ysgolion i UCD, ond nododd un UCD er y gallai gael ceisiadau uniongyrchol gan ysgolion, bod y rhain yn cael eu cyfeirio'n ôl at y panel atgyfeirio er mwyn sicrhau lleoliad.

9.8 Nodwyd yn aml yr ymgynghorir â rhieni a bod yn rhaid iddynt roi caniatâd er mwyn i'w plentyn gael ei atgyfeirio gan yr ysgol i'r UCD drwy baneli atgyfeirio. Tynnodd sawl cynrychiolydd UCD sylw hefyd at bwysigrwydd ymateb graddedig o fewn yr ysgol cyn atgyfeirio disgybl at y panel addysg heblaw yn yr ysgol (neu banel cyfatebol) ac roeddent yn ymwybodol, mewn rhai ardaloedd, o ddiffyg trothwy atgyfeirio i ysgolion gydymffurfio ag ef. Mewn un achos, gosodwyd y trothwy hwn ar lefel uchel yn ddiweddar: gan fod y galw am leoedd yn y cyfleuster UCD ar gyfer Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn uchel, hysbyswyd ysgolion i beidio ag atgyfeirio disgyblion sydd wedi ymddieithrio neu sydd â ffobia am yr ysgol, ond nad oeddent wedi'u gwahardd yn barhaol, at y panel atgyfeirio i'w hystyried. Yn yr achos hwn, roedd y galw am leoliadau ar gyfer Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol wedi treblu dros y flwyddyn flaenorol ac o'r herwydd, dim ond disgyblion sydd wedi'u gwahardd o ysgolion prif ffrwd y gall yr UCD eu derbyn. Yn yr ALl hwn, disgwylir i ysgolion ddelio â'r materion sy'n wynebu disgyblion eraill yn uniongyrchol, drwy gomisiynu darpariaeth allanol bwrpasol fel sy'n briodol, gan nad yw'r ALl yn comisiynu unrhyw ddarpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol ei hun.

9.9 Yn gyffredinol, roedd UCD o'r farn bod anghenion a deilliannau addysgol y disgybl a atgyfeiriwyd yn ganolog i'r broses adnabod ac atgyfeirio, er bod i ba raddau y mae'r anghenion manwl yn cael eu cyfleu i'r UCD yn amrywio. Nododd sawl un y byddai gwybodaeth am ddisgybl yn cael ei nodi yn y ffurflen atgyfeirio ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol ac y byddai hyn fel rheol yn cynnwys gwybodaeth a llwyddiant cymharol y dulliau y rhoddodd ysgolion gynnig arnynt er mwyn ceisio diwallu anghenion disgyblion.

9.10 Roedd rhai UCD yn credu bod y data a'r wybodaeth a ddarperir i ddisgyblion sy'n cael eu hatgyfeirio atynt yn anghyson ac, o'r herwydd, mae UCD yn aml yn cynnal eu hasesiad eu hunain er mwyn adnabod anghenion disgyblion a chanfod eu llinell sylfaen. Derbyniwyd, fodd bynnag, y gallai fod yn heriol i ysgolion ddarparu dadansoddiad trylwyr o anghenion disgyblion oherwydd gallai presenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn aml fod yn anghyson yn y cyfnod cyn eu hatgyfeirio.

9.11 Mae UCD yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i asesu anghenion disgyblion gan gynnwys y Proffil Asesu Bregusrwydd, offeryn GL Assessment[97], Technegau Asesu yn yr Ystafell Ddosbarth, sgrinio ar gyfer dyslecsia, Boxal Profile[98] a'r dull Thrive[99]. Defnyddir yr asesiadau hyn, ynghyd â mewnbynnau gan weithwyr proffesiynol eraill megis seicolegwyr addysg, i ddatblygu cynlluniau datblygu unigol ar gyfer disgyblion. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r canlyniadau addysgol a ddisgwylir ar gyfer pob disgybl. Dywedodd un UCD ei bod yn cwrdd â disgyblion, rhieni a chynrychiolwyr ysgolion yn yr ysgol gartref i drafod diddordebau ac anghenion disgyblion fel rhan o'r broses hon.

**Rôl yr UCD o ran comisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol**

9.12 Canfu'r gwaith maes, o blith y 12 UCD a gyfwelwyd, fod pump yn comisiynu ac yn ariannu eu darpariaeth allanol eu hunain. Mewn rhai achosion, roedd yn anodd i gyfweleion wahanu'r rolau a gyflawnwyd gan yr ALl a'r UCD o ran comisiynu darpariaeth, yn anad dim gan fod gan rai staff rôl ddeuol h.y.

[97] Gweler GL Assessment.
[98] Gweler Boxall Profile.
[99] Gweler Thrive.

pennaeth darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yr ALI a'r athro â gofal yn yr UCD.

9.13 Mewn un achos, mae'r UCD yn comisiynu darpariaeth allanol gan ddefnyddio darparwyr a ddewiswyd drwy fframwaith tendro addysg heblaw yn yr ysgol yr ALI. Mewn un arall, mae'r UCD yn comisiynu darpariaeth gan ddarparwyr a ddefnyddir gan yr ALI, lle mae darparwyr wedi'u defnyddio'n hanesyddol ac, felly, yn hysbys i'r UCD a'r ALI. Mewn un arall, mae'r UCD wedi defnyddio gwybodaeth leol i lunio cyfeirlyfr o 14 o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol sy'n weithredol yn y sir. Yn yr achos hwn, adroddwyd bod yr UCD wedi cynnal adolygiadau i sicrhau ansawdd darparwyr i wirio bod ganddynt bolisïau priodol ar waith. Mae'r adolygiadau hyn yn ystyried a yw darparwyr wedi'u cofrestru fel ysgolion annibynnol (os oes angen) gyda Llywodraeth Cymru, y trefniadau diogelu a dull darparwyr o weithio gyda disgyblion ifanc a chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r rhestr o ddarparwyr hefyd wedi'i rhannu ag ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth.

9.14 Yn yr ardaloedd sy'n weddill, mae'r trefniadau comisiynu yn fwy anffurfiol eu natur gyda gwaith rheoli ansawdd yn cael ei wneud yn barhaus, yn hytrach na chael ei wneud ymlaen llaw. Er enghraifft, mae un UCD, yn absenoldeb fframwaith comisiynu ALI, yn defnyddio darparwyr blaenorol sydd wedi cyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel neu rai y maent wedi dod i glywed amdanynt ar dafod leferydd. Yn yr achosion hyn, mae'r UCD yn cynnal ei gwiriadau rheoli ansawdd ei hun.

9.15 Ni ddaeth y gwaith maes o hyd i unrhyw enghraifft o unrhyw UCD yn hysbysebu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn agored (ac eithrio un achos, lle roedd yr ALI wedi gwneud hyn) nac yn gwneud trefniadau i ddatblygu fframweithiau comisiynu ar sail fwy ffurfiol.

9.16 Mewn sawl achos, lle mae UCD yn nodi'r angen am ddarpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol (gan dderbyn y bydd hyn wedi cael ei ystyried fel rhan o'r atgyfeiriad mewn sawl achos), mae'r UCD yn comisiynu'r lleoliad heb i hyn gael ei gyfeirio'n ôl at y panel atgyfeirio i'w gymeradwyo. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, yn enwedig lle mae UCD yn gweithio

gyda disgyblion yn y tymor hir lle nad ydynt yn comisiynu darpariaeth eu hunain, cyfeirir disgyblion yn ôl at y panel atgyfeirio i ailasesu eu hangen am ddarpariaeth allanol ychwanegol.

9.17 Ymysg prif fanteision UCD yn comisiynu darpariaeth allanol yn uniongyrchol mae'r gallu i ddod o hyd i leoliad yn gyflym a darparu mynediad at brofiadau galwedigaethol i ddisgyblion na all UCD eu darparu, oherwydd diffyg cyfleusterau priodol. Un anfantais yw'r gwaith a'r cyfrifoldeb ychwanegol i'r UCD yn sgil goruchwylio sicrwydd ansawdd. Anfantais arall yw bod rhai disgyblion (yn enwedig y rhai â phroblemau emosiynol) yn ei chael hi'n anodd ymdopi yn y lleoliadau hyn. Anfantais arall yw bod ysgolion yn anfon disgyblion at yr un darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol ag UCD, sy'n golygu bod plant sydd wedi cael problemau gyda'i gilydd yn y gorffennol yn mynychu'r un ddarpariaeth allanol.

9.18 Nid yw chwe UCD a gyfwelwyd yn comisiynu unrhyw ddarpariaeth allanol yn uniongyrchol[100], ond mae disgyblion sy'n mynychu'r UCD yn rhai o'r ardaloedd ALlau hyn yn cael darpariaeth allanol wedi'i chomisiynu gan yr ALl, a fyddai'n cynnwys darpariaeth ysgol arbennig a darpariaeth alwedigaethol gan SAB, neu ddarpariaeth drwy weithrediadau ESF gan fod disgyblion yn parhau i fod wedi'u cofrestru gyda'r ysgol. Mewn rhai achosion, mae disgyblion sy'n cyrraedd yr UCD eisoes yn cael darpariaeth a ariennir yn allanol gan ESF ac fel rheol mae hyn yn parhau ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio.

9.19 Dywedodd yr UCD olaf nad yw disgyblion yn manteisio ar ddarpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol gan nad yw'r ddarpariaeth wedi'i chomisiynu. Yn hytrach, mae tiwtoriaid allanol, naill ai o'r prosiect Cynnydd neu drwy ddarpariaeth arall, yn cyflwyno cyrsiau o fewn yr amserlen arferol ar y safle. Yn yr achos hwn, mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth a gynigir gan ddarparwyr allanol yn cael eu monitro trwy arferion mewnol yr UCD.

[100] Fodd bynnag, mae adborth gan ddarparwyr allanol yn gwrth-ddweud y canfyddiad hwn.

### Mynediad at ddarpariaeth allanol o fewn UCD

9.20 Mae'n weddol gyffredin i ddisgyblion UCD gael mynediad at gymysgedd o ddarpariaeth sy'n cael ei harwain gan UCD a darpariaeth allanol, er bod y graddau y maent yn gwneud hynny yn amrywio o un ardal i'r llall. Nododd un UCD fod tua 40 o'i ddisgyblion yn cael darpariaeth alwedigaethol addysg heblaw yn yr ysgol oddi ar y safle, mewn uned arall nodwyd bod darpariaeth allanol ond yn cael ei defnyddio ar sail eithriadol yn hytrach nag ar sail reolaidd ac mewn uned arall dim ond i ddisgyblion a chanddynt Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol y mae ar gael.

9.21 Mae disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol mewn UCD yn cael mwy o ddarpariaeth allanol na disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, ar y sail bod profiad UCD yn dangos bod addysg academaidd yn fwy addas ar gyfer disgyblion a chanddynt anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. Adroddwyd hefyd bod mwyafrif y disgyblion sy'n cael darpariaeth allanol yn ddisgyblion oedran uwchradd. Dim ond un eithriad a adroddwyd, sef disgyblion CA2 mewn un sir yn cael therapi ceffylau.

9.22 Mae disgyblion UCD yn cael darpariaeth allanol yn bennaf sy'n alwedigaethol ei natur, gan gynnwys darpariaeth a ddarperir gan SAB a gwasanaethau ieuenctid ALl. Cyfeiriwyd at un enghraifft o UCD a oedd wedi comisiynu darparwr cyrsiau gwallt a harddwch i gyflwyno darpariaeth yn ei sefydliad.

9.23 Nododd dau gynrychiolydd UCD fod darpariaeth a ddarperir gan SAB yn aml yn anaddas i'w ddisgyblion yn yr ystyr ei bod 'gam yn rhy bell' iddynt. Dadleuwyd nad yw SAB mewn sefyllfa i gynnig amgylchedd dysgu addas i ddisgyblion UCD, gan nad ydynt yn gallu darparu'r gefnogaeth fugeiliol ychwanegol sydd ei hangen ar ddisgyblion.

9.24 Mae natur y ddarpariaeth y mae disgyblion UCD yn ei chael yn cynnwys mecaneg beiciau modur, gwallt a harddwch, therapi ceffylau, gofal anifeiliaid, mecaneg, weldio a pharatoi ar gyfer y fyddin. Mae disgyblion UCD fel arfer yn cael darpariaeth allanol ran-amser sy'n amrywio o hanner diwrnod i ddau ddiwrnod yr wythnos.

9.25 Mae UCD yn mabwysiadu dull pwrpasol o roi darpariaeth allanol ar waith ar gyfer eu disgyblion. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda disgyblion i gasglu eu syniadau a'u diddordebau a chynnig sesiynau blasu gyda darparwyr allanol. Dadleuwyd na fydd 'gwneud mwy o Saesneg gyda nhw yn gweithio' a bod darpariaeth allanol yn cynnig dull newydd ar gyfer ailennyn diddordeb pobl ifanc a chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae darpariaeth allanol yn cael ei hystyried yn ffordd werthfawr o ymgysylltu, ailgyfeirio a datblygu pobl ifanc a fyddai fel arall yn gadael yr ysgol heb unrhyw ddeilliannau na sgiliau. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o dystiolaeth gan UCD bod argaeledd darpariaeth allanol wedi lleihau'n ddiweddar a'i bod yn dod yn fwyfwy anodd creu rhaglenni dysgu pwrpasol i ddisgyblion.

**Monitro darpariaeth allanol**

9.26 Mae gan UCD rôl ymarferol iawn o ran monitro darpariaeth a gomisiynir yn allanol ar gyfer eu disgyblion, boed y ddarpariaeth honno yn cael ei threfnu ganddynt hwy eu hunain neu gan yr ALl. Mae hyn yn cynnwys monitro presenoldeb dyddiol a mynd ar drywydd disgyblion absennol. Mewn rhai achosion lle mae'r ALl wedi comisiynu darpariaeth, mae'r UCD yn cymryd cyfrifoldeb am fonitro'r ddarpariaeth y mae ei disgyblion yn ei chyrchu. Ategir hyn gan y ffaith bod disgyblion yn cael eu cefnogi ar leoliad gan weithiwr cymorth UCD.

9.27 Adroddodd UCD eu bod yn cynnal cyfarfodydd adolygu hanner tymor rheolaidd gyda darparwyr allanol i drafod achosion disgyblion unigol yn ogystal â materion ehangach.

9.28 Darparwyd ambell enghraifft lle mae UCD a darparwyr allanol yn defnyddio CLG. Mewn un achos mae'r CLG yn ymdrin â materion megis gofynion diogelu, AAA, asesu risg ac adrodd ar ofynion ynghylch llythrennedd a phresenoldeb. Nodir isod enghraifft arall o CLG rhwng UCD a darparwr allanol.

Mae'r cymalau sydd wedi'u cynnwys mewn un cytundeb o'r fath rhwng UCD a darparwr allanol yn cwmpasu:

- y rhwymedigaeth i 'gynnig rhaglen ddysgu strwythuredig i bobl ifanc a chyfle i sicrhau deilliant achrededig neu gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol'
- y gofyniad i gadw at weithdrefnau diogelu a diogelu data'r ALI
- datblygu ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac agenda Prevent[101]
- dogfennau i'w cadw e.e.:
    - Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
    - yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
    - asesiadau risg
    - trefniadau iechyd a diogelwch/cymorth cyntaf/cofnodi damweiniau
    - amlinelliad o gyrsiau/darpariaeth
    - deilliannau dysgu
    - cyrff achredu
    - cofnodion presenoldeb
    - adroddiadau ar leoliadau
    - trafnidiaeth
- oriau gwasanaeth
- polisïau sy'n ymwneud â lles, diogelwch a diogelu
- polisïau sy'n ymwneud â monitro presenoldeb disgyblion, profiad dysgu a chynnydd
- trefniadau prisio
- trefniadau/polisïau rheoli risg
- datrys anghydfod

Nid yw'r CLG yn nodi'n fanwl y mathau o wasanaethau i'w darparu neu'r gweithgareddau y bydd disgyblion yn eu cyflawni, ond mae lle i ychwanegu rhywfaint o fanylion am y sefydliad contractio a'i wasanaethau at y ddogfen.

[101] Strategaeth y DU yw'r Agenda Prevent sy'n ceisio atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

## 10. Darpariaeth allanol wedi'i hariannu gan ysgolion

10.1 Mae'r bennod hon yn ystyried i ba raddau y mae ysgolion yn comisiynu darpariaeth allanol. Mae'n ymchwilio i bolisïau a dulliau gweithredu ALlau mewn perthynas â'r arfer o ysgolion yn comisiynu darpariaeth ac mae'n seiliedig yn benodol ar yr adborth a gasglwyd gan 12 cynrychiolydd ysgol.

**Proffil o'r ysgolion a gyfwelwyd**

10.2 Mae'r 12 ysgol a gyfrannodd at yr ymchwil wedi'u lleoli ar draws 10 ardal ALl. At ei gilydd, mae 11 yn ysgolion uwchradd ac mae un yn ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion 3-16 oed, sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi mewn addysg brif ffrwd. Er ei bod yn ysgol arbennig ddynodedig, mae'r lleoliad yn gweithredu mewn modd tebyg i UCD.

**Darpariaeth allanol wedi'i chomisiynu gan ysgolion**

10.3 O'r 12 ysgol, dywedodd naw eu bod yn comisiynu darpariaeth allanol yn uniongyrchol. Mewn un o'r achosion hyn, canfu'r ysgol ei bod mewn sefyllfa ble roedd yn ariannu darpariaeth dysgu yn y cartref ar gyfer disgyblion 'ar ddamwain' gan ei bod yn wreiddiol o dan yr argraff y byddai'r ALl yn ariannu'r ddarpariaeth. Roedd ysgolion wedi ceisio diwallu anghenion disgyblion yn yr ysgol cyn eu hatgyfeirio at ddarpariaeth allanol.

10.4 Mae un ysgol ond yn ymwneud â darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir gan yr ALl ac nid yw'r ddwy ysgol arall (y ddwy yn yr un sir) yn ymwneud ag unrhyw ddarpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir - yr unig ddarpariaeth allanol y mae'r disgyblion hyn yn ei chael yw drwy'r fframwaith 14-19, darpariaeth UCD a gweithrediad a ariennir gan ESF.

10.5 Yn un o'r achosion, lle mae'r ysgol yn comisiynu darpariaeth allanol, mabwysiadir dull cydweithredol ar draws pedair ysgol.

> Mae dull cydweithredol rhwng pedair ysgol uwchradd o ddwy ardal ALl ar waith i gefnogi nifer fach o ddisgyblion blwyddyn 11 o bob lleoliad (pedwar o bob un) yn llawn amser. Mae tair o'r ysgolion yn cymryd cyfrifoldeb am ddarpariaeth alwedigaethol fel gwallt a harddwch ac adeiladu dros dri diwrnod yr wythnos, tra bod darparwr allanol wedi'i gontractio i gyflwyno darpariaeth academaidd am y ddau ddiwrnod sy'n

weddill, gan gynnwys darpariaeth TGAU Mathemateg a Saesneg. Mae disgyblion yn cael mynediad i'r ddarpariaeth alwedigaethol a ddarperir gan yr ysgol yn yr ysgol 'letya' berthnasol tra bod y ddarpariaeth academaidd yn cael ei chyflwyno mewn lleoliad annibynnol. Rhoddir gwisg newydd, wahanol i'r disgyblion, y mae eu hysgol yn talu amdani. Cesglir disgyblion mewn bws mini o'u hysgol gartref yn ddyddiol. Mae disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael pecyn bwyd o'u hysgol gartref ac mae pob disgybl yn cael brecwast am ddim pan fydd yn cyrraedd y ddarpariaeth.

Caiff disgyblion eu hatgyfeirio i'r ddarpariaeth hon gan ysgolion drwy baneli atgyfeirio'r ALI ar y sail yr ystyrir bod darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a ariennir gan yr ALI, megis darpariaeth UCD, yn anaddas iddynt. Mae'r disgyblion sydd fwyaf tebygol o elwa o'r ddarpariaeth yn ddisgyblion sy'n agored i niwed nad ydynt yn gallu parhau â'u lleoliad prif ffrwd oherwydd problemau iechyd meddwl, problemau cymdeithasol ac emosiynol neu amgylchiadau teuluol yn hytrach na phroblemau ymddygiad. Ystyrir bod y ddarpariaeth yn effeithiol o ran cynnal cysylltiadau disgyblion â'u hysgolion cartref gan ei bod yn caniatáu i ddisgyblion barhau i gael gafael ar gymorth bugeiliol gan ysgolion. Mae hefyd yn cael ei ystyried yn ddatrysiad cost-effeithiol, ar gost o £4,000 y flwyddyn fesul disgybl (sy'n cynnwys costau addysgu allanol a chostau addysgu'r ysgol). Ar y sail bod ALlau wedi caniatáu i ysgolion wneud cofrestriad dwbl ar gyfer disgyblion yn eu UCD at ddibenion adroddiadau CYBLD (o gofio mai'r UCD yw'r prif leoliad a'r ysgol yw'r lleoliad atodol) nid yw'r deilliannau felly'n cael effaith negyddol ar ddata CA4 ysgolion.

10.6 Mae darpariaeth allanol a gomisiynir gan ysgolion fel arfer yn cael ei hariannu o gyllidebau ysgolion, ond nid oes unrhyw ysgol yn gosod cyllideb benodol ar gyfer y ddarpariaeth hon.

10.7 Mae natur y ddarpariaeth allanol a gomisiynir gan ysgolion yn amrywio ac yn cynnwys darpariaeth alwedigaethol e.e. paratoi ar gyfer y fyddin, darpariaeth BTEC yn y coleg, yn ogystal ag addysg arbenigol i ddisgyblion yn y cartref neu mewn canolfannau. Mae nifer y disgyblion ym mhob ysgol a gyfwelwyd sy'n cael darpariaeth a gomisiynwyd yn uniongyrchol yn amrywio o isafswm o un neu ddau, i 30 o ddisgyblion yr un mewn dwy ysgol. Nodwyd yn gyffredin bod disgyblion yn cael darpariaeth allanol am hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos, heblaw am ddarpariaeth dysgu yn y cartref sy'n cyfateb i oddeutu bum awr yr wythnos.

10.8 Mewn rhai achosion, comisiynir darpariaeth allanol i ategu darpariaeth ysgol ychwanegol ar y safle neu oddi ar y safle sydd ar gael i ddisgyblion er mwyn darparu pecyn cyfannol o ymyriadau. Er enghraifft, mewn un ysgol, gall yr un garfan o ddisgyblion astudio pynciau academaidd mewn canolfan oddi ar y safle dan arweiniad yr ysgol yn ogystal â chyrsiau a gyflwynir gan ddarparwyr allanol. Mewn ysgol arall, mae disgyblion yn cael darpariaeth allanol yn ogystal â chymorth gan ganolfan anghenion ychwanegol wedi'i lleoli yn yr ysgol.

10.9 Mae ysgolion yn comisiynu darpariaeth allanol am nifer o resymau. Mewn dau achos, mae'r ALI yn dirprwyo cyllid i ysgolion i gomisiynu darpariaeth allanol yn uniongyrchol yn hytrach na gwneud hynny'n ganolog. Mewn achosion eraill, barnwyd bod darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a ariennir gan yr ALI yn annigonol i ddiwallu'r galw gan ddisgyblion a nododd eraill nad oedd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a ariennir gan yr ALI yn diwallu anghenion rhai disgyblion, yn enwedig lle mae wedi'i chyfyngu'n bennaf i ddarpariaeth UCD. Mae rhai ysgolion hefyd yn comisiynu darpariaeth i'r disgyblion hynny sy'n anghymwys i gael cymorth drwy weithrediadau a ariennir gan ESF (yn aml oherwydd presenoldeb isel) ond y gallent elwa o ymyrraeth o'r fath.

10.10 Nododd ysgolion mai prif fantais comisiynu darpariaeth allanol yn uniongyrchol yw er mwyn cynnig mwy o amrywiaeth a darpariaeth sy'n fwy addas i ddisgyblion sy'n ei chael hi'n anodd parhau â chwricwlwm traddodiadol. Mae'r prif anfanteision yn ymwneud â'r heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd a monitro darpariaeth allanol; yn ogystal â chost y ddarpariaeth. (Mae darpariaeth dysgu yn y cartref, er enghraifft, yn ddrud.) Mae ysgolion hefyd yn poeni am orfod talu am leoliadau na chânt eu defnyddio oherwydd absenoldeb.

10.11 Adroddodd ysgolion fod penaethiaid a/neu swyddogion cynhwysiant fel arfer yn cymryd cyfrifoldeb am adnabod disgyblion y gall fod angen darpariaeth allanol arnynt. Adroddwyd yn gyffredin hefyd bod disgyblion a rhieni/gofalwyr yn cyfrannu'n helaeth at y drafodaeth ynghylch dewis y llwybr mwyaf priodol i'r disgybl a chytuno ar hynny. Nid yw'r mwyafrif o ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol yn cynnwys yr ALI

(na'r panel atgyfeirio) yn y broses. Pwysleisiodd ysgolion fod y ddarpariaeth a gomisiynir ganddynt hwy eu hunain wedi'i theilwra'n sylweddol i ddiwallu anghenion y disgyblion.

10.12 Mae dull ysgolion o gomisiynu darpariaeth gan ddarparwyr allanol yn anffurfiol ar y cyfan, yn yr ystyr bod dibyniaeth fawr ar wybodaeth a drosglwyddir ar dafod leferydd a defnyddio darparwyr a chanddynt enw da y mae ysgolion yn ymddiried ynddynt ac wedi eu defnyddio o'r blaen. Dywedodd sawl ysgol ei bod yn cynnal gwiriadau sylfaenol o ddarparwyr o'r cychwyn ac roedd gan ambell un brosesau mwy trylwyr, a oedd yn cynnwys defnyddio rhestr wirio i asesu polisïau ac arferion darparwyr. Roedd yr ysgolion yn aml yn dweud hefyd bod trefniadau ar gyfer lleoliadau disgyblion yn cael eu gwneud ar lafar neu drwy e-bost ac yn hyn o beth, roedd ysgolion yn cydnabod yn eang y gellid gwella eu prosesau comisiynu.

10.13 Mae pedair ysgol (ar draws tair ardal ALI) yn defnyddio darparwyr allanol sydd ar restr darparwyr cymeradwy'r ALI. Yn yr achosion hyn, roedd yr ALI wedi cynnal asesiadau i sicrhau ansawdd darparwyr cyn iddynt gael eu cynnwys ar y rhestr gymeradwy.

10.14 Mae'r defnydd o gontractau neu CLG rhwng ysgolion a darparwyr allanol yn gyfyngedig. Dywedodd pedair ysgol fod ganddynt gontract generig ar waith gyda'r darparwr yn amlinellu'r trefniadau cyffredinol a gofynion adrodd ac roedd gan dair ysgol gytundebau unigol ar waith ar gyfer pob disgybl ar ddechrau eu lleoliad gyda darparwr allanol.

10.15 Ar ôl eu penodi, mae ysgolion yn disgwyl derbyn adroddiadau bob hanner tymor neu bob tymor gan ddarparwyr. Nododd ysgolion hefyd eu bod yn derbyn adroddiadau ar ddiwedd lleoliad ar gyfer pob disgybl. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymweld ag adeiladau darparwyr yn rheolaidd (bob hanner tymor neu bob tymor) i wirio cynnydd disgyblion ac i gwrdd â staff darparwyr er mwyn adolygu'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae ysgolion yn tueddu i beidio â defnyddio unrhyw weithdrefnau monitro ffurfiol (e.e. rhestrau gwirio) i fonitro darpariaeth neu adolygu cynnydd.

10.16 Mae disgyblion sy'n cael eu lleoli gyda darparwyr allanol drwy ddarpariaeth a gomisiynir gan ysgolion fel arfer yn aros ar gofrestrau ysgolion. Mae'r disgyblion hyn hefyd wedi'u cofrestru gyda'r darparwr allanol, lle mae'r darparwr wedi'i gofrestru fel ysgol annibynnol gyda Llywodraeth Cymru. Mae adborth gan ysgolion a gyfwelwyd yn awgrymu bod diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch sut y dylai'r ysgol godio presenoldeb disgyblion sy'n cael darpariaeth allanol. Hynny yw, mewn achosion lle mae gan ddisgybl gofrestriad deuol, mae ysgolion yn ansicr a ddylent fod yn 'brif' leoliad addysg neu'n lleoliad addysg 'atodol'. Byddai ysgolion yn croesawu mwy o eglurder ynghylch cofrestru disgyblion a sut i godio presenoldeb disgyblion sy'n cael darpariaeth allanol.

**Polisi ALlau ar ysgolion yn comisiynu darpariaeth allanol**

10.17 Roedd mwyafrif yr ALlau yn ymwybodol o ysgolion yn eu hardal a oedd yn comisiynu darpariaeth addysg allanol, ond mewn sawl un o'r achosion hyn roedd y ddarpariaeth yn deillio o weithrediadau ESF megis Cynnydd a TRAC. Roedd pum ALl yn hyderus nad oedd eu hysgolion yn comisiynu darpariaeth gan ddarparwyr allanol, ond mewn dau o'r achosion hyn roedd adborth gan ddarparwyr allanol yn awgrymu bod ysgolion, mewn gwirionedd, yn eu comisiynu i ddarparu darpariaeth o'r fath. Mewn un achos, nododd darparwr allanol iddo gael ei gomisiynu gan bedair ysgol o'r un ardal ALl i ddarparu cyrsiau galwedigaethol. Yn y llall, roedd y ddarpariaeth yn drefniant untro ar gyfer llond llaw o ddisgyblion blwyddyn 11 mewn un ysgol. Mewn un ardal ALl, lle roedd yr ALl yn ansicr a oedd ysgolion yn comisiynu darpariaeth, roedd adborth gan ddarparwr allanol yn awgrymu bod ysgolion yn 'manteisio'n answyddogol' ar fframwaith ESF ac yn cysylltu â darparwyr yn uniongyrchol i gomisiynu darpariaeth i ddisgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer y prosiect.

10.18 Dim ond un ALl sydd â pholisi ysgrifenedig ar ysgolion yn comisiynu darpariaeth gan ddarparwyr allanol. Mae gan yr ALl hwn femorandwm cyd-ddealltwriaeth y gall ysgolion ei fabwysiadu. Yn yr achos hwn, pe bai grŵp o ysgolion yn dymuno comisiynu darpariaeth ar y cyd, disgwylir iddynt fabwysiadu dull caffael yr ALl. Mae ALl arall yn disgwyl i ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth addysg allanol ddefnyddio rhestr yr ALl o ddarparwyr

cymeradwy. Yn yr awdurdod hwn, mae comisiynu darpariaeth gan ysgolion yn cael ei oruchwylio a'i fonitro gan anogwyr dysgu, sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio offer sicrhau ansawdd yr ALl a datblygu Cynlluniau Dysgu Unigol ar gyfer disgyblion. Caiff yr anogwyr dysgu eu cydlynu gan gydlynydd NEET yr awdurdod ac mae hyn yn darparu dull o gael adborth er mwyn clywed am unrhyw broblemau gyda darparwyr.

10.19 Nid yw pedwar ALl yn cytuno â'r arfer o ysgolion yn comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol gan ddarparwyr allanol ac mae rhai o'r rhain yn gofyn am sicrwydd gan ysgolion eu bod yn cadw at y polisi hwn.

10.20 Roedd y sefyllfa'n aneglur ar draws yr ALlau sy'n weddill oherwydd nad oeddent yn gwybod beth oedd y sefyllfa, neu bod gwahanol aelodau o staff wedi mynegi safbwyntiau a oedd yn groes i'w gilydd. Efallai fod y diffyg eglurder yn deillio o ansicrwydd ynghylch a yw'r ddarpariaeth a gomisiynir gan ysgolion yn gyfystyr ag addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth allanol a drefnir fel rhan o drefniadau gweithredu a ariennir gan yr ESF neu a drefnir yn annibynnol gan yr ysgol.

10.21 Roedd sawl ALl a gyfwelwyd o'r farn mai ychydig iawn o gomisiynu uniongyrchol a wnaed yn ymarferol, o ystyried bod gan ysgolion fynediad at ddarpariaeth allanol fel rhan o weithrediadau a ariennir gan ESF ,megis Cynnydd, Ysbrydoli i Gyflawni a TRAC, sy'n cynnig darpariaeth debyg i addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth allanol, ac yn gallu cefnogi nifer cymharol fawr o fyfyrwyr ym mhob ysgol. Cwestiynodd un cynrychiolydd ALl a gyfwelwyd 'pam y bydden nhw'n gwneud hynny, oherwydd mae Cynnydd yn talu amdano?'

10.22 Dywedodd llawer o ALlau mai ychydig iawn o arian oedd gan ysgolion i gomisiynu darpariaeth allanol yn uniongyrchol a bod lleoliadau sy'n cael eu comisiynu gan un neu ddwy ysgol yn eithriadol o fach o ran nifer ac wedi'u cyfyngu i ddarpariaethau arbenigol megis hyfforddiant paratoi ar gyfer y fyddin, er enghraifft. Yn wir, roedd barn eithaf cyson o du'r ALlau, UCD ac ysgolion y byddai ysgolion ond yn dewis comisiynu darpariaeth fel dewis olaf, lle nad oedd opsiynau i dderbyn darpariaeth a ariennir ac a drefnir gan yr ALl ar gael (neu lle roeddent yn llawn).

10.23 Nid yw rhai ALlau yn ymwneud â chomisiynu na monitro lleoliadau a gomisiynir gan ysgolion ac roeddent o'r farn bod ysgolion mewn sefyllfa dda i nodi a chefnogi anghenion y disgyblion hynny sydd wedi'u lleoli gyda darparwyr allanol eu hunain. Mae eraill yn ymwneud â chomisiynu mewn amrywiol ffyrdd. Er enghraifft:

- mae un ALl yn cynnig cyngor ar gomisiynu a thendro ar gyfer comisiynau a arweinir gan ysgolion, os bydd yr ysgol yn gofyn am hynny
- roedd un arall yn cyfrannu, fel rhan o grŵp gweithredol, at sefydlu rhaglen Prentisiaethau Iau yr oedd ysgolion uwchradd o fewn ei ardal yn ei chomisiynu ar y cyd gan SAB. Mae'r ALl hwn hefyd yn cyfrannu at gylch gwaith y grŵp gweithredol o oruchwylio'r broses ymgeisio: yn yr achos hwn mae ysgolion yn cyflwyno ceisiadau ar ran eu disgyblion i sicrhau un o'r 50 o leoliadau sydd ar gael ar y rhaglen ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Yn ogystal, mae'r ALl hefyd yn cefnogi'r SAB gyda hyfforddi staff ar sut i ddelio ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol
- mae pedwar ALl yn casglu gwybodaeth ac/neu'n cynnal archwiliadau o gomisiynu gan ysgolion er mwyn mapio'r hyn sy'n cael ei gomisiynu gan ysgolion a chan bwy. Er enghraifft, mae un yn cynnal archwiliad o bryd i'w gilydd i asesu a yw ysgolion yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol ar ddarparwyr a chanfod a yw dysgwyr yn ennill cymwysterau priodol. Mewn un arall, canfu'r archwiliad diweddaraf mai dim ond un darparwr a gomisiynwyd gan ysgolion a dim ond 'llond llaw o ddisgyblion' a fanteisiodd ar y ddarpariaeth hon.

10.24 Dadleuodd ALlau fod manteision caniatáu i ysgolion gomisiynu darpariaeth addysg allanol yn uniongyrchol yn cynnwys y ffaith bod ysgolion mewn sefyllfa dda i ddod o hyd i atebion a oedd yn diwallu anghenion disgyblion, y gall y broses fod yn gyflym a'i bod hefyd yn gosteffeithiol i'r ALl. Credwyd mai'r brif anfantais oedd y ffaith nad oedd yr ALl yn ymwneud ag asesu addasrwydd darparwyr a monitro'r ddarpariaeth. Awgrymodd UCD fod ysgolion yn comisiynu darpariaeth allanol oherwydd bod hyn yn caniatáu iddynt deilwra'r ddarpariaeth o amgylch amserlen ysgol graidd disgybl ac yn eu galluogi i gael mynediad at ddarpariaeth tymor byr, megis darpariaeth

sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, gyda'r bwriad o sicrhau y gall disgyblion ailintegreiddio'n hawdd. Roedd UCD eraill yn cwestiynu'r rhesymeg bod ysgolion yn gwneud hynny'n uniongyrchol, yn hytrach na chadw at brosesau'r ALl sy'n cynnwys cyfeirio at banel atgyfeirio.

**Barn ALlau ac UCD ynghylch sut mae ysgolion yn monitro darpariaeth allanol**

10.25 Roedd ALlau ac UCD o'r farn bod y math o ddarpariaeth addysg allanol a gomisiynwyd gan ysgolion yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol, gan gynnwys darpariaeth a oedd ar gael drwy SAB megis Prentisiaethau Iau. Cyfeiriodd sawl ALl at ddefnyddio cyrsiau paratoi ar gyfer y fyddin. Cyfeiriwyd at ambell enghraifft o ddefnyddio darpariaeth un-i-un, er enghraifft i gefnogi darparu gwersi mathemateg/Saesneg ar sail un-i-un i ddisgyblion a oedd wedi ymddieithrio neu yr ystyriwyd eu bod yn agored i niwed.

10.26 Prin iawn yw'r dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth ALlau ac UCD ynghylch y trefniadau cytundebol a monitro a roddir ar waith gan ysgolion ar gyfer unrhyw ddarpariaeth allanol a gomisiynir. Yn wir, nid oedd sawl ALl yn ymwybodol o hyn ac roedd un awdurdod o'r farn nad oedd ysgolion yn cynnal unrhyw ymweliadau monitro ar gyfer disgyblion ar raglen Prentisiaethau Iau AB.

## 11. Adborth gan ddarparwr allanol addysg heblaw yn yr ysgol

11.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar brofiadau darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol o'r trefniadau comisiynu a monitro a fabwysiadwyd gan ALlau a, lle bo hynny'n berthnasol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae'n seiliedig ar adborth gan ddau ar bymtheg o ddarparwyr.

**Proffil o ddarparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol**

11.2 Roedd proffil y darparwyr a gafodd eu cyfweld yn amrywio'n fawr o ran maint a strwythur. Roedd sawl darparwr yn elusennau neu'n ymddiriedolaethau elusennol, tra bod eraill wedi'u sefydlu fel cwmnïau dielw neu gwmnïau buddiannau cymunedol. Roedd dau yn SAB ac roedd tri yn gwmnïau hyfforddi. Roedd y rhai yr oedd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel ysgolion annibynnol, hefyd wedi sefydlu eu hunain fel ysgolion o'r fath. Roedd yna hefyd un ysgol arbennig a oedd yn cael ei rhedeg gan yr ALl wedi'i chynnwys yn y garfan a gafodd ei chyfweld.

11.3 O ran capasiti, mae darparwyr allanol yn amrywio o'r rhai sy'n cynnig rhwng un a thair awr yr wythnos i bob disgybl i'r rhai sy'n cynnig darpariaeth amser llawn. Mae nifer y disgyblion y gallant eu derbyn hefyd yn amrywio. Er enghraifft, y llynedd, cyflwynodd un darparwr leoliadau ar gyfer dim ond wyth o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, ac ar ben arall y raddfa, roedd un arall wedi darparu lleoliadau i dros 200 o ddisgyblion yn ystod y flwyddyn. Mae sawl darparwr addysg heblaw yn yr ysgol yn capio eu capasiti beunyddiol ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol - er enghraifft, mae un darparwr yn gallu derbyn hyd at 12 o ddisgyblion wedi'u rhannu rhwng tair ystafell ddosbarth bob dydd, tra bod un arall yn gallu cymryd uchafswm o wyth mewn unrhyw un grŵp, gan weithio gyda nhw am hyd at hanner diwrnod yr wythnos am 20 wythnos.

11.4 Mae'r math o ddarpariaeth a gynigir gan y rhai a gyfwelwyd hefyd yn amrywio ac yn cynnwys hyfforddiant un-i-un, addysg yn y cartref, hyfforddiant grŵp, gweithdai mewn canolfannau cymunedol, hyfforddeiaethau, prentisiaethau a chyrsiau galwedigaethol. Dau ddarparwr yn unig sy'n cynnig unrhyw ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a CA2,

tra bod y lleill yn bennaf yn cynnig darpariaeth ar gyfer grwpiau oedran penodol yn CA3 neu/a CA4.

11.5 Roedd 15 o'r darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a gafodd eu cyfweld wedi'u comisiynu'n uniongyrchol gan yr ALl, roedd naw wedi'u comisiynu'n uniongyrchol gan ysgolion a soniodd wyth eu bod yn derbyn comisiynau uniongyrchol gan UCD.

11.6 Mae saith o'r darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a gafodd eu cyfweld yn gweithio o fewn un ALl yn unig, mae pump yn gweithio ar draws dau neu dri ALl ac mae'r pump sy'n weddill yn gweithio ar draws rhwng pedwar a chwe ALl yng Nghymru.

**Dehongli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

11.7 Darparwyd ystod eang o ymatebion i'r cwestiwn yn ymwneud â sut mae addysg heblaw yn yr ysgol yn cael ei ddiffinio. Yn nodweddiadol, disgrifiodd sawl darparwr allanol ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel 'addysg amgen' neu 'ddarpariaeth amgen' i'r rhai na allant ymdopi ag addysg mewn ysgol prif ffrwd am amrywiol resymau megis rhesymau'n ymwneud ag iechyd, heriau ymddygiad, problemau iechyd meddwl. Roedd gan ddarparwyr eraill ddehongliadau ychydig yn wahanol neu ddehongliadau mwy penodol o addysg heblaw yn yr ysgol gan gynnwys:

> 'rydym bob amser wedi meddwl amdanom ni ein hunain fel darparwr sy'n gallu diwallu anghenion disgyblion sydd â phroblemau ymddygiad ac iechyd meddwl. Felly rydym yn eistedd rhwng yr UCD a'r ysgol prif ffrwd'
>
> 'y disgyblion hynny nad ydynt ar y gofrestr mewn ysgol neu UCD'
>
> 'pobl ifanc sydd wedi cwympo allan o addysg ac yn mynd i rywle arall'
>
> 'darpariaeth amgen i addysg prif ffrwd ar gyfer disgyblion sydd angen dull mwy ymarferol o ddysgu'
>
> (cynigiwyd bob un o'r pedwar dyfyniad gan ddarparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol).

11.8 Efallai mai'r ddau ddisgrifiad a ganlyn sy'n dangos orau sut mae dehongliadau yn amrywio, a sut y gall 'darpariaeth amgen' a gomisiynir gan ysgolion wneud pethau'n niwlog o ran diffinio addysg heblaw yn yr ysgol:

> 'darpariaeth addysgol amgen nad yw mewn ysgol prif ffrwd'
>
> 'darpariaeth amgen ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgol prif ffrwd' (darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol allanol).

11.9 Ni chyfyngodd darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol y diffiniad o addysg heblaw yn yr ysgol i ddarpariaeth a ariennir gan ALlau yn unig. Gwnaeth dau o'r darparwyr sy'n gweithio ar draws sawl ALl wahanol sylwadau ar sut mae pob ALl yn gweld ac yn dehongli anghenion addysg heblaw yn yr ysgol mewn ffordd wahanol.

11.10 Soniodd ychydig o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol hefyd nad oeddent yn defnyddio'r diffiniad, neu ei fod yn anghyfarwydd iddynt. Yn yr achosion hyn, roedd termau fel 'NEET', 'anodd eu cyrraedd' neu 'wedi ymddieithrio' yn fwy cyfarwydd.

**Manteision ac anfanteision darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

11.11 Roedd manteision canfyddedig comisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol a nodwyd gan ddarparwyr yn cynnwys y ffaith bod y ddarpariaeth yn cynnig:

- gwasanaeth dibynadwy, arbenigol gan unigolion profiadol wedi'u hyfforddi i safon uchel iawn a fyddai'n anghynaliadwy i ysgolion ei ddarparu
- dull 'hyblyg', 'pwrpasol' neu 'wedi'i deilwra'
- newid amgylchedd i ddisgyblion
- grwpiau llai o faint i sicrhau bod digon o amser yn cael ei fuddsoddi mewn pobl ifanc sy'n aml yn 'anweledig'
- sbectrwm ehangach o gyfleoedd ar gael, gan gynnwys darpariaeth fwy ymarferol sy'n fwy addas i rai disgyblion.

11.12 Disgrifiwyd y brif anfantais, y soniodd sawl darparwr amdani, yn syml fel 'cost'. Mae anfanteision eraill yn cynnwys barn y gall manteisio ar ddarpariaeth allanol weithiau ei gwneud hi'n anoddach dod o hyd i lwybr yn ôl i'r brif ffrwd. Disgrifiodd un darparwr, sydd â phrofiad o weithio gyda sawl ALI sut y byddai lleoliadau amser llawn gyda darparwyr allanol yn well o ran monitro a sicrhau ansawdd, gan fod diffyg parhad yn aml yn gysylltiedig â darpariaeth ran-amser a bod hynny'n creu mwy o broblemau o ran pwy sy'n atebol am gynnydd a deilliannau dysgwyr. Credwyd bod yr anfanteision canfyddedig eraill, y credwyd eu bod yn rhoi darparwyr dan anfantais, yn cynnwys y ffaith nad oedd gan aelodau o baneli comisiynu ddealltwriaeth o'r hyn a gynigir a'r diffyg tryloywder ynghylch y meini prawf sy'n cael eu defnyddio i ddyfarnu contractau.

11.13 Roedd gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol sawl rheswm dros gynnig y math hwn o ddarpariaeth. Roedd gan lawer ohonynt gysylltiadau hirsefydlog â'r ALl dros sawl blwyddyn ac roeddent wedi datblygu darpariaeth dros amser. Roedd nifer o'r unigolion a gyfwelwyd wedi gweithio i ALl fel penaethiaid, penaethiaid UCD neu staff cymorth eraill ac, felly, mae ganddynt rwydweithiau a chysylltiadau cryf â staff yr ALl sy'n ymwneud â chomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Nododd darparwyr eraill eu bod wedi addasu'r hyfforddiant presennol neu wedi clywed am y cyfleoedd i gynnig darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar dafod leferydd.

**Proses atgyfeirio a disgwyliadau o ran deilliannau**

11.14 Mae'n ymddangos bod y broses atgyfeirio yn wahanol yn dibynnu ar bwy sy'n gwneud yr atgyfeiriad. Nododd darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol sy'n derbyn atgyfeiriadau yn uniongyrchol gan ALlau eu bod yn dod yn uniongyrchol o'r panel atgyfeirio, fel arfer drwy ffurflen atgyfeirio sy'n darparu manylion am gefndir y disgybl. Mae atgyfeiriadau gan UCD ac ysgolion yn tueddu i fod yn fwy anffurfiol, i ddechrau drwy alwad ffôn fer neu e-bost gan reolwr UCD neu Gydlynydd AAA mewn ysgol ond mae'r dull yn amrywio wedi hynny.

11.15 Disgrifiodd un darparwr sut mae'r ysgolion y maent yn delio â nhw yn cael cwota o ddisgyblion y gallant eu hatgyfeirio at y ddarpariaeth. Disgwylir i ysgolion lenwi ffurflen gais ar gyfer pob disgybl y maent am ei atgyfeirio, ac mae panel yn yr ALl yn cwrdd i ystyried y rhain. Soniodd darparwr arall fod disgyblion yn cael eu hadnabod ymlaen llaw gan yr ysgol, ac yna cysylltir â'r darparwr i holi am leoliad. Yna mae'r darparwr yn gofyn am fanylion ar gyfer pob disgybl gan ddefnyddio ei ffurflen atgyfeirio ei hun. Yn yr un modd, mae darparwr arall sy'n derbyn atgyfeiriadau gan yr ALl, UCD ac ysgolion yn ei ardal yn gofyn am wybodaeth drwy ei ffurflen atgyfeirio ei hun er mwyn sicrhau cysondeb yn y wybodaeth a dderbynnir am yr holl ddisgyblion. Mae darparwr sy'n derbyn atgyfeiriadau gan UCD yn ei ardal yn derbyn galwad ffôn gychwynnol gan y rheolwr, ac yna ymweliad gan staff UCD a'r person ifanc 'i edrych o gwmpas a chael sgwrs'.

11.16 Roedd darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol wedi cael profiadau gwahanol o'r broses sydd ar waith ar y dechrau ar gyfer nodi'r deilliannau addysgol i'r plentyn.

11.17 Soniodd darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol yn gyson fod y wybodaeth a gânt gan gomisiynwyr, yn enwedig os daw yn uniongyrchol gan ysgolion, braidd yn gymysg. Mae rhai darparwyr yn derbyn gwybodaeth a data manwl am anghenion a galluoedd addysgol plentyn yn ystod atgyfeiriad neu pan gaiff ei dderbyn. Er enghraifft, disgrifiodd un darparwr sut y mae'n clywed am anghenion y disgyblion o ddechrau'r broses atgyfeirio gyda gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu a deilliannau'n cael eu negodi o'r cychwyn cyntaf, ond sydd eto'n cynnwys elfen o hyblygrwydd wrth i anghenion y plentyn newid neu gael eu nodi yn ystod cyfarfodydd adolygu.

11.18 Fodd bynnag, rhoddodd darparwyr eraill dystiolaeth i'r gwrthwyneb gan awgrymu bod y wybodaeth a gânt yn llai na chadarn ac nad yw'n ddigonol er mwyn adnabod anghenion y plentyn a chynllunio'r ddarpariaeth. Disgrifiodd un darparwr sut y mae'n gwrthod derbyn trefniant comisiynu mewn bloc neu leoliadau 'gwag' gan ei fod yn awyddus i sicrhau bod ei ddarpariaeth yn addas ar gyfer y plentyn dan sylw. Disgrifiodd un arall sut mae'r wybodaeth am blentyn weithiau'n anghyflawn ac yn sylfaenol iawn ac

roedd yn credu bod hwn yn benderfyniad tactegol gan yr ALl neu'r ysgol er mwyn annog y darparwr i dderbyn yr atgyfeiriad.

11.19 Teimlai un darparwr nad yw'r ysgolion y mae'n delio â hwy yn adnabod anghenion y plentyn yn dda a bod disgyblion yn cael eu hatgyfeirio ato dim ond oherwydd bod yr UCD yn ei ardal yn llawn, er bod gan ddisgyblion fwy o anghenion ac anghenion mwy difrifol nag yr oedd eu darpariaeth yn gallu ymdopi â nhw. Disgrifiodd sut y mae'n:

> 'cael llawer o ddisgyblion sy'n camddefnyddio sylweddau, sy'n hunan-niweidio a chanddynt anghenion dwys... nid ydym yn teimlo ein bod mewn sefyllfa i ddelio â nhw. Fe wnaeth un ohonynt fygwth trywanu aelod o staff yn ddiweddar. Nid ydym mewn sefyllfa i ymdrin â'r materion hyn '(Ysgol annibynnol).

Teimlai'r darparwr hwn y dylai ysgolion roi mwy o ystyriaeth i anghenion disgyblion unigol yn hytrach na chomisiynu darpariaeth bloc a nododd fod arolygiad diweddar gan Estyn hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i wella ansawdd y wybodaeth a dderbynnir oddi wrth ysgolion am anghenion a chanlyniadau dysgwyr.

11.20 Roedd darparwr arall o'r farn bod swm y gyllideb a oedd ar gael gan yr ALl neu'r ysgol yn effeithio ar y ddarpariaeth a ddyrannwyd i ddisgyblion. Er gwaethaf hyn, disgrifiodd yr un darparwr, sy'n gweithio ar draws sawl ALl, sut yr oedd un ALl yn benodol yn darparu 'gwasanaeth di-dor ac yn edrych o ddifrif ar anghenion unigol y plentyn, ac yn gwario mwy na'i gyllideb bob blwyddyn o ganlyniad'.

11.21 Nododd sawl un o'r darparwyr eu bod yn asesu'r disgybl eu hunain er mwyn nodi deilliannau addysgol ac anghenion llesiant emosiynol. Amlinellwyd amrywiol ddulliau o wneud hyn gan gynnwys cyfarfod â'r ysgol cyn derbyn plentyn i'r ddarpariaeth i ddarganfod mwy am ddeilliannau darpar ddisgyblion cyn cynnig ystod o gymwysterau gan gynnwys:

- datblygu eu portreadau ysgrifenedig eu hunain
- cynnal eu hasesiad eu hunain i gael 'darlun mwy cywir a chynhwysfawr'
- datblygu cynllun personol mewn cydweithrediad â'r ysgol, y disgybl a'r rhiant

- cynnal asesiad cychwynnol i gael llinell sylfaen
- ymgymryd ag asesiad proffilio BKSB[102] neu Boxall
- cynnal asesiad risg a pharatoi cynllun ar gyfer anghenion y disgybl penodol
- gofyn i'r atgyfeiriwr lenwi ffurflen sy'n amlinellu'r heriau a'r deilliannau gofynnol i'r disgybl
- defnyddio'r wythnos gychwynnol fel treial i roi amser i hyfforddwyr ddod i adnabod disgyblion, rhoi adborth iddynt am sut maen nhw'n teimlo y gallant ddiwallu eu hanghenion a chynllunio pecyn pwrpasol
- dilyn rhaglen sefydlu i asesu'r disgybl a chael darlun sylfaenol...ynghylch llythrennedd, rhifedd a llesiant'.

**Prosesau comisiynu a monitro darparwyr allanol**

11.22 Adroddodd darparwyr fod gan ALlau brosesau comisiynu a monitro amrywiol. Disgrifiodd y darparwyr hynny a oedd yn cynnig darpariaeth o fewn ALlau a chanddynt restrau cyflenwyr cymeradwy sut yr oeddent wedi tendro neu gyflwyno cais i fod ar y rhestr honno a'u bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Roedd yn rhaid i'r darparwyr allanol hyn hefyd ddangos bod ganddynt y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gyflawni gofynion diogelu, iechyd a diogelwch a chofrestru manwl a amlinellwyd gan yr ALl.

11.23 Fodd bynnag, nid oedd gan sawl darparwr allanol arall gontract gyda'u comisiynwyr ALl ac felly roedd lleoliadau ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu trefnu drwy CLG ar gyfer pob disgybl ar ffurf 'pryniannau ar hap' neu ar gyfer cwota o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Yn gyffredinol, byddai darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn croesawu contract mwy ffurfiol, gan y byddai'n cynnig mwy o sicrwydd ac yn helpu i gynllunio darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Roedd yr holl ddarparwyr allanol hyn yn hyderus bod ganddynt y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gynnig darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol serch hynny, ac roedd y CLG yn ymdrin â'r rhain yn gyffredinol. Fodd bynnag, dywedodd ambell ddarparwr nad oedd yr ALl

[102] BKSB

neu'r UCD/ysgol wedi gwneud unrhyw wiriadau go iawn a bod y broses gomisiynu 'yn teimlo'n anffurfiol ac yn anfiwrocrataidd'.

11.24 Pan gomisiynir darpariaeth yn uniongyrchol gan ysgolion (ac mewn dwy enghraifft gydag UCD) soniodd bron pob darparwr allanol fod hyn drwy CLG naill ai i gwmpasu 'contractau bloc' neu raglen dreigl ar gyfer nifer o ddisgyblion neu roedd CLG y cael eu drafftio ar gyfer pob disgybl unigol.

11.25 Soniodd tri darparwr sut roedd eu cynnwys fel darparwr cymeradwy ar raglenni Cynnydd neu TRAC yn caniatáu i ysgolion fod yn dawel eu meddyliau o wybod bod yr holl wiriadau ac asesiadau angenrheidiol o'r gwasanaeth ar waith er mwyn cael contract i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol.

11.26 Ar ôl cael eu comisiynu, disgrifiodd darparwyr allanol yr amrywiol weithgareddau a phrosesau monitro a oedd ar waith wedi hynny. Yn gyffredinol, disgrifiodd y darparwyr allanol hynny a oedd ar restrau cymeradwy ar gyfer yr ALl brosesau monitro cadarn a oedd yn gofyn am ddiweddariadau manwl a rheolaidd ar bresenoldeb, ymddygiad a chyflawniad. Fe wnaethant ddisgrifio cyfarfodydd rheolaidd gyda'r ALl (o leiaf bob hanner tymor) gydag ymweliadau a hapwiriadau hefyd yn rhan o'r trefniadau monitro.

11.27 Mae pob darparwr allanol yn casglu ac yn rhannu data â'u comisiynydd (ALl, UCD neu'r ysgol) ar bresenoldeb, ac mae'r mwyafrif hefyd yn gwneud yr un peth gyda data ar ymddygiad a chyflawniadau. Fodd bynnag, mae eu profiadau yn amrywio o ran cadernid y prosesau monitro sydd ar waith.

11.28 I'r rhai a gomisiynir yn uniongyrchol gan ALlau, roedd disgwyl yn gyffredinol i adroddiadau ysgrifenedig gael eu darparu i gynnwys data ar ymgysylltu, presenoldeb, ymddygiad a chynnydd. Mae comisiynwyr ALl hefyd yn tueddu i gynnal ymweliadau monitro rheolaidd (er bod ambell eithriad):

> 'nid ydym yn clywed gan yr awdurdod lleol mewn gwirionedd tan arolygiad Estyn neu tan ddiwedd y flwyddyn. Yr unig ddata y mae'n ofynnol i ni eu casglu yw data ar bresenoldeb... Dw i ddim yn credu bod yr awdurdod lleol wir yn edrych ar ansawdd yr addysgu' (Darparwr allanol addysg heblaw yn yr ysgol).

11.29 Mae gan ddarparwyr allanol a oedd eu hunain yn ysgolion cofrestredig drefniadau monitro mwy cadarn ar waith, ni waeth pwy sy'n comisiynu eu darpariaeth. Er enghraifft, mae gan un darparwr gynllun gwella ansawdd blynyddol a fframwaith sicrhau ansawdd, felly gallant ymateb yn llawn i unrhyw ofynion monitro gan ALlau.

11.30 Mae'r trefniadau monitro a fabwysiedir gan ysgolion yn llawer llai trylwyr ac er bod darparwyr allanol yn tueddu i gasglu data ar ddisgyblion, nid yw hwn yn ofyniad penodol. Yn ôl darparwyr, mae dulliau o fonitro ymweliadau yn amrywio ar draws ysgolion - disgrifiodd rhai darparwyr allanol sut y maent yn tueddu i gael ymweliad bob tymor neu bob hanner tymor, ond nid oedd eraill yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr ysgolion o gwbl. Disgrifiodd un darparwr sut yr oedd yn gwahodd yr ysgolion sy'n ei gomisiynu i gyfarfodydd bob hanner tymor i edrych ar ddeilliannau dysgwyr ond 'mae diddordeb ysgolion yn amrywio...nid yw rhai eisiau gwybod ac mae eraill yn parhau i ddangos diddordeb ac yn dod i'r cyfarfodydd' (Ysgol annibynnol).

**Cofrestru a chynlluniau ailintegreiddio**

11.31 Ychydig iawn o ddarparwyr allanol a nododd fod disgyblion wedi cofrestru yn eu sefydliad, a hynny gan nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgolion cofrestredig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd wedi'u lleoli gyda darparwyr yn parhau i fod â chofrestriad sengl yn eu eu hysgol neu/a'u UCD.

11.32 Nododd dau ddarparwr nad oeddent yn gwybod beth oedd statws cofrestru eu disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol gan nad oeddent yn ymwneud â hynny.

11.33 Tynnodd y darparwyr allanol hynny a oedd hefyd yn SAB neu'n ysgolion annibynnol sylw at brofiadau diddorol neu anghysonderau o ran cofrestru gan gynnwys:

- cofrestriad deuol rhwng yr ysgol a'r darparwr (sydd hefyd yn ysgol gofrestredig)
- sefyllfa lle mae disgyblion yn aros ar gofrestr yr ysgol tan y Nadolig ac yna'n trosglwyddo i'r SAB.

11.34 Roedd un ysgol gofrestredig sy'n derbyn disgyblion o sawl ALl yn ystyried cofrestru'n 'broblem enfawr' a oedd yn ddryslyd ac yn rhwystredig oherwydd y gwahanol bolisïau ac arferion sydd ar waith mewn amrywiol ALlau. O ganlyniad, mae ganddi rai disgyblion ar ei chyrsiau hyfforddi sy'n aros ar gofrestr yr ysgol, eraill sydd â chofrestriad deuol (gyda'r ysgol a'r darparwr) ac eraill â chofrestriad sengl gyda'r darparwr. Roedd yn well gan yr ysgol gadw'r cyfrifoldeb dros gofrestru gan fod hyn yn ei gwneud yn haws i'r darparwr o ran diogelu, olrhain a monitro cynnydd disgyblion.

11.35 Cafwyd ymateb mwy cymysg o ran cynllunio ailintegreiddio. Soniodd y rhan fwyaf o ddarparwyr allanol nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau ar waith o ran ailintegreiddio - naill ai oherwydd eu bod yn delio'n bennaf â disgyblion CA4 lle y byddai nodau ailintegreiddio yn 'anghyfrifol' o ystyried bod y disgyblion yn gweithio tuag at ddeilliannau penodol a bod disgyblion wedi 'setlo i mewn', neu nid oedd y darparwyr yn gwybod beth oedd hynny, gan nad oedd yn cael ei ystyried yn rhan o'u cyfrifoldebau cytundebol.

11.36 Roedd y darparwyr allanol hynny sy'n darparu darpariaeth allanol a gomisiynir gan ysgolion yn bennaf neu ddarpariaeth ran-amser addysg heblaw yn yr ysgol yn fwy tebygol o ddisgrifio sut roedd ailintegreiddio yn rhan o'u cylch gwaith, gyda chynllunio ailintegreiddio yn rhan o'u Cytundeb Lefel Gwasanaeth, neu nod cryf ar gyfer ailintegreiddio â charfannau penodol o ddisgyblion addysg heblaw yn yr ysgol, fel y rhai â chyflyrau iechyd meddwl neu feddygol. Yn yr enghraifft hon, mae'r darparwr allanol yn gweithio gydag UCD lleol ac ysgolion i gefnogi ailintegreiddio drwy rannu gwybodaeth, mynychu cyfarfodydd pontio a chyfathrebu'n rheolaidd â'r ysgol.

11.37 Byddai'r opsiwn o ddull mwy graddol, fesul tipyn o ailintegreiddio disgyblion yn cael ei groesawu, a byddai'r cyfnod pontio'n haws, ond nid oedd hyn yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd y ffordd y mae darparwyr allanol yn cael eu hariannu h.y. cânt eu hariannu i ddarparu lleoliad penodol, felly ar ôl i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol, nid oes gan ddarparwyr yr adnoddau ariannol i gynnig unrhyw ddarpariaeth bellach.

11.38 Disgrifiodd un darparwr sut yr oedd ailintegreiddio yn ystod CA2 a CA3 yn amlwg yn haws, ond roeddent yn aml yn ei chael yn anodd 'perswadio ysgolion i gymryd plant yn ôl, hyd yn oed os mai dyna beth mae'r disgybl ei eisiau neu dyna'r peth gorau iddo' (Darparwr allanol addysg heblaw yn yr ysgol).

## 12. Canllawiau ar gyfer y Dyfodol

12.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi safbwyntiau a barn cynrychiolwyr a gyfwelwyd gan gynnwys sefydliadau rhanddeiliaid, ALlau, UCD, ysgolion a darparwyr allanol ar ba ganllawiau y gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi mewn perthynas â chomisiynu a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

12.2 Nododd mwyafrif y cyfranwyr y byddent yn croesawu canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar gomisiynu a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Byddai canllawiau o'r fath yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol yng nghyd-destun y twf diweddar yn y galw am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn ogystal â'r amrywiaeth eang o ddehongliadau ac arferion a fabwysiadwyd o un awdurdod i'r llall. Roedd sawl cynrychiolydd ALl o'r farn y dylai'r canllaw gynnwys meysydd arfer da sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith gan y byddai hyn o fudd i'r ALlau hynny a allai wella agweddau ar eu dull gweithredu.

12.3 Roedd galwad unfrydol ar i unrhyw ganllawiau yn y dyfodol atgyfnerthu'r diffiniadau cyfreithiol o addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth amgen o ystyried bod y dehongliadau presennol yn amrywio, ac i hyn ddatrys unrhyw amwysedd rhwng yr hyn sy'n gyfystyr ag addysg heblaw yn yr ysgol ac unrhyw ddarpariaeth a gomisiynir gan ysgolion neu UCD. Dadleuodd sawl cyfrannwr y dylai'r canllawiau gydnabod y ffaith bod ysgolion ac UCD yn comisiynu darpariaeth drwy osod fframwaith trosfwaol y gallai ysgolion ac UCD gydymffurfio ag ef mewn modd cyson.

12.4 Awgrymodd rhai cyfranwyr y gallai'r grŵp cynghori ar addysg heblaw yn yr ysgol a ffurfiwyd yn ddiweddar ddarparu mecanwaith pwysig ar gyfer cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau. Yn benodol, gallai gefnogi rhannu arferion da, polisïau a gweithdrefnau a chynnig adborth ar gynigion Llywodraeth Cymru. Yn wir, adeg y gwaith maes nodwyd nad oedd y grŵp hwn wedi cwrdd ers 2018[103] ond roedd ganddo'r gallu i wneud cyfraniad

[103] Fodd bynnag, cawsom ar ddeall bod cyfarfodydd grŵp wedi'u cynnal yn 2019.

pwysig at ddatblygu'r sector addysg heblaw yn yr ysgol yn ehangach yng Nghymru.

12.5 Er eu bod yn croesawu canllawiau ar gyfer y dyfodol ar addysg heblaw yn yr ysgol, dadleuodd y cyfranwyr ei bod hefyd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad ag ALlau ac ysgolion, yn ymchwilio i atebion tymor hwy a mwy cynaliadwy i leihau'r angen i atgyfeirio disgyblion at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Roedd sawl cyfrannwr yn credu bod cryn gyfle i gynnig cwricwlwm ehangach i ddisgyblion ysgolion prif ffrwd yn CA4 yng ngoleuni'r lleihad yn y ddarpariaeth llwybr 14 i 19 dros y blynyddoedd diwethaf. Lleisiodd nifer o gyfranwyr yr ALl eu pryderon hefyd am y bwlch posibl mewn darpariaeth amgen neu ychwanegol a ddarperir gan gyflenwyr allanol sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r gweithrediadau a ariennir gan ESF megis Cynnydd a TRAC i ddisgyblion prif ffrwd sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion, pan ddaw'r ymyriadau hyn i ben.

12.6 Er gwaethaf y ffaith bod canllawiau technegol ar gael ar gyfer cwblhau ffurflenni CYBLD, credwyd bod problem sylfaenol y mae'n rhaid i'r canllawiau fynd i'r afael â hi yn ymwneud â statws cofrestru disgyblion sy'n cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Fel y trafodwyd ym Mhennod 8 yr adroddiad hwn, ar hyn o bryd mae diffyg cysondeb o ran sut mae ALlau ac ysgolion yn cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysg allanol. Byddai cyfranwyr yn croesawu eglurder ynghylch a ddylai disgyblion sy'n cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fod â chofrestriad sengl neu ddeuol (a'u cofnodi fel prif ddisgyblion neu ddisgyblion atodol mewn ysgolion prif ffrwd yn achos disgyblion â chofrestriad deuol), ac a ddylai disgyblion Blwyddyn 11 yn benodol gael eu dadgofrestru neu beidio cyn yr ymarfer CYBLD bob mis Ionawr.

12.7 Roedd darparwyr allanol yn benodol yn dymuno i ganllawiau yn y dyfodol ysgogi mwy o 'gysondeb' wrth gomisiynu darpariaeth, gyda sawl darparwr yn galw am ganllawiau cliriach ar bob cam o'r broses, o adnabod disgyblion sydd angen eu gwasanaeth, y broses gomisiynu gychwynnol i'r gwaith rheoli a monitro wedi hynny. Roedd darparwyr a oedd yn delio â mwy nag un ALl hefyd yn tueddu i ofyn am ddull comisiynu llai tameidiog a chynigiwyd sawl awgrym ymarferol megis datblygu ffurflenni atgyfeirio

safonedig a 'system atgyfeirio Cymru Gyfan' neu ddull mwy rhanbarthol o gomisiynu.

12.8 Yn ogystal â'r materion a nodwyd uchod, awgrymwyd gan lawer hefyd y dylai'r canllawiau gwmpasu nifer o elfennau ymarferol, gan gynnwys:

- bod yn berthnasol i ddarpariaeth allanol a gomisiynir gan ALl, ysgol neu UCD a pheidio â chael eu cyfyngu i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn unig. Adroddwyd bod bwlch mawr ar hyn o bryd yn y canllawiau cyson sydd ar gael i ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth ychwanegol allanol
- wedi'i alinio â hyn, dylai'r canllaw gwmpasu arfer da mewn perthynas â defnyddio fframweithiau comisiynu ALl drwy brosesau caffael cystadleuol, a sut y gellid disgwyl i ysgolion ac UCD gael mynediad at fframwaith o ddarparwyr sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd gan yr ALl ar gyfer comisiynu darpariaeth addysg allanol.
- nodi'r camau a'r gweithredoedd y dylid disgwyl i ysgolion fod wedi'u rhoi ar waith fel isafswm cyn gwneud atgyfeiriad am addysg heblaw yn yr ysgol fel rhan o ymateb graddedig i ddelio ag anghenion disgyblion ac y dylid ystyried tystiolaeth o hyn fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.
- nodi'r gofynion sicrhau ansawdd sylfaenol y mae'n rhaid i ddarparwyr allanol eu bodloni ar ffurf rhestr wirio fanwl y gallai ALlau, UCD ac ysgolion eu mabwysiadu wrth gomisiynu darpariaeth. Dylai'r rhestr wirio hon gynnwys polisïau ac arferion y dylid disgwyl i ddarparwyr eu rhoi ar waith, yn seiliedig ar arfer da sy'n bodoli eisoes ar draws ALlau
- cynnig canllawiau ar sut y gallai ALlau gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar y cyd yn rhanbarthol, gan arwain o bosibl at baratoi fframwaith o ddarparwyr allanol a gymeradwywyd yn rhanbarthol
- amlinellu mesurau perfformiad addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth addysg allanol y gallai ALlau, UCD ac ysgolion eu mabwysiadu i fonitro unrhyw ddarpariaeth allanol a gomisiynir, gan gynnwys ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau addysgol a gyflawnir

- yr hyn a ddisgwylid gan ALlau, UCD ac ysgolion fel y gofyniad lleiaf i fonitro unrhyw addysg heblaw yn yr ysgol a ddarperir yn allanol neu ddarpariaeth addysg allanol. Byddai hyn yn cynnwys yr hyn a ddisgwylir o ran cynnwys a rheoleidd-dra adroddiadau gan ddarparwyr yn ogystal ag ymweliadau â darparwyr.

12.9 Cododd sawl darparwr bryderon ynghylch diffyg rhannu gwybodaeth a data cywir, cadarn ac amserol rhwng ALlau/ysgolion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol ar hyn o bryd, gan dynnu sylw at yr angen i ddatblygu canllawiau i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu cywir ac effeithiol ar waith er mwyn datgelu risgiau diogelwch i'r disgybl a'i staff ei hun. Yn ogystal, byddai darparwyr yn croesawu symud tuag at gyllid tymor hwy ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan y byddai hyn yn caniatáu iddynt roi darpariaeth ar waith am fwy nag un flwyddyn academaidd, a ystyriwyd yn arbennig o bwysig i ddisgyblion CA4.

# 13. Casgliadau ac argymhellion

13.1 Mae'r bennod hon yn nodi ein casgliadau ac yn cynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth ddatblygu canllawiau ar gyfer comisiynu a monitro darpariaeth addysg allanol. Rydym yn ailbwysleisio'r ffaith bod ein casgliadau a'n hargymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau a barn y rhai a gyfrannodd at yr adolygiad ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr ag arfer effeithiol o ran comisiynu darpariaeth.

13.2 Wrth wneud hynny, dychwelwn at nod cyffredinol yr astudiaeth, sef adolygu dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol (ALlau) ac ysgolion wrth gomisiynu addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth addysg a gomisiynir gan ysgolion, ac adrodd ar hynny.

13.3 Cyn mynd i'r afael â hyn, fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes dehongliad cyson ymhlith y rhai a gyfwelwyd o'r hyn a olygir gan 'addysg heblaw yn yr ysgol' neu 'ddarpariaeth amgen' er gwaethaf y ffaith bod hyn wedi'i nodi o mewn deddfwriaeth ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Deuwn i'r casgliad, er bod y termau hyn wedi'u diffinio'n ddiamwys o safbwynt cyfreithiol, eu bod yn cael eu dehongli gan ALlau, UCD ac ysgolion mewn sawl ffordd wahanol. Felly, credwn fod angen gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol sy'n ymwneud â'r maes gwaith hwn fel blaenoriaeth

**Modelau a phrosesau ar gyfer comisiynu darpariaeth addysg allanol**

13.4 Ein prif ganfyddiad yw bod trefniadau ALlau ar gyfer comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol yn amrywio'n sylweddol o un awdurdod i'r llall. Canfu'r adolygiad rai enghreifftiau o gomisiynu darpariaeth ar y cyd ar lefel ysgol ond dim un ar lefel yr ALl: roedd rhwystrau amrywiaeth o ddiffiniadau, dulliau a chyllidebau wedi cyfyngu ar unrhyw ymdrechion o'r fath gan ALlau i gomisiynu ar y cyd.

13.5 Canfu'r adolygiad hefyd fod dulliau cyllido addysg heblaw yn yr ysgol yn amrywio o un awdurdod i'r llall, yn enwedig o ran trefniadau adfachu ariannol gan ysgolion, gyda chyllid yn dod o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys o UCD a chyllidebau ysgolion. Dim ond rhai ALlau sy'n ymchwilio i'r galw am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hardal a'i

argaeledd, ond lle roedd hyn yn digwydd, roedd y cyfranwyr o'r farn ei fod yn ddefnyddiol o ran llywio'r galw yn y dyfodol.

13.6 At ei gilydd, canfu'r adolygiad fod gan ALlau brosesau clir ar waith i nodi disgyblion sydd angen addysg heblaw yn yr ysgol ac mae ysgolion yn chwarae rhan sylweddol o ran hysbysu ALlau am ddisgyblion a allai fod angen darpariaeth o'r fath. Gwneir defnydd eang hefyd o baneli atgyfeirio, sy'n bodoli ym mhob ALl ond un, ac roedd y rhai a gafodd eu cyfweld o'r farn bod y rhain yn effeithiol o ran sicrhau cysondeb o ran yr arfer atgyfeirio, yn enwedig lle roeddent yn tynnu ar aelodaeth eang a chafwyd presenoldeb da. Roedd ALlau a gyfwelwyd hefyd yn ystyried bod defnyddio ffurflenni atgyfeirio addysg heblaw yn yr ysgol yn arfer effeithiol, yn enwedig y rhai sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddangos pa gamau yr oeddent eisoes wedi'u cymryd i ddiwallu anghenion y disgyblion cyn eu hatgyfeirio. Fodd bynnag, mae lle i gynyddu cysondeb y wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflenni atgyfeirio cyfredol a ddefnyddir gan ALlau.

13.7 Canfu'r adolygiad hefyd fod anghenion, a chanlyniadau addysgol disgyblion fel arfer yn cael eu nodi adeg gwneud atgyfeiriad addysg heblaw yn yr ysgol a'u cadarnhau a'u cydgrynhoi wedi hynny wrth gael mynediad i'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, gellid gwella'r prosesau drwy sicrhau bod deilliannau addysg yn cael eu cytuno'n ysgrifenedig ar y cam atgyfeirio.

13.8 Canfu'r gwaith maes fod unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion yn comisiynu darpariaeth addysg allanol yn rheolaidd. Gwelwyd bod y trefniadau ar gyfer gwneud hynny yn weddol anffurfiol ar lefel ysgol gyda dibyniaeth fawr ar dafod leferydd a defnyddio darparwyr a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan yr ysgolion.

**Comisiynu prosesau sicrhau ansawdd**

13.9 Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad oedd bod 13 ALl yn comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr allanol ac mai darpariaeth alwedigaethol yw'r brif ddarpariaeth a gomisiynir. Mewn 16 o ardaloedd, nododd ALlau fod ysgolion yn comisiynu darpariaeth addysg allanol, ond adroddwyd mewn sawl un o'r achosion hyn fod y ddarpariaeth yn cael ei chynnig drwy weithrediadau ESF megis Cynnydd a TRAC. Mewn

dwy ardal, nid oedd yr ALl yn ymwybodol bod ysgolion yn comisiynu darpariaeth er bod yr adolygiad hwn wedi adnabod bod hynny'n digwydd.

13.10 Mae saith ALl yn gweithredu fframwaith o ddarparwyr cymeradwy addysg heblaw yn yr ysgol a sicrhawyd drwy broses gomisiynu gystadleuol agored ac mae'r dystiolaeth a ddarperir yn awgrymu bod ALlau yn cynnal asesiad manwl o addasrwydd darparwyr yn ystod yr ymarferion tendro hyn. Mae dau arall yn gweithredu naill ai fframwaith neu restr o ddarparwyr drwy lwybr anghystadleuol, lle mae'r ALl yn cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd. Mae trefniadau yn yr ALlau sy'n weddill lle mae darpariaeth yn cael ei chomisiynu gan ddarparwyr allanol yn llai tryloyw ac yn tueddu i gael eu gwneud ar sail achlysurol gan fod darparwyr wedi bod yn cael eu defnyddio ers nifer o flynyddoedd.

13.11 Mae'n ymddangos bod gan ALlau sy'n defnyddio fframwaith o ddarparwyr a benodwyd drwy broses gaffael gystadleuol brosesau trylwyr ar waith i asesu addasrwydd darparwyr. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar bolisïau ac arferion sefydliadol ac, yn y dyfodol, gellid rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd yr addysgu, cynnydd disgyblion a'r gallu i ddarparu ar gyfer dysgwyr y mae'n well ganddynt ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ein barn ni, byddai budd o gael rhestr wirio safonol o ofynion sicrhau ansawdd, megis polisïau ac arferion, y byddai angen i ddarparwyr allanol eu bodloni cyn cyflwyno darpariaeth addysgol.

13.12 Datgelodd y gwaith maes wahaniaethau sylweddol yn y dulliau a'r ymdrech a ddefnyddir i fonitro a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir gan yr ALl ac, o'r herwydd, mae hwn yn faes y dylai canllawiau yn y dyfodol ei flaenoriaethu. Mae'r rhan fwyaf o ALlau yn mabwysiadu contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth gyda darparwyr, er bod y rhain mewn rhai achosion yn cwmpasu gofynion grwpiau o ddisgyblion yn hytrach na disgyblion unigol. Roedd sawl ALl o'r farn y gallent chwarae rhan fwy rhagweithiol, yn enwedig o ran monitro ansawdd y ddarpariaeth ac i ba raddau yr oedd yn diwallu anghenion dysgwyr. Rydym o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau ddarparu strwythur cliriach i ALlau (yn ogystal ag UCD ac ysgolion) er mwyn asesu ansawdd y ddarpariaeth

allanol mewn ffordd fwy systematig, megis rhestr wirio o feysydd i'w monitro a'r rheoleidd-dra disgwyliedig ar gyfer darparwyr sy'n ymweld.

13.13 Canfuwyd bod UCD yn defnyddio dull pwrpasol o roi darpariaeth allanol ar waith ar gyfer disgyblion ac yn mabwysiadu rôl ymarferol iawn o ran ei monitro. Rydym o'r farn y gallai ysgolion efelychu'r arferion effeithiol hyn.

13.14 Gwelwyd bod y defnydd o gontractau neu gytundebau lefel gwasanaeth rhwng ysgolion a darparwyr allanol yn gyfyngedig ac roedd y trefniadau monitro yn anffurfiol ar y cyfan. Rydym o'r farn y dylid mynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn y canllawiau.

**Argymhellion i lywio datblygiad canllawiau Llywodraeth Cymru**

13.15 Deuwn i'r casgliad fod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau manwl ar gomisiynu a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Rydym o'r farn bod rhaid i'r canllawiau gwmpasu comisiynu a rheoli pob math o ddarpariaeth allanol gan gynnwys yr hyn a gomisiynir yn unol ag Adran 19 o'r Ddeddf Addysg a'r darpariaethau yn Neddf Addysg 2002. Rydym yn credu hynny oherwydd gall disgyblion, mewn egwyddor, gael yr un ddarpariaeth gan ddarparwyr allanol, boed hynny drwy lwybr atgyfeirio ffurfiol at addysg heblaw yn yr ysgol neu drwy ddarpariaeth addysg a gomisiynir gan ysgolion.

13.16 Yn ychwanegol at yr argymhellion penodol a nodir isod, rydym hefyd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried mynd i'r afael â'r pedwar mater a ganlyn mewn perthynas â chomisiynu a monitro darpariaeth addysg allanol.

*Annog camau ataliol mewn ysgolion*

13.17 Mae tuedd gynyddol mewn rhai ardaloedd i ALlau ymchwilio i atebion mewnol ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol i ddisgyblion na fyddai UCD yn addas ar eu cyfer. Canfu'r gwaith maes hefyd enghreifftiau o ysgolion yn cymryd camau ataliol cadarnhaol i ddiwallu'n well anghenion disgyblion a fyddai o bosibl wedi cael eu hatgyfeirio at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel arall. Dylai'r ymdrechion hyn gael eu cydnabod a'u hannog o fewn y canllawiau ar yr amod eu bod yn cadw at ofynion deddfwriaethol ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu diogelu'n briodol.

13.18 Nid yw'r arfer o ysgolion yn mabwysiadu dull mwy cynhwysol i ddiwallu anghenion disgyblion a fyddai fel arall yn cael eu hatgyfeirio i addysg heblaw yn yr ysgol yn cael ei annog mewn unrhyw ffordd drwy broses bresennol Llywodraeth Cymru o fonitro perfformiad ysgolion mewn perthynas â chyflawniadau CA4. Mae cwestiwn hefyd ynghylch a yw ysgolion yn sicrhau bod Estyn yn ymwybodol o'r ddarpariaeth oddi ar y safle y maent yn ei threfnu a'i darparu.

*Dull mwy cyson o gofrestru disgyblion ac adrodd arnynt*

13.19 Mae achos clir dros gynnig mwy o safoni a chanllawiau ynghylch statws cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Datgelodd y gwaith maes fod polisïau ALl mewn perthynas â statws cofrestru disgyblion a gaiff eu hatgyfeirio at addysg heblaw yn yr ysgol, yn amrywio o un ardal i'r llall ac ar gyfer gwahanol fathau o ddisgyblion. O ganlyniad, canfu'r gwaith maes anghysondebau o ran sut mae disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol wedi'u cofrestru. Yn wir, mewn nifer fach o achosion, adroddwyd bod gan ddisgyblion gofrestriad sengl ag UCD, hyd yn oed lle nad oedd disgybl erioed wedi mynychu'r UCD. Canfu'r gwaith maes hefyd sawl enghraifft o ddisgyblion blwyddyn 11 yn cael eu datgofrestru a'u cofrestru mewn man arall gan fod parhau i'w cofrestru ar gofrestrau ysgolion ar ôl mis Ionawr yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau perfformiad ysgolion.

13.20 Yn ogystal, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ffordd fanwl i ysgolion adrodd ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth addysg y tu allan i ysgolion prif ffrwd a drefnir a/neu a ddarperir gan ysgolion. Mae hyn yn golygu bod y data a gesglir drwy CYBLD a chyfrifiad o'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn annhebygol o nodi'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg y tu allan i leoliad prif ffrwd, a thrwy hynny arwain at dangofnodi cyffredinol disgyblion sy'n cael darpariaeth allanol. Byddai'n fuddiol i ysgolion ddatgan ac adrodd ar y disgyblion hynny sy'n cael darpariaeth addysg allanol er mwyn casglu data mwy cywir ar y disgyblion hyn.  Er mwyn cyflawni hyn, gallai ALlau gasglu'r data hyn ac adrodd arno i Lywodraeth Cymru.

*Annog a chefnogi ailintegreiddio disgyblion*

13.21 Mae angen i unrhyw ganllawiau yn y dyfodol nodi disgwyliadau mewn perthynas ag ailintegreiddio disgyblion i addysg prif ffrwd. Yn seiliedig ar yr adborth a gasglwyd, credwn ei bod yn briodol bod yr amcan hwn yn cael ei fabwysiadu'n gyffredinol ar gyfer pob disgybl hyd ddiwedd CA3 a bod y canllawiau'n awgrymu dull o fynd i'r afael â hyn e.e. gwneud gwell defnydd o baneli atgyfeirio i adolygu'r achos dros ailintegreiddio disgyblion. Fodd bynnag, byddem yn rhybuddio rhag gorfodi ailintegreiddio ar gyfer disgyblion CA4 ar y sail efallai na fydd dychwelyd i ysgol prif ffrwd o reidrwydd er budd gorau'r disgybl.

*Gwella adroddiadau gan ddarparwyr addysg allanol*

13.22 Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau nodi'r isafswm o ddata ac adroddiadau y gellid disgwyl i ddarparwyr allanol eu rhannu gydag ALlau, UCD ac ysgolion, gan fod hwn yn un maes lle y mynegodd ALlau rywfaint o anfodlonrwydd ag ansawdd y wybodaeth a oedd yn cael ei hanfon atynt. Gallai'r adroddiadau gwmpasu ymgysylltiad disgyblion, presenoldeb, ymddygiad a chynnydd a chyflawniad addysgol. Gellid cysoni hyn â datblygu mesurau perfformiad priodol y gallai ALlau, UCD ac ysgolion eu mabwysiadu i fonitro unrhyw ddarpariaeth allanol.

13.23 Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru eu mabwysiadu o fewn ei chanllawiau comisiynu:

| **Dull gweithredu cyffredinol** |
| --- |
| 1. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n anelu'n glir at atgyfnerthu deddfwriaeth a chanllawiau presennol mewn perthynas â'r hyn yw addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir gan ALl a darpariaeth amgen, yn ogystal â darpariaeth addysg a gomisiynir gan ysgolion, er mwyn gwella dealltwriaeth ymarferwyr. |
| 2. Rydym yn argymell y dylai'r canllawiau fod yn berthnasol i gomisiynu a rheoli'r holl ddarpariaeth addysg allanol a ddarperir gan ALlau, ysgolion neu UCD ledled Cymru. |

| Nodi hawliau'r disgybl |
|---|
| 3. Dylai'r canllawiau amlinellu hawliau'r disgybl a'r hyn y gall ei ddisgwyl yn ystod y broses atgyfeirio a beth i'w ddisgwyl os ydyn yn cael mynediad at addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysg allanol. Gellid nodi hyn mewn canllaw hawdd ei ddeall i bobl ifanc. |
| **Cynllunio darpariaeth addysg allanol ac atgyfeirio at y ddarpariaeth honno** |
| 4. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n amlinellu:<br>• dull gweithredu ac enghraifft o amserlen y dylai ALlau, mewn cydweithrediad ag ysgolion, UCD a darparwyr, eu mabwysiadu er mwyn adolygu a nodi'r cyflenwad a'r galw mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hardal, a hynny'n rheolaidd<br>• y wybodaeth y byddai disgwyl iddi gael ei chynnwys ar ffurflenni atgyfeirio a ddefnyddir gan ysgolion wrth atgyfeirio disgyblion at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Dylai ffurflenni atgyfeirio, fan leiaf, nodi'r ymateb graddedig a fyddai'n ddisgwyliedig gan ysgolion cyn atgyfeirio disgybl i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac awgrymu trothwy addas lle y dylai ysgolion fod yn atgyfeirio disgyblion i gael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol<br>• yr angen i ALlau ddefnyddio paneli atgyfeirio mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau nodi'r cylch gorchwyl a'r aelodaeth ddisgwyliedig ar gyfer paneli atgyfeirio. Gallai'r canllawiau hefyd amlinellu sut y gallai paneli atgyfeirio gefnogi'r amcan o ailintegreiddio disgyblion yn ôl i addysg prif ffrwd, lle bo hynny'n briodol. Dylid cynnwys ysgolion fel aelodau o baneli atgyfeirio. |

| Comisiynu darpariaeth addysg allanol |
| --- |
| 5. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n cynnwys rhestr wirio fanwl ar gyfer sicrhau ansawdd i'r rhai sy'n comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysg allanol er mwyn asesu addasrwydd darparwyr allanol, sy'n cynnwys:<br>• gwirio statws cofrestru darparwyr a sicrhau nad yw unrhyw ddarpariaeth addysg sy'n mynd yn groes i'r rheoliadau ynghylch cofrestru yn cael ei defnyddio<br>• rhestr briodol o bolisïau ac arferion sefydliadol y byddai disgwyl i ddarparwyr eu rhoi ar waith. Awgrymwn y dylai'r rhain gynnwys polisïau ymddygiad disgyblion, cynlluniau cwricwlwm, trefniadau diogelu disgyblion, polisi gwrth-fwlio, polisi iechyd a diogelwch, ansawdd adeiladau a chymwysterau a phrofiadau staff<br>• asesiad priodol o ansawdd yr addysgu a gynigir gan y darparwr<br>• gwybodaeth ysgrifenedig am rwydweithio cymdeithasol a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol<br>• gwybodaeth ysgrifenedig am ddisgwyliadau'r comisiynydd ynghylch amddiffyn plant y dylid ei dilyn os oes gan ddarparwyr bryderon am ddisgybl<br>• gwybodaeth ysgrifenedig am sut y dylid hysbysu'r comisiynydd ynghylch presenoldeb disgyblion a gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw absenoldeb. |
| **Monitro a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth** |
| 6. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n amlinellu'r hyn sy'n ofynnol o gyrff comisiynu o ran camau i fonitro a sicrhau ansawdd unrhyw ddarpariaeth addysg allanol. Yn benodol, rydym yn argymell:<br>• y gallai fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau gynnwys rhestr wirio y gallai ALlau, ysgolion neu UCD ei defnyddio i fonitro unrhyw ddarpariaeth a gomisiynir yn allanol. Byddem yn argymell bod y |

rhestr wirio yn ystyried cynnydd a chyflawniadau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth, y trefniadau arwain a rheoli a roddwyd ar waith gan ddarparwyr, yn ogystal â threfniadau datblygu a hyfforddi staff darparwyr.

- dylid annog y rhai sy'n comisiynu darpariaeth addysg i werthuso'n systematig ansawdd yr addysgu a'r dysgu a ddarperir i ddisgyblion
- dylai'r rhai sy'n comisiynu darpariaeth addysg asesu effaith addysgu a dysgu ar gynnydd disgyblion tuag at y cymwysterau y maent yn eu hastudio.

**Y disgwyliadau o ran cyrff comisiynu**

7. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n nodi'r cyfrifoldebau y disgwylir i ALlau, ysgolion ac UCD eu hysgwyddo wrth gomisiynu darpariaeth addysg. Disgwyliwn i'r rhain gynnwys:

- y trefniadau lles disgyblion y disgwylir iddynt eu rhoi ar waith mewn perthynas â diogelu yn ogystal ag iechyd a diogelwch
- gwybodaeth ar lefel disgyblion y dylai'r ysgol neu'r UCD ei rhannu gyda'r darparwr cyn i'r lleoliad gychwyn
- natur yr ohebiaeth rhwng yr ALl, yr ysgol neu'r UCD a'r disgybl a'r rhiant/gofalwr yn ystod y broses atgyfeirio a'r lleoliad ei hun
- y wybodaeth ysgrifenedig sy'n ofynnol mewn perthynas ag amcanion y lleoliad, canlyniadau addysgol a thargedau ffurfiol yn ymwneud â chymwysterau (lle bo hynny'n briodol) ar gyfer y disgybl
- yr hyn sy'n ofynnol o ran monitro cynnydd disgyblion yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt
- yr hyn a ddisgwylir gan y corff comisiynu o ran monitro ymweliadau, gan gynnwys pa mor rheolaidd y dylai ymweld â'r darparwr i adolygu'r lleoliad

- y cynlluniau ar gyfer monitro presenoldeb a'r trefniadau ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw gyfnod o absenoldeb
- trefniadau trafnidiaeth er mwyn i'r disgybl fynychu'r lleoliad
- cynlluniau ar gyfer sicrhau bod y disgybl yn parhau i fod yn aelod o gymuned yr ysgol
- cynlluniau ar gyfer ailintegreiddio disgybl i'r ysgol, pe bai'n briodol gwneud hynny
- y camau y disgwylir i'r ysgol a'r UCD eu cymryd i adolygu'r canlyniadau y mae'r disgybl yn eu cyflawni ac ansawdd y ddarpariaeth allanol
- y gofyniad i ysgolion ac UCD adrodd yn gywir ar y disgyblion hynny sy'n cael mynediad i ddarpariaeth addysg allanol.

**Y disgwyliadau o ran darparwyr allanol**

8. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n amlinellu'r cyfrifoldebau y disgwylir i ddarparwyr allanol eu hysgwyddo. Byddem yn disgwyl i'r rhain gynnwys:

- sut y maent yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac a ydynt wedi'u diffinio a'u cofrestru fel ysgol annibynnol
- pa bolisïau a gweithdrefnau y byddai disgwyl iddynt eu rhoi ar waith i sicrhau bod lles, addysg a diogelwch disgyblion yn cael eu cynnal
- yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran eu cysylltiad a'u cyfathrebu â'r corff comisiynu a rhiant/gofalwr y disgybl
- erbyn pryd y byddai disgwyl iddynt gynnal asesiad cychwynnol o anghenion addysg y disgybl a'r hyn y dylai'r asesiad hwn ei gynnwys
- yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran hysbysu'r corff comisiynu am bresenoldeb ac absenoldeb disgyblion: mae adolygiad o

| |
|---|
| ganllawiau eraill yn awgrymu y byddai hyn yn digwydd ddwywaith y dydd<br>• yr hyn a fyddai'n ddisgwyliedig ohonynt o ran adrodd ar gynnydd disgybl i'r corff comisiynu a pha mor rheolaidd y dylid gwneud hynny: byddem yn disgwyl i hyn gwmpasu ymgysylltiad y disgybl, presenoldeb, ymddygiad a chynnydd a chyflawniad addysgol. |
| **Y disgwyliadau o ran ALlau** |
| 9. Rydym yn argymell bod y canllawiau'n nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'r ALl o ran cefnogi darpariaeth a gomisiynir gan ysgolion. Rydym yn argymell y dylai ALlau:<br>• ddatblygu a rhannu cyfeirlyfr neu fframwaith o ddarparwyr sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd y gall ysgolion eu defnyddio i gomisiynu darpariaeth ohono<br>• cael polisi ysgrifenedig i gefnogi ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth addysg allanol<br>• cynnal archwiliad blynyddol i fonitro a yw ysgolion yn comisiynu darpariaeth addysg allanol ai peidio ac adrodd i Lywodraeth Cymru ar nifer yr ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth, y disgyblion sy'n defnyddio darpariaeth o'r fath a natur y ddarpariaeth a ddefnyddir. |

# Atodiad A: Offerynnau ymchwil

## Canllaw Trafod Lled-Strwythuredig - Awdurdodau Lleol

**A Ymwneud ag addysg heblaw yn yr ysgol**

**1** Dywedwch wrthyf am:

a Eich rôl

b Eich ymwneud â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol - ydych chi'n ymwneud â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol/mathau penodol o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

**B Y dull cyffredinol o ymdrin â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

**2** Sut mae'r awdurdod lleol yn diffinio darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? Holwch...

a a yw'r diffiniad o addysg heblaw yn yr ysgol wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth a ariennir gan yr ALl yn unig?

**3** Beth yw dull presennol yr ALl o ddarparu addysg i blant sy'n cael anawsterau yn yr ysgol?

**4** A yw [enw'r ALl] yn gweithio gydag ALlau eraill i gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

**5** A yw ysgolion yn ardal yr ALl yn comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol? [noder: gofynnir cwestiynau eraill o C38 isod]

**C Dull yr ALl o nodi'r galw a'r cyflenwad o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

**6** A yw'r awdurdod lleol yn cynnal dadansoddiad o'r galw am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn ardal yr ALl ac argaeledd darpariaeth o'r fath?

**D Dull yr ALl o ariannu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

**7** Sut mae cyllidebau ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol yn cael eu pennu?

**E Lleoli plentyn mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol - nodi anghenion a deilliannau addysgol**

**8** Sut mae'r awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol bod angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar blentyn?

**9** Pwy sy'n gwneud y penderfyniad ynghylch a oes angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? [Holwch - a oes panel atgyfeirio addysg heblaw yn yr ysgol gan yr ALI?]

**10** Pa dystiolaeth a ddefnyddir i asesu a oes angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

**11** Pa mor gyson yw'r arferion atgyfeirio ar draws yr ALI?

**12** Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r arferion atgyfeirio a ddefnyddir ar draws yr ALI?

**13** A yw anghenion y plentyn yn cael eu nodi ar yr un pryd â'r penderfyniad ynghylch a oes angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

**14** A yw deilliannau addysgol (cyrhaeddiad, presenoldeb, llesiant ac ati) ar gyfer y plentyn yn cael eu nodi ar yr un pryd â'r penderfyniad ynghylch a oes angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

**F Ble mae'r ALI yn comisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol - Lleoli plant unigol gyda darparwyr allanol**

**15** a Beth yw sail y penderfyniad i leoli plentyn gyda darparwr allanol addysg heblaw yn yr ysgol?

b Pwy sy'n gwneud y penderfyniad i leoli plentyn gyda darparwr allanol addysg heblaw yn yr ysgol?

**G Dull yr ALI o gomisiynu darpariaeth allanol**

**16** Lle mae'r awdurdod lleol yn comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr allanol:

a Pa fath o ddarpariaeth y mae'r awdurdod lleol yn comisiynu darparwyr allanol i'w darparu?

b Pam mae'r awdurdod lleol yn comisiynu'r ddarpariaeth hon yn allanol?

c. Beth yw'r cydbwysedd rhwng darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a ddarperir yn uniongyrchol gan yr ALI a'r hyn a ddarperir gan ddarparwyr a gomisiynir yn allanol?

d A oes gan yr awdurdod lleol restr o ddarparwyr cymeradwy? Os felly, faint o ddarparwyr sydd ar y rhestr?

e A yw'r awdurdod lleol yn defnyddio fframwaith comisiynu? Os felly, faint o ddarparwyr sydd ar y fframwaith?

f Faint o ddarparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol y mae'r ALI yn eu defnyddio ar hyn o bryd?

**Os nad yw'r ALI yn defnyddio rhestr neu fframwaith, ewch i C 24**

**Os oes gan yr awdurdod lleol restr a fframwaith, gofynnwch gwestiynau 17 i 23 am y rhestr ac yna ailadroddwch yr un cwestiynau am y fframwaith**

**17** Os oes gan yr awdurdod lleol restr o ddarparwyr cymeradwy a/neu'n defnyddio fframwaith comisiynu…

a Beth ydych chi'n teimlo yw manteision/anfanteision defnyddio rhestr gymeradwy/fframwaith comisiynu

b Sut mae'r awdurdod lleol yn nodi darparwyr i'w cynnwys ar y rhestr/fframwaith? E.e. a yw'r awdurdod lleol yn hysbysebu'r cyfle i ddarparwyr gael eu cynnwys ar y rhestr/fframwaith?

c A yw'r awdurdod lleol yn cynnal asesiad o addasrwydd cyn cynnwys y darparwr ar y rhestr/fframwaith?

**18** Os yw'r awdurdod lleol yn cynnal asesiad o addasrwydd darparwr, pa feini prawf a ddefnyddir?

**19** Pan fyddwch yn comisiynu darpariaeth drwy'r rhestr o ddarparwyr/fframwaith comisiynu...

a Ydych chi'n hysbysebu ac yn dyfarnu contractau ar gyfer lleoliadau unigol a/neu'n defnyddio contractau lleoli bloc (hynny yw, sicrhau nifer o leoliadau ar yr un pryd?)

**20** A ddefnyddir dull cystadleuol neu a oes un darparwr ar y rhestr/fframwaith yn cael ei ddefnyddio?

Ydych chi'n teimlo bod unrhyw fanteision/anfanteision i ddefnyddio'r dull hwn?

**21** [Os defnyddir dull cystadleuol] Pa feini prawf asesu a ddefnyddir i ddyfarnu'r contractau?

**22** [Lle y defnyddir dull cystadleuol] Pwy sy'n ymwneud â'r asesiad i ddyfarnu'r contract?

A yw panel o bobl yn ymwneud â hyn? Os felly, pwy sydd ar y panel?

**23** [Os na ddefnyddir dull cystadleuol] Beth yw'r meini prawf ar gyfer dyfarnu contract?

[Os nad oes gan yr awdurdod lleol restr o ddarparwyr cymeradwy/os nad yw'n defnyddio fframwaith comisiynu]

**24** Pa broses a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol i gomisiynu lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr allanol?

## H Contract rhwng yr awdurdod lleol a darparwr addysg heblaw yn yr ysgol

**25** A oes gan yr awdurdod lleol gontract gyda phob darparwr a gomisiynir i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol?

**26** [Lle mae'r awdurdod lleol yn rhoi contractau neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth ar waith ar gyfer lleoliadau unigol]

a A yw contractau unigol yn cael eu rhoi ar waith cyn i'r lleoliadau ddechrau?

b Os nad ydynt, pryd mae contractau'n cael eu sefydlu?

c Beth yw cynnwys y contract neu'r cytundeb lefel gwasanaeth?

## I Gweithgareddau yn dilyn dyfarnu contract/cadarnhau darparwr sy'n cael ei gomisiynu i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol

**27** Beth sy'n digwydd ar ôl i'r contract gael ei ddyfarnu/ar ôl comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol?

**28** Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau eich dull gweithredu ar ôl dyfarnu contract?

## J Cofrestru a chynlluniau ailintegreiddio

**29** Beth yw'r polisi mewn perthynas â statws cofrestru disgyblion sy'n cael eu hatgyfeirio at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? E.e. cofrestriad sengl gyda'r ysgol neu UCD/cofrestriad deuol?

**30** Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dull cofrestru presennol?

**31** Beth yw polisi'r ALl ar reoli ailintegreiddio disgyblion i addysg prif ffrwd?

**32** Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dull ailintegreiddio presennol?

## K Rheoli ac Adolygu Darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol

**33** Pa ddata ar lefel disgyblion sy'n cael eu casglu am bobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol?

**34** Pa ddata eraill ar lefel disgyblion y gallai fod yn ddefnyddiol eu casglu?

**35** Sut mae ansawdd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn cael ei fonitro a'i reoli?

**36** Pa ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth?

**37** A ymwelir ag adeiladau'r darparwyr wrth asesu ansawdd y ddarpariaeth?

**L Darpariaeth allanol wedi'i hariannu gan ysgolion**

**38** A oes gan yr awdurdod lleol bolisi ar ysgolion yn comisiynu darpariaeth gan wasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol?

**39** Lle mae'r awdurdod lleol yn cytuno ag ysgolion yn comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol…

a A yw'r ALl yn ymwneud o gwbl ag atgyfeiriadau at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir gan ysgolion?

b A yw'r awdurdod lleol yn ymwneud o gwbl â chomisiynu neu fonitro darpariaeth a gomisiynir gan ysgolion?

c Beth yw barn yr ALl ar gofrestru disgyblion y mae'r ysgol wedi comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar eu cyfer?

d A yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol i ba raddau y mae ysgolion yn dilyn polisi'r ALl ar ysgolion yn comisiynu darpariaeth gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol?

e Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau dull yr ALl o adael i ysgolion gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn uniongyrchol?

**40** Lle nad yw'r awdurdod lleol yn cytuno ag ysgolion yn comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol…

i A yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol i ba raddau y mae ysgolion yn dilyn polisi'r ALl ar ysgolion yn comisiynu darpariaeth gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol?

ii Os daw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, a yw'r ALl yn cymryd unrhyw gamau? Os felly, pa gamau a gymerir?

iii Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau dull yr ALl o adael i ysgolion gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn uniongyrchol?

**41** Lle mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol…

a Pa fath o ddarpariaeth addysg allanol y mae ysgolion yn tueddu i'w chomisiynu?

b Pam mae ysgolion yn comisiynu'r ddarpariaeth hon yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy eu ALlau?

## M Canllawiau Llywodraeth Cymru yn y Dyfodol

**42** Pa ganllawiau y gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi mewn perthynas â chomisiynu a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

Canllaw Trafod Lled-Strwythuredig - Rhanddeiliaid

**A. Ymwneud ag addysg heblaw yn yr ysgol**

1. Dywedwch wrthyf am
   - Eich rôl
   - Eich sefydliad

2. Ym mha ffordd mae gennych chi/eich sefydliad ddiddordeb mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, neu sut ydych chi/sut mae eich sefydliad yn ymwneud â'r ddarpariaeth?

**B. Dull cyffredinol o ymdrin â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

3. Beth yw eich dealltwriaeth o'r hyn yw darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

4. Ydych chi'n ymwybodol o'r dulliau y mae ALlau yn eu mabwysiadu ar hyn o bryd i ddarparu addysg i blant sy'n cael anawsterau yn yr ysgol? e.e. eu rhoi mewn unedau o fewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, darpariaeth a gomisiynir yn allanol, dull cymysg ac ati?

5. Ydych chi'n ymwybodol o ALlau sy'n comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr allanol - er enghraifft darparwyr yn sector preifat, ysgolion annibynnol a cholegau?

6. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ALlau sy'n comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar y cyd?

7. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol?

8. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw UCD sy'n comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol?

**C Nodi'r galw a'r cyflenwad o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

9. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ALlau sy'n cynnal dadansoddiad o'r galw am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac argaeledd darpariaeth o'r fath yn eu hardal?

**D Dull o ariannu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

10. A oes gennych farn ar y rôl a allai fod gan gyllidebau wrth lunio dulliau gweithredu ALlau ar ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

**E Lleoli plentyn mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol - nodi anghenion a deilliannau addysgol**

11. Ydych chi'n ymwybodol o sut mae ALlau yn dod yn ymwybodol o blentyn sydd angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? Hynny yw, y prosesau atgyfeirio a ddefnyddir.

12. Wrth feddwl am y broses o'r cam atgyfeirio i leoliad, ydych chi'n credu bod anghenion y plentyn wedi'u nodi ar yr adeg iawn a chan y person(au) iawn?

13. Wrth feddwl am y broses o'r cam atgyfeirio i leoliad, ydych chi'n meddwl bod deilliannau addysgol (cyrhaeddiad, presenoldeb, llesaint ac ati) y plentyn wedi'u nodi ar yr adeg iawn a chan y person(au) iawn?

**F Comisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol**

14. Ydych chi'n ymwybodol o'r mathau o ddarpariaeth y mae ALlau yn comisiynu darparwyr allanol i'w cynnig (megis cyrsiau galwedigaethol)?

15. Ydych chi'n ymwybodol o restrau gweithredu ALlau o ddarparwyr cymeradwy neu'n defnyddio fframweithiau comisiynu? [Mae defnyddio rhestrau/fframweithiau cymeradwy yn golygu y byddai'r ALl ond yn cysylltu â'r rhai ar y rhestr yn unig, ni fyddai'r contract yn cael ei hysbysebu'n gyhoeddus]

16. Ydych chi'n ymwybodol o'r asesiad o addasrwydd y mae ALlau yn ei ddefnyddio cyn cynnwys darparwyr ar y rhestr neu'r fframwaith?

17. Ydych chi'n ymwybodol o ALlau yn defnyddio dull cystadleuol i gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

18. Yn eich barn chi, beth fyddai'n bwysig ei ystyried wrth asesu pa ddarparwr y dylid dyfarnu contract iddo i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol? [Defnyddiwch y rhestr uchod fel awgrymiadau os oes angen]

19. Ydych chi'n ymwybodol o ALlau nad ydynt yn defnyddio rhestr neu fframwaith cymeradwy i gomisiynu lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol (fel yr awdurdod lleol yn hysbysebu pob contract yn gyhoeddus?)

## G Contract rhwng yr ALl a darparwr addysg heblaw yn yr ysgol

20. Ydych chi'n ymwybodol o ba mor gyffredin yw hi i ALlau roi contractau neu CLG i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol? Ar gyfer darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, a yw awdurdodau lleol yn rhoi contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth i'ch sefydliad? / Ar gyfer gweithwyr ALlau, a yw ALlau yn cyhoeddi contractau neu CLG?

21. [Lle bo hynny'n berthnasol] a ydych yn ymwybodol o'r hyn y mae ALlau yn ei gynnwys mewn contractau neu CLG?

## H Gweithgareddau yn dilyn dyfarnu contract/cadarnhau darparwr sy'n cael ei gomisiynu i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol

22. Ydych chi'n ymwybodol o'r camau a gymerir amlaf gan ALlau ar ôl dyfarnu neu gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

23. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dulliau gweithredu a fabwysiadir gan yr ALl(au) ar ôl dyfarnu contract?

## I Cofrestru a chynlluniau ailintegreiddio

24. Ydych chi'n ymwybodol o'r dulliau presennol a fabwysiadwyd gan ALlau i gofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol?

25. Ydych chi'n ymwybodol o'r dulliau presennol a fabwysiadwyd gan ALlau i ailintegreiddio disgyblion yn ôl i addysg prif ffrwd?

## J Rheoli ac adolygu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol

26. Pa mor briodol yw'r data presennol ar lefel disgyblion sy'n cael eu casglu am bobl ifanc sy'n cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

27. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol y mae ALlau yn monitro ansawdd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir ganddynt?

## K Darpariaeth allanol a ariennir gan ysgolion ac UCD

28. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth addysgol?

29. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw UCD sy'n comisiynu darpariaeth addysgol? Os felly,

## L Canllawiau Llywodraeth Cymru yn y Dyfodol

30. Pa ganllawiau, os o gwbl, y gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi mewn perthynas â chomisiynu a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

## Canllaw Trafod Lled-Strwythuredig - Ysgolion

**A Cefndir**

1. Dywedwch wrthyf am
   - Eich rôl
   - Eich ysgol

**B. Dull cyffredinol o ymdrin â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

2. Beth yw eich dealltwriaeth o'r hyn yw darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

3. Ym mha ffordd y mae eich ysgol yn ymwneud â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

4. Ym mha ffordd y mae eich ysgol yn ymwneud â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a drefnir gan yr ALl?

5. A yw eich ysgol yn comisiynu unrhyw fath o ddarpariaeth addysg allanol yn uniongyrchol?

**C Lleoli plant unigol gyda darparwyr allanol**

6. [Dylid teilwra hyn fel y bo'n briodol ar gyfer darpariaeth a gomisiynir gan ysgolion neu ddarpariaeth a gomisiynir gan yr ALl] Beth yw sail y penderfyniad i leoli plentyn gyda darparwr allanol addysg heblaw yn yr ysgol?

**D Ar gyfer ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth allanol yn uniongyrchol**

7. Pa fath o ddarpariaeth addysg allanol ydych chi wedi'i chomisiynu ar gyfer plant sy'n cael anawsterau mynychu neu sy'n methu â mynychu ysgol prif ffrwd?

8. Sut mae'r ysgol yn mynd ati i nodi darparwyr allanol?

9. [Lle mae'r ysgol yn comisiynu darpariaeth ond nad yw'n defnyddio rhestr ALl o ddarparwyr cymeradwy/fframwaith comisiynu] Pa weithgareddau mae'r ysgol yn eu gwneud i asesu addasrwydd darparwyr allanol?

10. [Lle mae'r ysgol yn comisiynu darpariaeth ond nad yw'n defnyddio rhestr ALl o ddarparwyr cymeradwy/fframwaith comisiynu] Sut mae'r ysgol yn mynd ati i gomisiynu darpariaeth?

11. [Lle mae'r ysgol yn comisiynu darpariaeth ond nad yw'n defnyddio rhestr ALl o ddarparwyr cymeradwy/fframwaith comisiynu] Pa mor effeithiol yw'r prosesau a fabwysiadwyd gan yr ysgol i gomisiynu lleoliadau allanol?

12. A yw'r ysgol yn rhoi contractau neu CLG i ddarparwyr sy'n cael eu comisiynu'n uniongyrchol?

13. Pa gamau mae'r ysgol yn eu cymryd ar ôl dyfarnu neu gomisiynu darpariaeth?

14. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dulliau gweithredu a fabwysiadir gan yr ysgol ar ôl dyfarnu contract?

## E Dull o ariannu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

15. Beth yw eich barn am sut mae'r ALl yn gosod ei gyllideb ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol?

16. [Lle mae ysgol wedi comisiynu darpariaeth addysg allanol ar gyfer plant nad ydynt yn gallu mynychu ysgol prif ffrwd] Beth yw cyllideb flynyddol nodweddiadol yr ysgol ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol?

## F Lleoli plentyn mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol - nodi anghenion a deilliannau addysgol

17. Sut mae'r ALl yn dod yn ymwybodol bod angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar ddisgybl yn eich ysgol?

18. Beth yw cryfderau a gwendidau'r arferion atgyfeirio a fabwysiadwyd ar draws yr ALl?

19. A yw anghenion y plentyn yn cael eu nodi ar yr un pryd â'r penderfyniad ynghylch a oes angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

20. A yw deilliannau addysgol (cyrhaeddiad, presenoldeb, llesiant ac ati) ar gyfer y plentyn yn cael eu nodi ar yr un pryd â'r penderfyniad ynghylch a oes angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

**G Ar gyfer ysgolion lle mae darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol allanol yn cael ei chomisiynu gan yr ALI**

21. Pa fath o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol gan ALI y mae disgyblion yn eich ysgol wedi'i defnyddio?

22. Pa mor effeithiol yw'r prosesau a fabwysiadwyd gan yr ALI i nodi darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol?

23. Pa mor effeithiol yw'r prosesau a fabwysiadwyd gan yr ALI i gomisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol?

24. Ydych chi'n ymwybodol a yw'r ALI yn cyhoeddi contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol?

25. Pa gamau y mae'r ALI yn eu cymryd ar ôl dyfarnu neu gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol i ddisgyblion yn eich ysgol?

26. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau y dulliau gweithredu a fabwysiadir gan yr ALI ar ôl dyfarnu contract?

**H Cofrestru a chynlluniau ailintegreiddio**

27. Beth mae'r ALI yn ei ddisgwyl gan yr ysgol o ran statws cofrestru disgyblion sy'n cael eu hatgyfeirio at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? A oes gan y disgyblion gofrestriad sengl wedi'u cofrestru gyda'r ysgol neu a oes ganddynt gofrestriad deuol?

28. Beth yw cryfderau a gwendidau'r dull presennol o gofrestru statws disgyblion sy'n cael eu hatgyfeirio at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

29. Pa mor effeithiol y mae disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu hailintegreiddio i addysg prif ffrwd?

**I Rheoli ac adolygu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol**

30. Ydych chi'n ymwybodol o'r data sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd am blant sy'n cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

31. Os felly, a ydych yn teimlo bod y data sy'n cael eu casglu am blant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn briodol? Pa ddata eraill, os o gwbl, ar lefel disgyblion y gallai fod yn ddefnyddiol eu casglu? Pam ydych chi'n dweud hyn?

32. [Lle mae'r ysgol yn comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol] Sut mae'r ysgol yn monitro ac yn rheoli ansawdd y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda'r ysgol/sydd â chofrestriad deuol?

33. [Ar gyfer ysgolion lle mae darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol (hefyd) yn cael ei chomisiynu gan yr ALl] Sut mae'r ALl yn monitro ac yn rheoli ansawdd y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir?

34. [Gofynnwch y cwestiwn hwn (i) os yw'r ysgol yn comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a (ii) i ysgolion lle mae darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol (hefyd) yn cael ei chomisiynu gan yr ALl, neu'r ddau] Pa ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth?

35. [Gofynnwch y cwestiwn hwn (i) os yw'r ysgol yn comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a (ii) i ysgolion lle mae darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol allanol (hefyd) yn cael ei chomisiynu gan yr ALl] A yw'r ysgol yn ymweld ag adeiladau darparwyr i asesu ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol sydd wedi'u cofrestru gyda'r ysgol/sydd â chofrestriad deuol?

## J Darpariaeth allanol wedi'i hariannu gan ysgolion

36. [Gofynnwch hwn dim ond i ysgolion nad ydynt yn comisiynu darpariaeth allanol yn uniongyrchol] Beth yw safbwynt yr ALl o ran ysgolion yn comisiynu darpariaeth gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol? h.y. a yw'n cytuno neu'n anghytuno?

37. [Lle mae'r ALl yn cytuno gydag ysgolion yn comisiynu darpariaeth] Pa rôl sydd gan yr ALl mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir gan ysgolion?

38. [Lle nad yw'r ALl yn cytuno gydag ysgolion yn comisiynu darpariaeth] Sut mae'r ALl yn ymateb i arfer yr ysgol o gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

## K Canllawiau Llywodraeth Cymru yn y Dyfodol

39. Pa ganllawiau, os o gwbl, y gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi mewn perthynas â chomisiynu a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

## Canllaw Trafod Lled-Strwythuredig - UCD

**A Cefndir**

1. Dywedwch wrthyf am:
    - Eich rôl

2. Beth yw eich dealltwriaeth o'r hyn yw darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

**B Dull cyffredinol o ymdrin â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn ardal yr awdurdod lleol**

3. Pa ddull a fabwysiadwyd gan yr ALl i ddarparu addysg i blant sy'n profi anawsterau yn yr ysgol? e.e. eu lleoli mewn unedau o fewn ysgolion, unedau atgyfeirio disgyblion (UCD), darpariaeth a gomisiynir gan ddarparwyr annibynnol gan gynnwys colegau, dull cymysg ac ati?

4. Ydych chi'n ymwybodol o ysgolion yn ardal yr ALl sy'n comisiynu darpariaeth addysg yn uniongyrchol ar gyfer plant sy'n profi anawsterau yn yr ysgol, megis gan ddarparwyr annibynnol addysg heblaw yn yr ysgol, colegau ac ysgolion annibynnol?

5. Beth yw eich barn am ysgolion yn comisiynu darpariaeth addysg yn uniongyrchol ar gyfer plant sy'n cael anawsterau yn yr ysgol?

6. Ydych chi'n ymwybodol o safbwynt ALl ynghylch ysgolion yn comisiynu darpariaeth yn uniongyrchol ar gyfer plant sy'n cael anawsterau yn yr ysgol? (er enghraifft, darparwyr annibynnol addysg heblaw yn yr ysgol, colegau, ysgolion annibynnol ac ati). Hynny yw, a yw'r awdurdod lleol yn cytuno neu'n anghytuno ag ysgolion yn gwneud hyn?

7. [Lle mae'r ALl yn cytuno gydag ysgolion yn comisiynu darpariaeth] Ydych chi'n ymwybodol a oes gan yr ALl rôl mewn perthynas â darpariaeth a gomisiynir gan ysgolion?

8. [Lle nad yw'r ALl yn cytuno ag ysgolion yn comisiynu darpariaeth] Ydych chi'n ymwybodol o sut mae'r ALl yn ymateb i ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth addysg gan ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol?

**C. Cyllido darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

9. A oes unrhyw agweddau ar drefniadau cyllido neu gyllideb yr ydych yn teimlo eu bod yn effeithio ar ddull yr ALl o ymdrin â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

**D. Darpariaeth a gynigir gan yr UCD**

10. Pa fathau o ddarpariaeth addysg y mae'r UCD yn ei cynnig?

11. Faint o ddisgyblion sy'n cael eu lleoli yn yr UCD yn nodweddiadol?

**E. Lleoli plentyn mewn UCD - nodi anghenion a deilliannau addysgol**

12. Sut y cewch eich hysbysu am ddisgybl a allai elwa o leoliad yn yr uned?

13. Sut mae'r penderfyniad i leoli plentyn yn yr uned yn cael ei wneud?

14. Pryd mae anghenion y plentyn yn cael eu nodi? A ydynt yn cael eu nodi cyn cysylltu â'r UCD? Pan gytunwyd ar y lleoliad? Pan fydd y lleoliad yn dechrau?

15. Pryd mae deilliannau addysgol (cyrhaeddiad, presenoldeb, llesiant ac ati) ar gyfer y disgybl yn cael eu nodi? (Hynny yw, pa ddeilliannau y gall y disgybl eu cyflawni). A ydynt yn cael eu nodi cyn cysylltu â'r UCD? Pan gytunwyd ar y lleoliad? Pan fydd y lleoliad yn dechrau?

**H. Cofrestru a chynlluniau ailintegreiddio**

16. Beth yw dull yr ALl o ymdrin â statws cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol?

17. Beth yw dull yr ALl o ailintegreiddio disgyblion UCD yn ôl i'r ysgol prif ffrwd?

**G. Darpariaeth addysg y tu allan i'r UCD**

[Lle mae disgyblion yr UCD yn manteisio ar ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol o leoliadau eraill yn ogystal â'r UCD]

18. A yw'r ddarpariaeth yn cael ei threfnu gan yr ALl?

[Lle mae'r UCD yn comisiynu/trefnu darpariaeth allanol addysg addysg heblaw yn yr ysgol/darpariaeth addysg i'w disgyblion mewn lleoliadau heblaw'r UCD]

19. Faint o ddisgyblion sy'n cael darpariaeth allanol fel rheol yn ystod blwyddyn academaidd?

20. Pa fath o ddarpariaeth y mae disgyblion wedi ei chael?

21. Sut mae'r UCD yn penderfynu bod angen i ddisgybl yn eich sefydliad gael darpariaeth allanol?

**H. Arferion a phrosesau sy'n ymwneud â chomisiynu/trefnu darparwyr**

22. Sut mae'r UCD yn mynd ati i nodi darparwyr?
    - A yw'r UCD yn cynnal asesiad o addasrwydd darparwr cyn cynnwys y darparwr ar y rhestr/fframwaith?

23. Pan fydd yr UCD yn cynnal asesiad o addasrwydd, pa feini prawf a ddefnyddir?

24. A yw lleoedd yn cael eu comisiynu ar gyfer plant unigol neu a yw lleoedd yn cael eu comisiynu ar gyfer nifer o leoedd ar yr un pryd?

25. Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision defnyddio'r rhestr gymeradwy/fframwaith comisiynu?

26. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dull a fabwysiadwyd gan yr UCD tuag at gomisiynu/trefnu darpariaeth allanol?

Lle nad yw'r UCD yn defnyddio rhestr gymeradwy/fframwaith comisiynu:

27. Pa brosesau a ddefnyddir gan yr UCD i gomisiynu/trefnu darpariaeth gyda darparwyr allanol?

28. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dull a fabwysiadwyd gan yr UCD tuag at gomisiynu/trefnu darpariaeth allanol?

**I. Trefniadau cytundebol a chytundebau lefel gwasanaeth (CLG)**

29. A yw'r UCD yn rhoi contractau neu CLG i ddarparwyr sy'n cael eu comisiynu'n uniongyrchol? [cofnodwch y ddau lle bo hynny'n briodol]

30. Pa mor dda neu beidio y mae'r dull hwn yn gweithio yn eich barn chi? Pam ydych chi'n dweud hyn?

Lle nad yw'r UCD yn dyfarnu contractau/cytundebau lefel gwasanaeth

31. Sut mae'r UCD yn dwyn y darparwr i gyfrif am gyflwyno'r ddarpariaeth a gomisiynir?

32. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dull hwn?

**J. Y camau a gymerir ar ôl dyfarnu contract/trefnu darpariaeth gyda darparwr**

33. Pa gamau mae'r UCD yn eu cymryd ar ôl dyfarnu neu gomisiynu darpariaeth?

34. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau y dulliau gweithredu a fabwysiadir gan yr UCD ar ôl dyfarnu contract/cytuno i ddarpariaeth?

**K. Monitro darpariaeth**

35. A yw'r UCD yn monitro ansawdd y ddarpariaeth y mae'n ei threfnu i'w disgyblion?

36. Sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio?

37. A yw'r UCD yn ymweld ag adeiladau darparwyr i fonitro ansawdd y ddarpariaeth y mae'r UCD yn ei darparu i'w disgyblion?

38. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dull a fabwysiadwyd gan yr UCD i fonitro ansawdd y ddarpariaeth y mae'n ei chomisiynu/trefnu ar gyfer ei disgyblion?

**L. Lle mae'r ALl wedi comisiynu darparwyr allanol (colegau, ysgolion annibynnol, darparwyr annibynnol addysg heblaw yn yr ysgol ac ati) i ddarparu darpariaeth addysgol**

39. Pa fath o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol gan ALl y mae disgyblion yn eich UCD wedi'i chael?

40. Ydych chi'n ymwybodol o'r prosesau a fabwysiadwyd gan yr ALl i nodi darparwyr allanol addysg heblaw yn yr ysgol (megis defnyddio rhestr gymeradwy, fframwaith comisiynu neu hybysbeu contractau'n gyhoeddus)?

41. Ydych chi'n ymwybodol a yw'r ALl yn cyhoeddi contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol?

42. Ydych chi'n ymwybodol o'r camau y mae'r ALl yn eu cymryd ar ôl dyfarnu neu gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer disgyblion yn eich UCD?

43. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r UCD yn rhan o'r broses o gomisiynu/trefnu'r ddarpariaeth allanol a drefnir gan yr ALl ar gyfer disgyblion yn yr UCD?

44. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau y dulliau gweithredu a fabwysiadir gan yr ALl ar ôl dyfarnu contract?

## M. Rheoli ac adolygu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol

45. Pa ddata y mae'r ALl yn eu casglu am eich disgyblion mewn perthynas â'r ddarpariaeth allanol? (e.e. presenoldeb, ymddygiad, llesiant, cyflawniadau)

46. Ydych chi'n ymwybodol o'r trefniadau a roddwyd ar waith gan yr ALl i fonitro'r ddarpariaeth allanol y maent yn ei threfnu ar gyfer disgyblion yn yr Uned Bolisi?

47. A yw'r ALl yn ymweld ag adeiladau darparwyr allanol i asesu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn yr UCD?

48. Pa rôl, os o gwbl, sydd gan yr UCD wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth allanol a drefnir gan yr ALl?

49. A yw'r UCD yn ymweld ag adeiladau darparwyr allanol i asesu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn yr ALl?

## N. Canllawiau Llywodraeth Cymru yn y Dyfodol

50. Pa ganllawiau, os o gwbl, y gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi mewn perthynas â chomisiynu a rheoli addysg heblaw yn yr ysgol/darpariaeth addysg ar gyfer plant sy’n ei chael yn anodd mynychu ysgol prif ffrwd a gynhelir?

## Canllaw Trafod Lled-Strwythuredig - Darparwyr Allanol

**A. Ymwneud ag addysg heblaw yn yr ysgol**

1 Dywedwch wrthyf am
- Eich rôl
- Eich sefydliad

2 Ym mha ffordd y mae eich sefydliad yn ymwneud â chyflwyno darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

3 Pa sefydliadau sy'n eich comisiynu i gyflwyno darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

4 [Os ydych yn gweithio ar draws mwy nag un ardal ALl] Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ALl sy'n comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar y cyd?

**B. Dull cyffredinol o ymdrin â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

5 Beth yw eich dealltwriaeth o'r hyn yw darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

6 Beth ydych chi'n teimlo yw'r manteision [i ALlau, UCD ac ysgolion, fel y bo'n briodol] yn sgil comisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr fel chi?

7 Beth ydych chi'n teimlo yw'r anfanteision [i'r ALl, UCD ac ysgolion, fel y bo'n briodol] o gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr fel chi?

8 [Os ydych yn gweithio ar draws mwy nag un ardal ALl ac mae gennych brofiad o ddarpariaeth sy'n cael ei chomisiynu ar y cyd] Beth yw'r manteision a'r anfanteision i ALlau yn sgil comisiynu darpariaeth ar y cyd?

**C Nodi'r galw a'r cyflenwad o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

9 Sut y clywsoch chi gyntaf am y cyfleoedd i ymwneud â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

## D Lleoli plentyn mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol - nodi anghenion a deilliannau addysgol

10 Sut mae disgyblion sydd angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn dod yn ymwybodol o'ch sefydliad, neu'n cael eu hatgyfeirio ato?

11 Pryd y mae anghenion y plentyn yn cael eu nodi?

12 Pryd mae'r deilliannau addysgol (cyrhaeddiad, presenoldeb, llesiant ac ati) ar gyfer y plentyn yn cael eu nodi?

## E Comisiynu darpariaeth allanol addysg heblaw yn yr ysgol

13 A yw'ch sefydliad ar restr awdurdod lleol o ddarparwyr cymeradwy? Os felly,

- Sut y clywsoch chi am y cyfle hwn? A gafodd y cyfleoedd ei hysbysebu?
- Pa broses aeth eich sefydliad drwyddi er mwyn cael ei gynnwys ar y rhestr?

14 A yw'ch sefydliad ar fframwaith/fframweithiau comisiynu awdurdodau lleol? Os felly,

- Sut mae'r ALl yn comisiynu darpariaeth drwy'r fframwaith hwn e.e. a yw'n hysbysebu ac yn dyfarnu contractau ar gyfer lleoliadau unigol a/neu'n defnyddio contractau lleoli bloc?

15 A yw'r ALl(au) yn mabwysiadu dull cystadleuol neu a yw/ydynt yn cysylltu ag un darparwr ar y rhestr/fframwaith?

16 [Lle y defnyddir dull cystadleuol] Pa feini prawf asesu a ddefnyddir i ddyfarnu contractau ar gyfer darpariaeth?

17 [Lle y defnyddir dull cystadleuol] Pa mor briodol yw'r meini prawf asesu a ddefnyddir i ddyfarnu contractau ar gyfer darpariaeth, yn eich barn chi?

18 [Lle nad yw'r darparwr ar restr o ddarparwyr cymeradwy neu ar fframwaith comisiynu] Pa broses a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i gomisiynu lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol gan eich sefydliad?

19 [Lle mae'r darparwr yn cael ei gomisiynu'n uniongyrchol gan ysgol] Sut mae'r ysgol(ion) yn mynd ati i gomisiynu lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol gan eich sefydliad?

20 [Pan fydd darparwr yn cael ei gomisiynu'n uniongyrchol gan UCD] Sut mae'r UCD yn mynd ati i gomisiynu lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol gan eich sefydliad?

## F Contractau rhwng sefydliadau comisiynu a darparwr addysg heblaw yn yr ysgol

21 A yw sefydliadau comisiynu (ALl, ysgolion ac UCD, fel y bo'n briodol) yn rhoi contract i'ch sefydliad sy'n ymwneud â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

22 [Lle mae gan y sefydliad gontract neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer lleoliadau unigol]

- A yw contractau unigol yn cael eu rhoi ar waith cyn i'r lleoliadau ddechrau?

## G Gweithgareddau yn dilyn dyfarnu contract/cadarnhau darparwr sy'n cael ei gomisiynu i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol

23 Pa gamau a gymerir ar ôl i'r contract gael ei ddyfarnu i'ch sefydliad neu pan fydd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol wedi'i chomisiynu?

24 Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dull a fabwysiadwyd gan ALl(au)/ysgolion/UCD ar ôl dyfarnu contract?

## H Cofrestru a chynlluniau ailintegreiddio

25 Yn ôl eich dealltwriaeth chi, beth yw'r polisi presennol mewn perthynas â statws cofrestru disgyblion a atgyfeiriwyd at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? E.e. cofrestriad sengl gyda'r ysgol, yr ALl, neu gofrestriad deuol?

26 Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r dull cofrestru presennol?

27 Beth, os o gwbl, yw polisi'r ALl ar ailintegreiddio disgyblion yn ôl i addysg prif ffrwd?

28 Beth yw cryfderau a gwendidau'r dull ailintegreiddio presennol?

## I Rheoli ac adolygu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynir yn allanol

29 Pa ddata ar lefel disgyblion y mae disgwyl i chi eu casglu am bobl ifanc sy'n cael eu lleoli gyda'ch sefydliad ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

30 [Gofynnwch ym mhob achos fel sy'n briodol ar gyfer (i) ALlau, (ii) Ysgolion a (iii) UCD] Sut mae sefydliadau comisiynu yn monitro ansawdd y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a ddarperir gan eich sefydliad?

31 Ydych chi'n derbyn ymweliadau i asesu ansawdd eich darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

## J Canllawiau Llywodraeth Cymru yn y Dyfodol

32 Pa ganllawiau, os o gwbl, y gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi mewn perthynas â chomisiynu a rheoli darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?